Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Diwedd tecach i berthnasoedd

## Ymgynghoriad ar ddiwygio rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgariad a chryfhau amddiffyniadau ar gyfer cyd-breswylwyr ar ddiwedd eu perthynas.

**Mehefin 2026**

CP 1581

Government of the United Kingdom

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

# Diwedd tecach i berthnasoedd

## Ymgynghoriad ar ddiwygio rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgariad a chryfhau amddiffyniadau ar gyfer cyd-breswylwyr ar ddiwedd eu perthynas.

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar Orchymyn Ei Fawrhydi

Mehefin 2026

CP 1581

**© Hawlfraint y Goron 2026**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn: frcohabconsultation@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-6191-1

E03533468 06/26

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **I:** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd. Byddai gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan academyddion, ymarferwyr cyfraith teulu, barnwyr ac ynadon y Llysoedd Teulu, Seneddwyr, sefydliadau cymorth ac aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb yn y gyfraith ynghylch cyplau sy'n cyd-fyw a darpariaeth ariannol ar gyfer ysgariad yng Nghymru a Lloegr. |
| **Hyd:** | O 05/06/2026 tan 14/08/2026 |
| **Dylid anfon ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:** | Family Justice Policy Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: frcohabconsultation@justice.gov.uk |
| **Sut mae ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 14 Awst 2026 at:<br><br>Family Justice Policy Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: frcohabconsultation@justice.gov.uk |

# Cynnwys

**Rhagair** **2**

**Geirfa** **5**

**Crynodeb gweithredol** **9**

**Cyflwyniad** **13**

**Y gyfraith bresennol** **14**

Y gyfraith bresennol ar ysgaru a diddymu ar gyfer parau priod a phartneriaid sifil 14

Y gyfraith bresennol sydd ar gael i gyplau sy'n cyd-fyw wrth wahanu 17

Y gyfraith bresennol ar etifeddiant 20

**Yr achos dros ddiwygio'r gyfraith** **22**

**Y dull diwygio** **27**

**Y cynigion** **30**

Rhan 1: Diwygio'r gyfraith rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgaru 32

Rhan 2: Diwygio'r gyfraith ar gyfer cyplau sy'n Cyd-fyw wrth wahanu 55

Rhan 3: Diwygio'r gyfraith ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw ynghylch diewyllysedd 73

**Holiadur** **81**

**Amdanoch chi** **87**

**Manylion cysylltu/Sut mae ymateb** **88**

Copïau ychwanegol 88

Grwpiau cynrychioliadol 88

Cyfrinachedd 88

**Asesiad effaith, cydraddoldeb a'r Gymraeg** **90**

**Egwyddorion ymgynghori** **91**

# Rhagair

Teuluoedd yw sylfaen ein cymdeithas ac mae'r llywodraeth Lafur hon wedi ymrwymo i gefnogi a diogelu yr holl fathau o deuluoedd. Mae'r ffordd y mae pobl yn ffurfio teuluoedd yng Nghymru a Lloegr wedi newid yn sylweddol dros y chwarter canrif diwethaf, gan adlewyrchu patrymau newidiol ym mywyd teuluol. Er hynny, nid yw'r gyfraith wedi symud yn ei blaen i gyd-fynd â realiti teuluoedd modern, gan adael llawer o bobl heb unrhyw hawliau ac yn wynebu caledi ariannol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig rhai o'r diwygiadau mwyaf i gyfraith teulu ers degawdau – gan ddod â'r gyfraith i'r unfed ganrif ar hugain, gan roi teuluoedd mewn sefyllfa ariannol well, a chynyddu amddiffyniadau i filiynau o bobl.

Mae dros 3.5 miliwn o gyplau yn byw gyda'i gilydd heb briodi neu ymrwymo i bartneriaeth sifil. Mae'r rhif hwn wedi mwy na dyblu dros y tri degawd diwethaf. Er gwaethaf hyn, ychydig iawn o amddiffyniadau ariannol sydd i gyplau sy'n cyd-fyw, a'u plant, petai berthynas yn dod i ben.

Yn rhy aml, mae teuluoedd yn gorfod llywio cyfraith eiddo gymhleth nad oedd wedi'i dylunio i ddiwallu eu hanghenion. Mae canlyniadau gwirioneddol oherwydd yr hawliau cyfyngedig hyn. Gall dioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig, gan gynnwys cam-drin ariannol, fod yn gaeth mewn perthnasoedd anniogel, tra bod plant yn wynebu ansefydlogrwydd, er nad oes ganddynt unrhyw reolaeth dros statws priodasol eu rheini. Gall partneriaid dibriod ddiweddu heb unrhyw etifeddiaeth os bydd eu partner yn marw heb adael ewyllys, gan ychwanegu straen yn ystod un o adegau anoddaf eu bywydau.

Yn ein maniffesto, rydym wedi ymrwymo i gryfhau'r hawliau a'r amddiffyniadau sydd ar gael i fenywod sy'n rhan o gwpl sy'n cyd-fyw, fel rhan o uchelgais ehangach i haneru trais yn erbyn menywod a merched o fewn degawd. Mae'r ymgynghoriad hwn yn marcio cychwyn y daith honno. Rydym yn ceisio barn ar sut gallwn adeiladu fframwaith cyfreithiol tecach: un sy'n adlewyrchu realiti bywyd teuluol modern, ac sy'n diogelu'r bobl sydd fwyaf agored i niwed, ond sydd dal i gynnal natur arbennig priodas.

Mae diogelu rhag cam-drin domestig yn thema allweddol yn yr ymgynghoriad hwn. Fel rhan o hyn, mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar sut gall y llysoedd ystyried cam-drin domestig mewn achosion rhwymedi ariannol ac achosion cyd-fyw.

Mae'r fframwaith cyfreithiol sy'n pennu sut mae asedau ariannol yn cael eu rhannu mewn ysgariad hefyd wedi parhau i fod yr un fath am dros hanner canrif. Er bod priodas yn parhau i fod yn ymrwymiad oes i lawer, rhaid i'r gyfraith ddarparu eglurder a thegwch mewn amgylchiadau pan ddaw priodas i ben. Bu i Gomisiwn y Gyfraith ganfod bod y system gyfredol yn gallu arwain at ganlyniadau ansicr, achosi i wrthdaro bara am gyfnod

hirach a hyd yn oed gwaethygu'r gwrthdaro. Creda'r llywodraeth y dylai'r gyfraith wneud y gwrthwyneb: sef annog cytundeb a setliad lle bo'n bosibl.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â sicrhau bod y gyfraith yn gweithio i'r sawl sy'n cael ysgariad, gan gynnig yr hyn maen nhw ei angen ar adegau anodd yn eu bywydau. Rhan o hynny yw sicrhau bod y gyfraith yn fwy eglur a thryloyw, fel ei bod yn fwy hygyrch i'r sawl sy'n ei defnyddio. Dylai'r diwygio hefyd roi mwy o ymreolaeth i gyplau wrth gynllunio eu trefniadau ariannol ar gyfer y dyfodol. Dyma pam bod yr ymgynghoriad hwn yn cynnig i gyflwyno Cytundebau Priodasol Cymwys, gan alluogi cyplau i benderfynu ymlaen llaw sut y dylid trefnu materion ariannol os bydd ysgariad, gan sicrhau trefniadau diogelu i wneud yn siŵr bod anghenion yn cael eu diwallu ac i ddiogelu partïon rhag gorfodaeth.

Bydd priodas wastad yn un o ddefodau pwysicaf ein gwlad. Mae ymrwymo i briodas neu bartneriaeth gydol oes yn darparu llawer o fuddion, gan gynnwys cymorth emosiynol, sefydlogrwydd ariannol ac amddiffyniadau cyfreithiol. Bydd cynnig hawliau penodol i gyplau dibriod yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gefnogi perthnasoedd teuluol cadarn a sefydlog ni waeth ym mha ffurf y maent.

Mae cefnogi teuluoedd hefyd yn golygu sicrhau bod gan deuluoedd sicrwydd ariannol ac mae'r diwygiadau hyn yn rhan allweddol o ymdrechion y llywodraeth i leihau'r baich ar deuluoedd. Byddai fframwaith cliriach i gyplau sy'n ysgaru yn ei wneud yn haws i ddatrys materion ariannol heb yr angen i fynd i'r llys, gan helpu i osgoi ffioedd llys costus. Byddai mwy o eglurder o ran y gyfraith hefyd yn rhoi mwy o hyder i gyplau wrth gynllunio eu trefniadau ariannol ar gyfer y dyfodol, ar adeg pan mae aelwydydd dan bwysau ariannol. Byddai sicrhau mesurau diogelwch i gyplau sy'n cyd-fyw, gyda llawer ohonynt ddim yn ymwybodol nad oes ganddynt yr un hawliau â chwpl priod, hefyd yn darparu amddiffyniad rhag amddifadedd ariannol.
Mae'r ymgynghoriad hwn yn cefnogi ymdrechion ehangach y llywodraeth i gefnogi teuluoedd. Ers yr etholiad, rydym wedi dileu'r cyfyngiad dau-blentyn ar Gredyd Cynhwysol, gan dynnu dros 450,000 o blant allan o dlodi. Rydym yn buddsoddi dros £9.5 biliwn mewn hawliau blynyddoedd cynnar yn 2026-27, gan fwy na dyblu'r buddsoddiad blynyddol yn y sector o gymharu â 2023-24. Rydym hefyd wedi lansio adolygiad pwysig o absenoldeb rhieni. Ac rydym wedi cyhoeddi ein *Strategaeth Rhyddid o Drais a Chamdriniaeth*, sy'n pennu'r cymorth cadarn i deuluoedd trwy fuddsoddiadau trawsnewidiol mewn gofal cymdeithasol i blant a'r Canolfannau Teulu Cychwyn Gorau, a fydd yn galluogi gwasanaethau teulu i fynd i'r afael â cham-drin domestig a helpu i feithrin cartrefi diogel a chariadus.

O fewn fy adran i, rydym hefyd wedi cyhoeddi pecyn o ddiwygiadau i'r llysoedd teulu a fydd yn diogelu plant yn well. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i ddiddymu'r rhagdybiaeth o rieni'n cymryd rhan ac, yn dilyn Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf Dioddefwyr a'r Llysoedd ym mis Ebrill, i gyfyngu'n awtomatig ar ymarfer cyfrifoldeb rhiant lle bo unigolyn wedi cael

euogfarn am drosedd rhywiol difrifol yn erbyn unrhyw blentyn a lle bo plentyn wedi'i eni o ganlyniad i dreisio.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i fynd ymhellach. Rydym eisiau clywed gan bawb: gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith, academyddion, elusennau, grwpiau â buddiant, ac aelodau'r cyhoedd. Bydd eich safbwyntiau yn helpu i siapio system sy'n decach, yn fwy eglur ac yn fwy addas ar gyfer y gymdeithas rydym yn byw ynddi heddiw.

Edrychaf ymlaen at glywed eich safbwyntiau.



**Y Gwir Anrhydeddus David Lammy AS**

Dirprwy Brif Weinidog y DU, Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

# Geirfa

**"Buddiant llesiannol"**: mae unigolyn sydd â buddiant llesiannol yn mwynhau manteision eiddo neu ased, heb fod yn berchennog cyfreithiol o reidrwydd, fel yr hawl i fyw ynddo, i gael incwm rhent neu i gael cyfran o'r elw os caiff ei werthu.

**"Teulu cyfunol"**: teulu lle mae gan un partner neu'r ddau ohonynt blant o berthynas flaenorol a'u bod yn cyfuno i ffurfio uned deulu newydd.

**"Cynhaliaeth plant"**: taliadau rheolaidd a wneir gan un rhiant i riant arall i dalu costau byw plentyn. Gellir trefnu hyn drwy gytundeb rhwng rhieni neu ei reoli drwy'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant.

**"Y Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant" (CMS):** y corff statudol sy'n pennu ac yn gweinyddu cynhaliaeth plant.

**"Codeiddio-plws"**: model diwygio cyfraith rhwymedïau ariannol ar ysgaru a diddymu a gynigiwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad yn 2024 ar gyfraith rhwymedïau ariannol. O dan y model hwn, byddai egwyddorion cyfraith achosion sefydledig yn cael eu nodi'n glir mewn deddfwriaeth, gyda diwygiadau statudol ychwanegol wedi'u targedu lle mae'r gyfraith yn ansicr ar hyn o bryd.

**"Ymddygiad gorfodaethol"**: gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygythiadau, bychanu a brawychu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr.

**"Cytundebau cyd-fyw**": cytundebau neu gontractau a all nodi manylion perchnogaeth eiddo, amlinellu cyfrifoldebau ariannol pob partner yn ystod y berthynas a nodi beth ddylai ddigwydd os bydd eu perthynas yn chwalu.

**"Myth priodas cyfraith gyffredin"**: y gred gyfeiliornus y gall cyplau dibriod gael hawliau tebyg i rai parau priod os ydynt wedi byw gyda'i gilydd am gyfnod neu os oes ganddynt blentyn.

**"Ymddygiad rheolaethol"**: gweithred neu batrwm o weithredoedd sydd wedi'u cynllunio i wneud rhywun yn israddd a/neu'n ddibynnol drwy ei gadw ar wahân i ffynonellau cymorth, manteisio ar ei adnoddau a'i allu er budd personol a'i amddifadu o'r modd sydd ei angen arno er mwyn bod yn annibynnol, er mwyn gwrthsefyll ac er mwyn dianc a rheoli ei ymddygiad o ddydd i ddydd.

**"Partneriaeth sifil"**: perthynas wedi'i chofrestru'n gyfreithiol rhwng dau berson sy'n darparu'r un hawliau cyfreithiol adeg diddymu â'r rhai sydd ar gael i barau priod adeg ysgaru.

**"Deddf Partneriaeth Sifil 2004"**: y Ddeddf sy'n nodi sut y caiff y partneriaethau hyn eu ffurfio a sut y gellir eu diddymu.

**"Toriad llwyr**": rhoi terfyn ar rwymedigaethau ariannol a diystyru pob hawliad ariannol yn y dyfodol rhwng partïon sy'n ysgaru.

**"Diddymu"**: terfynu partneriaeth sifil yn gyfreithiol.

**"Ysgariad**": terfynu priodas yn gyfreithiol.

**"Cam-drin Domestig"**: diffinnir yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 fel ymddygiad camdriniol rhwng dau berson 16 oed neu hŷn sydd â chysylltiad personol â'i gilydd, ni waeth a yw'r ymddygiad yn cynnwys un digwyddiad neu gyfres o ymddygiadau (patrwm ymddygiad).

**"Cam-drin Economaidd"**: diffinnir yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 fel unrhyw ymddygiad sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar allu unigolyn i gaffael, defnyddio neu gadw arian neu eiddo arall neu gael nwyddau neu wasanaethau.

**"Ystâd"**: cyfanswm holl eiddo, hawliau a buddiannau unigolyn adeg ei farwolaeth, llai'r holl rwymedigaethau, dyledion a threuliau.

**"Gwrandawiad canfod ffeithiau"**: gwrandawiad llys lle mae'r llys yn gwneud penderfyniadau ynghylch a yw honiadau y mae anghydfod yn eu cylch yn wir ai peidio. Er enghraifft, gellir rhestru gwrandawiadau canfod ffeithiau mewn achosion plant cyfraith breifat lle mae un parti'n gwneud honiadau o gam-drin domestig, sy'n cael eu gwadu gan y parti arall. Bydd y llys yn defnyddio'r gwrandawiad canfod ffeithiau i benderfynu ar wirionedd yr honiadau hyn.

**"Llysoedd Teulu"**: y Llys Teulu ac Adran Deulu'r Uchel Lys yng Nghymru a Lloegr, sy'n gwrando ar geisiadau sy'n ymwneud ag anghydfodau teuluol, gan gynnwys ceisiadau am rwymedi ariannol adeg ysgaru.

**"Gorchymyn ariannol"**: gorchymyn llys sy'n nodi sut y rhennir arian ac eiddo ar ôl ysgariad neu ddiddymiad, er budd priod neu blant.

**"Achos rhwymedi ariannol"**: achosion yn y Llysoedd Teulu lle mae un parti (neu'r ddau barti) wedi gwneud cais am orchymyn ariannol ar adeg neu ar ôl ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil.

**"Caniatáu llythyrau gweinyddu"**: yr awdurdod cyfreithiol ffurfiol a gyhoeddir gan y Gofrestrfa Profiant sy'n caniatáu i unigolyn reoli a dosbarthu ystâd rhywun sydd wedi marw heb adael ewyllys ddilys.

**"Caniatáu profiant"**: yr awdurdod cyfreithiol ffurfiol a roddir gan y Gofrestrfa Profiant sy'n caniatáu i'r ysgutor a enwir mewn ewyllys ddilys weinyddu ystâd person ymadawedig.

**"Diewyllysedd"**: y sefyllfa pan fydd person yn marw heb adael ewyllys ddilys (maent yn marw'n "ddiewyllys").

**"Rheolau Diewyllysedd"**: y rheolau statudol sy'n rheoli sut mae ystâd yn cael ei gweinyddu a'i dosbarthu pan fydd unigolyn wedi marw heb adael ewyllys ddilys.

**Deddf Etifeddiant (Darpariaeth i Deulu a Dibynyddion) 1975 (I(PFD)A 1975):** deddfwriaeth sy'n galluogi'r llysoedd i orchymyn darpariaeth ariannol resymol o ystâd person ymadawedig ar gyfer aelodau cymwys o'r teulu a dibynyddion.

**"Gorchymyn bywydau ar y cyd"**: math o daliad cynhaliaeth sy'n parhau am gyfnod amhenodol oni bai fod un parti'n marw, bod y derbynnydd yn ailbriodi neu fod y Llysoedd Teulu'n gwneud gorchymyn arall.

**"Disgresiwn Barnwrol"**: gallu barnwyr i wneud penderfyniadau ar sail eu barn eu hunain wrth ystyried achos.

**"Cyfnod cyfyngu"**: amserlen ar gyfer gwneud cais i'r llys.

**"Gorchymyn cyfandaliad"**: math o orchymyn rhwymedi ariannol sy'n ei gwneud yn ofynnol i un parti dalu swm penodol o arian i'r llall.

**"Cynhaliaeth"**: taliadau rheolaidd a wneir gan un parti i barti arall (bob mis fel arfer) i ddiwallu anghenion incwm parhaus.

**"Deddf Achosion Priodasol 1973" (MCA 1973):** y ddeddfwriaeth sy'n nodi pa orchmynion ariannol y gall y Llysoedd Teulu eu gwneud ar gyfer ysgaru, a'r ffactorau y dylai'r Llysoedd Teulu eu hystyried wrth wneud y gorchmynion hyn.

**"Priodasoli"**: y broses lle gall eiddo nad yw'n briodasol ddod yn eiddo priodasol.

**"Eiddo priodasol"**: eiddo a enillwyd neu a gafwyd yn ystod y briodas sy'n cynnwys ffrwyth y bartneriaeth briodas, sy'n adlewyrchu'r bartneriaeth briodas neu sy'n gynnyrch ymdrech gyffredin y partïon.

**"Eiddo nad yw'n briodasol"**: fel arfer eiddo cyn priodi a ddygir i briodas gan un o'r partïon neu eiddo a gaffaelwyd gan un o'r partïon drwy etifeddiaeth neu rodd.

**"Rhiant dibreswyl":** Rhiant nad yw'n byw gyda'u plentyn.

**"Cytundeb priodasol"**: cytundeb a wneir cyn neu yn ystod priodas sy'n ceisio pennu'r canlyniadau ariannol os ceir ysgariad. Gwneir cytundebau "cyn priodi" cyn priodi a gwneir cytundebau "ar ôl priodas" ar ôl priodas.

**"Teclynnau personol"**: eiddo diriaethol symudol sy'n eiddo i unigolyn, ac eithrio arian, eitemau defnydd busnes, neu eiddo sy'n cael ei ddal fel buddsoddiad yn unig. Mae enghreifftiau'n cynnwys gemwaith, celf neu ddodrefn.

**"Gorchymyn rhannu pensiwn"**: gorchymyn Llys Teulu sy'n rhannu pensiwn drwy roi canran o gronfa bensiwn i'r sawl sy'n elwa o'r gorchymyn pensiwn, y gallant ei roi mewn pensiwn newydd eu hunain.

**"Gorchymyn atafaelu pensiwn"**: gorchymyn sy'n caniatáu i ganran o bensiwn priod sydd wedi ysgaru gael ei dalu pan fydd yn ymddeol i'w cyn-gymar.

**"Profiant"**: profiant yw'r broses gyfreithiol sy'n digwydd ar ôl i rywun farw, a thrwy hynny rhoddir awdurdod i ddelio â'u hystâd. Mae'n cadarnhau pwy sydd â'r hawl i weithredu, yn caniatáu i ddyledion a threthi gael eu talu, ac yn sicrhau bod unrhyw arian ac eiddo sy'n weddill yn cael eu dosbarthu yn unol â'r ewyllys neu'r gyfraith.

**"Gorchymyn addasu eiddo":** Trosglwyddo perchnogaeth neu fuddiant mewn eiddo o un parti i barti arall.

**"Atodlen 1 Deddf Plant 1989":** deddfwriaeth sy'n nodi pwerau'r Llys Teulu i wneud rhai gorchmynion ariannol er budd plant, pa un a yw'r rhieni'n briod ai peidio.

**"Ffactorau Adran 25"**: "rhestr wirio" o ffactorau penodol a nodir yn adran 25(2) Neddf Achosion Priodasol 1973 y mae'n rhaid i'r Llysoedd Teulu eu hystyried yn benodol wrth benderfynu ar y gorchmynion ariannol y byddant yn eu rhoi mewn achosion rhwymedïau ariannol.

**"Ymddiriedolaeth"**: trefniant cyfreithiol lle mae un person ("ymddiriedolwr") yn dal asedau ar ran un arall ("buddiolwr").

**"Deddf Ymddiriedolaethau Tir a Phenodi Ymddiriedolwyr 1996" (TOLATA 1996):** y Ddeddf sy'n nodi pwerau'r llys i ddatrys anghydfodau sifil ynghylch perchnogaeth eiddo **neu dir.**

**"Dioddefwr-oroeswr":** dioddefwr cam-drin domestig, gan gynnwys cam-drin corfforol neu rywiol, ymddygiad treisgar neu fygythiol, ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, cam-drin economaidd neu gam-drin seicolegol, emosiynol neu fath arall o gam-drin.

**"Ewyllys":** dogfen gyfreithiol y mae person yn ei defnyddio i wneud darpariaeth ar gyfer gwaredu ei ystâd ar farwolaeth.

# Crynodeb gweithredol

**Trosolwg**
Mae'r ymgynghoriad hwn yn dwyn ynghyd dri maes diwygio cysylltiedig sy'n effeithio ar deuluoedd pan ddaw perthnasoedd i ben.

**1. Diwygio cyfraith rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgariad a diddymu**
Nododd adroddiad cwmpasu 2024 Comisiwn y Gyfraith ddiffyg sicrwydd a hygyrchedd yn y gyfraith bresennol. I fynd i'r afael â hyn, mae'r llywodraeth yn gwahodd safbwyntiau ar fodel diwygio "codeiddio-plws", a fyddai'n rhoi ffurf statudol i egwyddorion cyfraith achosion wedi'u setlo, fel "anghenion" a "rhannu".

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn gwahodd safbwyntiau ar ddiwygiadau pellach wedi'u targedu, gan gynnwys cyflwyno cytundebau priodasol cymwys a fyddai'n galluogi cyplau i wneud trefniadau ariannol rhwymol cyn ysgaru neu ddiddymu.

**2. Diwygio'r gyfraith ar gyfer pobl sy'n cyd-fyw pan fyddant yn gwahanu**
Gall y set gyfyngedig iawn o amddiffyniadau o dan y gyfraith bresennol olygu bod pobl sy'n cyd-fyw yn wynebu anawsterau ariannol sylweddol pan ddaw perthnasoedd i ben, sy'n effeithio'n anghymesur ar grwpiau agored i niwed fel menywod, plant a dioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig (gan gynnwys cam-drin economaidd).

Mae'r llywodraeth yn gwahodd safbwyntiau ar gyflwyno fframwaith statudol o hawliau a gwarchodaeth, ar gyfer cyplau cymwys sy'n cyd-fyw adeg y gwahanu, gan gefnogi ei hymrwymiad maniffesto i "gryfhau'r hawliau a'r amddiffyniadau i fenywod mewn cyplau sy'n cyd-fyw". Mae'r llywodraeth yn cynnig y dylai'r fframwaith hwn fod yn fwy cyfyng na'r fframwaith sydd ar gael ar gyfer ysgaru.

**3. Diwygio'r gyfraith ar gyfer pobl sy'n cyd-fyw ynghylch diewyllysedd**
Ar hyn o bryd, nid oes gan bobl sy'n cyd-fyw hawl awtomatig i etifeddu pan fydd partner yn marw heb ewyllys, sy'n gallu golygu bod pobl sy'n cyd-fyw sy'n goroesi neu'n gwahanu yn wynebu caledi ariannol difrifol. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar gynigion i foderneiddio'r gyfraith sy'n effeithio ar bobl sy'n cyd-fyw ynghylch diewyllysedd ac ar fynediad at ddarpariaeth ariannol o ystâd partner sydd wedi marw.

**Mae cysylltiad agos rhwng y tri maes hwn.** Mae ymgynghori arnynt ar yr un pryd yn caniatáu i'r llywodraeth ystyried sut y gellir gwneud darpariaeth ariannol ar ddiwedd perthynas, boed hynny drwy ysgariad, gwahanu neu farwolaeth, yn gliriach, yn fwy cyson ac yn fwy cydnaws â realiti bywyd teuluol modern.

**Egwyddorion sy'n sail i'r ymgynghoriad**
Mae dull y llywodraeth o ddiwygio yn seiliedig ar bedair egwyddor, sy'n sail i'r holl gynigion yn yr ymgynghoriad:

1. **Blaenoriaethu canlyniadau teg i blant:** Rhoi lles plant wrth galon y broses o wneud penderfyniadau drwy sicrhau mai nhw yw ystyriaeth gyntaf y llys, beth bynnag fo statws priodasol eu rhieni, er mwyn cefnogi eu sefydlogrwydd a'u sicrwydd ariannol.
2. **Amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed:** Cryfhau mesurau diogelu ar gyfer y rheini sydd fwyaf mewn perygl o niwed neu ansicrwydd ariannol ar ddiwedd perthynas, gan gynnwys menywod, plant a dioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig (gan gynnwys cam-drin economaidd).
3. **Darparu fframwaith clir a hygyrch:** Sicrhau bod y fframwaith cyd-fyw newydd a chyfraith rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgariad a diddymu yn hawdd eu deall, gyda chanlyniadau mwy rhagweladwy, lleihau gwrthdaro ac ymgyfreitha diangen a gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gyfraith a hyder yn y system.
4. **Cadw statws penodol priodas:** Sicrhau bod amddiffyniadau i gyplau sy'n cyd-fyw yn gymesur, wedi'u targedu ac wedi'u gwahaniaethu'n glir oddi wrth ganlyniadau cyfreithiol llawn priodas, gan gynnal priodas fel sefydliad neilltuol.

## Cynigion craidd

### Rhan 1: Diwygio cyfraith rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgariad a diddymu

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar ddull gweithredu "codeiddio-plws" i ddiwygio cyfraith rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgariad a diddymu partneriaethau sifil. O dan y model hwn, byddai egwyddorion cyfraith achosion sefydledig yn cael eu nodi'n glir mewn deddfwriaeth, gyda diwygiadau statudol wedi'u targedu lle mae'r gyfraith yn ansicr ar hyn o bryd. Y nod yw gwneud y gyfraith yn gliriach, yn fwy cyson ac yn fwy hygyrch.

Mae'r llywodraeth yn cynnig cyflwyno amcan cyffredinol clir ar gyfer rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgariad yn seiliedig ar sicrhau canlyniad teg drwy egwyddorion sefydledig "rhannu" ac "anghenion". Byddai'r egwyddorion hyn yn cael eu codeiddio, sy'n golygu mai man cychwyn y llys yw y dylid rhannu eiddo priodasol yn gyfartal oni bai fod angen rhaniad anghyfartal i ddiwallu anghenion. Mae'r llywodraeth hefyd yn cynnig codeiddio diffiniadau o eiddo priodasol ac eiddo nad yw'n briodasol.

Cynigir dull gweithredu tri cham systematig ar gyfer anghenion, gyda lles plentyn yn cael ei ystyried yn gyntaf, yn cael ei ddilyn gan anghenion cyfalaf ac incwm yr unigolyn ac yn olaf unrhyw anghenion dewisol pellach lle mae adnoddau'n caniatáu. Byddai'r rhwymedïau sydd ar gael yn aros yr un fath ag o dan y gyfraith bresennol.

Mae'r llywodraeth hefyd yn ymgynghori ar gyflwyno cytundebau priodasol cymwys rhwymol, wedi'u hategu gan fesurau diogelu i sicrhau bod unrhyw benderfyniad i ymrwymo i gytundeb o'r fath yn cael ei hysbysu'n llawn ac yn cael ei wneud yn rhydd.

Gwahoddir barn hefyd ynghylch a ddylai'r llys roi mwy o bwys ar effaith cam-drin domestig, gan gynnwys ymddygiad rheolaethol neu gorfodaethol neu gam-drin economaidd, wrth

bennu anghenion a chanlyniadau ariannol ar gyfer ysgariad a gwahanu yn achos cyd-breswylwyr.

**Rhan 2: Diwygio’r gyfraith ar gyfer pobl sy’n cyd-fyw pan fyddant yn gwahanu**
Mae’r ymgynghoriad yn ceisio barn ar fframwaith statudol newydd o hawliau a chyfrifoldebau ar gyfer cyplau cymwys sy’n cyd-fyw pan fyddant yn gwahanu. Byddai’r fframwaith hwn yn cynnig gwarchodaeth gliriach a mwy cyson tra’n aros yn wahanol ac yn fwy cyfyngedig na’r hyn sydd ar gael ar gyfer ysgaru, gan gadw statws unigryw a neilltuol priodas.

Byddai’r fframwaith yn berthnasol yn awtomatig i gyplau cymwys, gydag opsiwn i optio allan lle mae’r ddau bartner yn cytuno. Byddai cymhwysedd wedi’i gyfyngu i oedolion mewn perthnasoedd hirdymor, ymroddedig a rhyngddibynnol sydd wedi byw gyda’i gilydd am o leiaf dair blynedd neu sy’n byw gyda’i gilydd ac yn rhannu plentyn. Fel gydag ysgariad, mae’n debyg y bydd perthynas fyrrach yn denu dyfarniadau mwy cyfyngedig.

Dan y model arfaethedig, byddai’r llys yn dechrau o’r safbwynt bod pob person yn cadw’r hyn y maent yn berchen arno’n gyfreithiol. Ni fyddai’r llys yn gwyro oddi wrth hyn oni bai fod hynny’n angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion diffiniedig unigolyn. Byddai’r anghenion hyn yn cael eu hasesu’n fwy cyfyngedig nag mewn ysgariad, gan eithrio anghenion dewisol, ac yn sicrhau na all cyplau sy’n cyd-fyw gael canlyniad mwy ffafriol na phobl briod mewn amgylchiadau tebyg. Lles plant fyddai’r ystyriaeth gyntaf i’r llys, gan sicrhau bod eu lles yn cael ei ddiogelu lle mae adnoddau’n brin.

Byddai pwyslais cryf yn cael ei roi ar sicrhau toriad llwyr lle bynnag y bo modd. Byddai’r rhwymedïau’n debyg o ran math i’r rhai sydd ar gael ar gyfer ysgariad, er y byddai cynhaliaeth wedi’i chyfyngu i amgylchiadau eithriadol ac amserol, fel materion iechyd tymor hir.

**Rhan 3: Diwygio’r gyfraith ar gyfer pobl sy’n cyd-fyw ynghylch diewyllysedd**
Mae’r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar ddiwygiadau i gyfraith etifeddiant sy’n effeithio ar gyplau sy’n cyd-fyw, gan gynnwys newidiadau i ddiewyllysedd a rheolau darpariaeth deuluol. Mae’r cynigion yn cynnwys ymestyn hawliau diewyllysedd i gydbreswylwyr cymwys, a fyddai’n etifeddu’n awtomatig pan fydd eu partner yn marw heb ewyllys ddilys, yn amodol ar fodloni diffiniad clir a lleiafswm cyfnod.

Mae’r llywodraeth hefyd yn cynnig cysoni hawliau cyplau sy’n cyd-fyw cymwys i weinyddu ystâd partner sydd wedi marw ag unrhyw hawliau etifeddu newydd, gan leihau oedi ac anghydfodau. Yn olaf, gwahoddir barn ar ddileu’r cyfnod cymhwyso i gydbreswylwyr wneud cais am ddarpariaeth ariannol o ystâd partner ymadawedig, lle’r oedd gan y partner sy’n dal yn fyw a’r ymadawedig blant gyda’i gilydd.

## Y Camau nesaf

Bydd ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn llywio’r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i amddiffyn cyplau a’u plant yn well. Bydd unrhyw ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno pan fydd amser seneddol yn caniatáu hynny.

# Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn cyflwyno cynigion y llywodraeth, a fydd yn destun ymgynghoriad, i ddiwygio'r gyfraith sy'n llywodraethu trefniadau ariannol ac amddiffyniadau pan fydd perthnasoedd yn dod i ben yng Nghymru a Lloegr. Mae'n dod â thri maes cysylltiedig ynghyd: rhwymedïau ariannol ar ysgariadau a diddymiadau, darpariaeth ariannol i gyplau sy'n cyd-fyw pan fyddant yn gwahanu, a darpariaeth etifeddiaeth i gyplau sy'n cyd-fyw pan fydd marwolaeth.

Mae'r tri maes diwygio hyn wedi'u cysylltu'n agos, gyda phob un yn siapio sut bydd teuluoedd yn cael eu cefnogi pan fydd perthnasoedd yn dod i ben. Bydd ymgynghori arnynt gyda'i gilydd yn galluogi'r llywodraeth i adeiladu fframwaith eglur a rhesymegol sy'n gweithio i bob teulu. Felly fe'ch anogwn i ddarllen y ddogfen yn ei chyfanrwydd, gan bod y cynigion wedi'u datblygu i weithredu ar y cyd fel rhan o fframwaith cydlynol.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at Seneddwyr, barnwriaeth y Llys Teulu, ymarferwyr y gyfraith deulu, academyddion, sefydliadau cefnogi ac aelodau o'r cyhoedd gyda buddiant yng nghyfraith rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgariadau, a hawliad cyd-breswylwyr pan fyddant yn gwahanu neu pan fydd marwolaeth.

Mae/bydd fersiwn Saesneg o'r ymgynghoriad ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/consultations/a-fairer-end-to-relationships

Mae Asesiad o'r Effaith yn dangos bod cyplau sy'n gwahanu, GLITEF, y farnwriaeth a'r proffesiwn cyfreithiol yn debygol o gael eu heffeithio arnynt fwyaf. Mae'r cynigion yn annhebygol o arwain ar gostau ychwanegol neu gynilion i fusnesau, elusennau neu'r sector gwirfoddol. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/consultations/a-fairer-end-to-relationships

# Y gyfraith bresennol

Pan fo pâr priod yn ysgaru, neu bartneriaeth sifil yn cael ei diddymu, yng Nghymru a Lloegr, ceir fframwaith statudol sy'n galluogi'r Llysoedd Teulu i wneud gorchmynion ariannol i rannu arian ac eiddo'r cwpl.

I'r gwrthwyneb, pan fydd cyplau sy'n cyd-fyw yn gwahanu, nid oes fframwaith statudol cyffredinol cyfatebol. Yn hytrach, efallai y bydd angen i gyplau sy'n cyd-fyw ddibynnu ar ddarpariaethau nad oeddent wedi'u cynllunio gyda'u hamgylchiadau penodol mewn golwg.

Yn gyntaf, mae'r adrannau isod yn amlinellu'r rhwymedïau ariannol sydd ar gael ar gyfer ysgaru a diddymu cyn nodi'r opsiynau sydd ar gael ar hyn o bryd i gyplau sy'n cyd-fyw.

## Y gyfraith bresennol ar ysgaru a diddymu ar gyfer parau priod a phartneriaid sifil

Wrth wneud cais am ysgariad, neu ddiddymu partneriaeth sifil, neu ar ôl hynny, gall y naill barti neu'r llall wneud cais i'r Llysoedd Teulu am rwymedïau ariannol. Gorchmynion ariannol yw'r rhain y gall y llys eu gwneud i rannu asedau rhwng y cwpl sy'n gwahanu a darparu unrhyw gynhaliaeth barhaus gan un parti i'r llall.

Mae'r gyfraith sy'n rheoli ceisiadau rhwymedi ariannol ar gyfer ysgariad wedi'i chynnwys yn Neddf Achosion Priodasol 1973 ("MCA 1973"), gyda darpariaethau cyfatebol yn Neddf Partneriaethau Sifil 2004 i bartneriaid sifil ar gyfer diddymu. Er mwyn cadw pethau'n syml, dim ond at MCA 1973 a chyplau sy'n ysgaru y bydd yr ymgynghoriad hwn yn cyfeirio, ond bydd yr un mor berthnasol i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 a diddymu.

Pan fydd y llys yn ystyried cais am rwymedi ariannol, mae amrywiaeth o orchmynion ariannol ar gael iddo. Mae'r rhain yn cynnwys cyfandaliadau untro, taliadau cynhaliaeth/cyfnodol rheolaidd a gorchmynion sy'n ymwneud ag eiddo fel trosglwyddo perchnogaeth neu orchymyn gwerthiant. Yn ogystal, gall y llys ailddosbarthu pensiynau drwy orchmynion rhannu pensiwn neu, yn llai aml, gorchmynion atafaelu pensiwn.

Wrth ddod i benderfyniad ynghylch pa orchmynion i'w gwneud, os o gwbl, rhaid i'r llys gyfeirio at statud a chyfraith achosion. O dan statud, mae adran 25 MCA 1973 yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys ystyried holl amgylchiadau'r achos, a lles unrhyw blentyn yn y teulu o dan 18 oed yw'r ystyriaeth gyntaf. Rhaid i'r llys hefyd roi sylw penodol i restr o ffactorau a nodir yn adran 25(2) (a elwir yn "ffactorau adran 25").

**Y "Ffactorau Adran 25"**

a) yr incwm, y gallu i ennill cyflog, yr eiddo a'r adnoddau ariannol eraill sydd gan bob un o'r partïon yn y briodas neu maent yn debygol o'u cael yn y dyfodol agos, gan gynnwys, yn achos y gallu i ennill cyflog, unrhyw gynnydd yn y capasiti hwnnw y byddai'n rhesymol disgwyl ym marn y llys i barti yn y briodas gymryd camau i'w gaffael;

b) yr anghenion, y rhwymedigaethau a'r cyfrifoldebau ariannol sydd gan bob un o'r partïon yn y briodas neu maent yn debygol o'u cael yn y dyfodol agos;

c) y safon byw a fwynhawyd gan y teulu cyn i'r briodas chwalu;

d) oedran pob parti i'r briodas a hyd y briodas;

e) unrhyw anabledd corfforol neu feddyliol sydd gan y naill barti neu'r llall i'r briodas;

f) y cyfraniadau y mae pob un o'r partïon wedi'u gwneud neu'n debygol o'u gwneud yn y dyfodol agos i les y teulu, gan gynnwys unrhyw gyfraniad drwy ofalu am y cartref neu ofalu am y teulu;

g) ymddygiad pob un o'r partïon, os yw'r ymddygiad hwnnw yn golygu y byddai, ym marn y llys, yn annheg ei ddiystyru;

h) mewn achos ysgariad neu ddiddymu priodas, gwerth unrhyw fudd i bob un o'r partïon yn y briodas a fydd, oherwydd diddymu neu ddirymu'r briodas, yn colli'r cyfle i'w gael.

Yn gyffredinol, mae'r ffactorau hyn yn rhoi disgresiwn eang i'r llys ynghylch pa orchmynion rhwymedi ariannol i'w gwneud, yn dibynnu ar ffeithiau unigol yr achos. Mae cyfraith achosion wedi pennu ymhellach, yn *White v White*, mai "tegwch" yw'r amcan allweddol y dylai'r llys ei ystyried wrth rannu cyllid.[1] Mae *Miller v Miller; Mae McFarlane v McFarlane* yn nodi y dylai tair egwyddor gyffredinol lywio'r gwaith o gyflawni'r canlyniad hwn: **Rhannu, Anghenion a Digolledu.**[2]

[1] *White v White* [2000] UKHL 54, [2001] 1 AC 596.

[2] *Miller v Miller; McFarlane v McFarlane* [2006] UKHL 24, [2006] 2 AC 618.

**Rhannu, anghenion a digolledu**

**Rhannu:** Fel arfer, mae gan y ddau barti i'r briodas hawl i gyfran gyfartal o'r asedau a gaffaelwyd yn ystod y briodas ("eiddo priodasol") oni bai fod rhesymau da dros wyro oddi wrth gydraddoldeb. O dan yr egwyddor rhannu, mae cyfraniadau'r 'gŵr/gwraig tŷ' yn cyfateb i gyfraniadau'r 'enillydd cyflog'. Yn ymarferol, ni fydd y llys fel arfer yn rhannu asedau'n gyfartal oni bai fod gwarged o asedau i ddiwallu anghenion pob un o'r cwpl sy'n ysgaru (a'u plant).[3] Nid oes gwarged o'r fath yn y rhan fwyaf o achosion, felly mae rhannu cyfartal yn gyffredinol yn llai cyffredin na rhannu asedau ar sail angen.[4] Ni fydd eiddo nad yw'n briodasol, yn gyffredinol o'r tu allan i'r briodas, yn cael ei rannu oni bai fod angen yn mynnu hynny.

**Anghenion:** Lle nad yw rhannu asedau'n gyfartal yn diwallu anghenion y partïon dan sylw, gall y barnwr wyro oddi wrth gydraddoldeb i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu. Er bod MCA 1973 yn crybwyll anghenion, nid ydynt wedi'u diffinio. Ystyrir anghenion yn fras fel rhai sy'n cyfeirio at anghenion incwm a chyfalaf y cwpl sy'n ysgaru, anghenion unrhyw blant yn y briodas, yr angen am gartref, yr angen am ddarpariaeth ar gyfer ymddeol a, chyn belled ag y bo modd, osgoi gadael y naill barti neu'r llall yn ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth.[5]

**Digolledu:** Dyma'r egwyddor y dylai'r llys geisio gwneud iawn am unrhyw anfanteision economaidd a ddeilliodd o'r briodas. Yn ymarferol, anaml y bydd y llys yn defnyddio'r egwyddor digolledu.[6]

**Ystyried ymddygiad**

Wrth benderfynu ar ganlyniadau ariannol i bartïon, mae'n rhaid i'r llys ystyried y "ffactorau adran 25" yn MCA 1973, fel yr amlinellir uchod. Un o'r ffactorau hyn yw ymddygiad pob parti, os yw'r llys o'r farn y byddai'n "annheg i'w ddiystyru".[7] Nid yw MCA 1973 yn diffinio "ymddygiad" yn benodol, ond ystyrir i raddau helaeth ei fod yn cyfeirio at a fu

---

[3] Comisiwn y Gyfraith, Rhwymedïau Ariannol adeg Ysgaru a Diddymu:Adroddiad Cwmpasu (HC 460, Law Com No 417, 17 Rhagfyr 2024), para 3.50.

[4] Emma Hitchings, Caroline Bryson, Gillian Douglas, Susan Purdon a Jenny Birchall, Fair Shares? Sorting out money and property on divorce (Nuffield Foundation, 2021), t. 32.

[5] Comisiwn y Gyfraith, Rhwymedïau Ariannol adeg Ysgaru a Diddymu:Adroddiad Cwmpasu (HC 460, Law Com No 417, 17 Rhagfyr 2024), para 2.33.

[6] *Miller v Miller; McFarlane v McFarlane* [2006] UKHL 24, [2006] 2 AC 618, para 13.

[7] Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 25(2)(g).

camymddwyn (ymddygiad gwael) gan y naill gymar neu'r llall.[8] Mae cyfraith achosion wedi sefydlu bod y trothwy ar gyfer ystyried ymddygiad yn uchel iawn.

**Cytundebau priodasol**
Mae cytundebau priodasol, y cyfeirir atynt fel arfer fel cytundebau cyn priodi ("pre-nups"), neu gytundebau ar ôl priodi ("post-nups") yn gytundebau a wneir rhwng cwpl, naill ai cyn neu yn ystod eu priodas. Mae'r cytundebau'n nodi sut y dylid rhannu asedau'r cwpl os bydd ysgariad. Ar hyn o bryd, nid oes modd gorfodi cytundebau priodasol yn awtomatig yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, cynhaliodd y Goruchaf Lys yn *Radmacher v Granatino* y dylid dal cwpl i'w cytundeb priodasol ar yr amod eu bod wedi ymrwymo iddo'n rhydd, gan werthfawrogi'r amgylchiadau'n llawn, oni bai y byddai'n annheg gwneud hynny.[9]

## Y gyfraith bresennol sydd ar gael i gyplau sy'n cyd-fyw wrth wahanu

Nid oedd y gyfraith bresennol wedi'i chynllunio gyda chyplau sy'n cyd-fyw mewn golwg yn benodol. Yn hytrach, rhaid gwneud hawliadau drwy'r llysoedd sifil a rhaid iddynt fod yn seiliedig ar berchnogaeth eiddo. Gellir gwneud unrhyw hawliadau mewn perthynas â phlant i'r llys ond fe'u cyfyngir i fod er budd y plentyn/plant yn unig.

**Perchnogaeth eiddo**
Yng Nghymru a Lloegr, mae anghydfodau eiddo rhwng partneriaid sy'n cyd-fyw yn cael eu rheoli gan Ddeddf Ymddiriedolaethau Tir a Phenodi Ymddiriedolwyr 1996 ("TOLATA 1996"), sy'n seiliedig ar egwyddorion cyfraith ymddiriedolaethau.

Pan fydd mwy nag un person yn berchen ar eiddo'n gyfreithiol, bydd ymddiriedolaeth tir yn cael ei chreu'n awtomatig. Mae hyn yn golygu mai'r perchnogion cyfreithiol yw'r "ymddiriedolwyr" sydd hefyd yn dal yr eiddo ar ran ei gilydd fel "buddiolwyr", gan roi "buddiant llesiannol" i bob parti yn yr eiddo.

Pan fydd anghydfod yn codi ynghylch eiddo, gall y naill barti neu'r llall wneud cais i'r llys o dan adran 14 TOLATA 1996, sy'n grymuso'r llys i benderfynu ar berchnogaeth neu ddefnydd o'r eiddo, gan gynnwys gorchymyn gwerthu, penderfynu ar gyfranddaliadau neu roi hawliau meddiannaeth. Bydd y ffordd y bydd y llys yn ymdrin ag achos fel arfer yn dibynnu ar a yw'r partïon yn gydberchnogion cyfreithiol ar eiddo neu ai un o'r partïon yw unig berchennog cyfreithiol yr eiddo.

---

[8] Comisiwn y Gyfraith, Rhwymedïau Ariannol adeg Ysgaru a Diddymu: Adroddiad Cwmpasu (HC 460, Law Com No 417, 17 Rhagfyr 2024), para 9.3.

[9] *Radmacher v Granatino* [2010] UKSC 42, [2011] 1 AC 534, para 75.

Mewn achosion lle mae eiddo'n cael ei ddal mewn enwau ar y cyd, bydd y llys yn dechrau gyda'r rhagdybiaeth bod y buddiant llesiannol yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y partïon. Mae hyn yn golygu, oni bai fod tystiolaeth i'r gwrthwyneb, bod y llys yn tybio bod pob person yn berchen ar gyfran 50% o'r eiddo. Mewn achosion lle mai un parti yw'r unig berchennog cyfreithiol, y dybiaeth gychwynnol yw mai'r perchennog cyfreithiol sy'n dal yr holl fuddiant llesiannol yn yr eiddo. O ganlyniad, er mwyn hawlio cyfran o'r eiddo'n llwyddiannus, rhaid i'r partner arall brofi bod ganddo fuddiant llesiannol, fel arfer drwy ddangos ei fod wedi gwneud cyfraniadau ariannol neu fod cyd-ddealltwriaeth o berchnogaeth.

Wrth ddod i benderfyniad, rhaid i'r llys ystyried y ffactorau a restrir yn adran 15 TOLATA 1996 sy'n cynnwys bwriadau y tu ôl i greu'r ymddiriedolaeth, pwrpas dal yr eiddo, lles unrhyw blentyn dan oed sy'n byw yn y cartref a buddiannau unrhyw gredydwr a sicrhawyd gan unrhyw fuddiolwr.[10]

O'i gymharu ag achosion ysgaru, mae'r llysoedd sifil yn llawer mwy cyfyngedig o ran y mathau o orchmynion y gallant eu gwneud wrth ddatrys anghydfodau rhwng cyplau sy'n cyd-fyw. Yn wahanol i achosion cyfraith teulu, ni all llysoedd sifil sy'n delio â hawliadau TOLATA ddyfarnu cynhaliaeth, rhannu pensiynau na chyfandaliadau. Mae eu pwerau wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i bennu perchnogaeth eiddo a gorchymyn ei werthu.

**Darpariaeth i blant**
Ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw sy'n gwahanu, mae dau lwybr i'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer darpariaeth ariannol mewn perthynas â phlant: cynhaliaeth plant, drwy Ddeddf Cynnal Plant 1991, ac Atodlen 1 i Ddeddf Plant 1989 ("Atodlen 1").

*Taliadau cynhaliaeth plant*
Mae cynhaliaeth plant yn drefniant ariannol a wneir rhwng rhieni sydd wedi gwahanu i dalu costau byw plentyn pan fydd y plentyn yn byw gyda'r rhiant arall. Os nad yw rhieni'n gallu cytuno ar drefniadau cynhaliaeth yn breifat, mae'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant ("CMS") yn cyfrifo faint o gynhaliaeth sy'n ddyledus gan un rhiant i'r llall. Mae'r trefniadau cynhaliaeth plant a gyfrifir gan y CMS wedi'u cynllunio i dalu costau byw sylfaenol plentyn, megis bwyd, dillad a thai.

I gyfrifo'r taliadau hyn, mae'r CMS yn defnyddio fformiwla statudol i ystyried faint o gynhaliaeth plant y mae'n rhaid i riant (a elwir fel arfer yn "rhiant dibreswyl") ei thalu. O dan y fformiwla hon, mae'r CMS fel arfer yn disgwyl i'r rhiant dibreswyl dalu 12% o'i incwm gros ar gyfer un plentyn, 16% ar gyfer dau blentyn a 19% ar gyfer tri neu fwy o blant. Os bydd y plentyn yn aros dros nos gyda'r rhiant dibreswyl, bydd y taliad yn cael ei leihau i

[10]Deddf Ymddiriedolaethau Tir a Phenodi Ymddiriedolwyr 1996, a15.

adlewyrchu rhannu gofal. Os yw gofal yn cael ei rannu'n gyfartal, nid yw cynhaliaeth yn ddyledus.[11]

*Atodlen 1*

Mae Atodlen 1 yn galluogi rhieni i wneud cais am ddarpariaeth ariannol er budd eu plentyn neu eu plant ac yn caniatáu i'r Llysoedd Teulu wneud gorchmynion ariannol i ddiwallu anghenion y plentyn. Fe'i defnyddir yn bennaf gan rieni dibriod, gan fod MCA 1973 yn caniatáu i rieni priod geisio darpariaeth ariannol nid yn unig er budd y plentyn ond hefyd er budd y cymar, gan gynnig gwarchodaeth ehangach.

Ers 2013, dim ond ar incwm gros wedi'i gapio ar £3,000 yr wythnos (tua £156,000 y flwyddyn) y mae'r CMS yn cyfrifo taliadau. Pan fydd rhiant dibreswyl yn ennill mwy na hyn, bydd y CMS yn dal i gyfrifo cynhaliaeth, ond dim ond hyd at y swm hwnnw wedi'i gapio. Os yw incwm gros rhiant dibreswyl yn fwy na £156,000 y flwyddyn, gall rhiant preswyl wneud cais i'r llys am gymorth ychwanegol drwy Atodlen 1 ar gyfer cynhaliaeth "atodol". Mae hyn yn berthnasol yn bennaf i achosion sy'n ymwneud â phobl ar gyflogau uchel, gan fod llai na 2% o weithwyr yn ennill dros £156,000 y flwyddyn.[12] Mae Atodlen 1 hefyd yn galluogi'r llys i wneud gorchmynion cynhaliaeth penodol ar gyfer amgylchiadau megis addysg neu anabledd.

Yn ogystal, mae Atodlen 1 yn caniatáu ar gyfer gorchmynion cyfandaliad ar gyfer anghenion penodol a threfniadau eiddo. Gwneir y gorchmynion hyn er budd ac anghenion y plentyn ac nid y rhiant. Wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn ai peidio, mae'r llys yn edrych ar yr holl amgylchiadau, ynghyd â ffactorau gan gynnwys incwm ac adnoddau'r partïon, eu hanghenion a'u rhwymedigaethau ariannol ac anghenion y plentyn.

Yng ngoleuni'r uchod, anaml y defnyddir Atodlen 1 yn ymarferol. Dim ond 285 o geisiadau a wnaed yn 2022 o'i gymharu â 119,700 o geisiadau cynhaliaeth plant yn yr un cyfnod, sef tua 0.2% o gyfanswm y CMS.[13] Mae'n debyg mai diffyg ymwybyddiaeth a chwmpas cyfyngedig y ceisiadau sy'n gyfrifol am defnydd cyfyngedig hwn.

---

[11] Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Sut Ydym yn Cyfrifo Cynhaliaeth Plant: Canllaw Cam wrth Gam (GOV.UK, diweddarwyd 30 Hydref 2023) sydd ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/how-we-work-out-child-maintenance/how-we-work-out-child-maintenance>.

[12] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Enillion gweithwyr yn y DU: 2025 (23 Hydref 2025) ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2025>.

[13] Ministry of Justice, *Family Court Statistics Quarterly: January to March 2025* (GOV.UK, 26 Mehefin 2025) ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/family-court-statistics-quarterly-january-to-march-2025; Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Ystadegau'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant: Data hyd at fis Rhagfyr 2022 (Arbrofol) (GOV.UK, 26 Ebrill 2023) ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/child-maintenance-service-statistics-data-to-december-2022-experimental>.

### Cytundebau cyd-fyw

Mae cytundebau cyd-fyw yn gytundebau a all nodi manylion perchnogaeth eiddo, amlinellu cyfrifoldebau ariannol pob partner yn ystod y berthynas a nodi beth ddylai ddigwydd os bydd eu perthynas yn chwalu. Gellir eu gwneud ar unrhyw adeg a'u diweddaru wrth i amgylchiadau newid. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhwym yn gyfreithiol yn awtomatig ac mae eu gorfodadwyedd yn dibynnu ar sut y cânt eu drafftio.

## Y gyfraith bresennol ar etifeddiant

Ar farwolaeth cydbreswylydd, mae yna hawliau cyfreithiol cyfyngedig i'r partner sy'n dal yn fyw etifeddu ystâd yr ymadawedig os na ddarperir ar ei gyfer mewn ewyllys.

### Cyfraith olyniaeth yng Nghymru a Lloegr

Mae cyfraith olyniaeth Cymru a Lloegr yn gweithredu drwy dair trefn wahanol: ewyllysiau, diewyllysedd a darpariaeth deuluol. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn gosod y rheolau ar gyfer sut mae ystâd person yn cael ei rhannu pan fydd yn marw.

O dan gyfraith ewyllysiau, mae gan unigolion ryddid eang i adael eu heiddo i bwy bynnag a ddymunant. Mae hyn yn golygu y gall unigolyn benderfynu'n union pwy ddylai etifeddu gwahanol elfennau ei ystâd, ac yn ôl pa gyfrannau, drwy greu ewyllys ddilys.

Pan fydd person yn marw heb ewyllys ddilys, mae'r rheolau diewyllysedd yn berthnasol. Nodir y rhain yn Neddf Gweinyddu Ystadau 1925 ac maent yn dosbarthu'r ystâd yn unol â hierarchaeth statudol sefydlog o berthnasau, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gymar neu bartner sifil sy'n goroesi, ac yna plant a disgynyddion eraill.

Mae cyplau sy'n cyd-fyw wedi'u heithrio o'r hierarchaeth hon. Ni waeth beth yw hyd y berthynas na phresenoldeb plant a rennir, nid oes gan gydbreswylydd sy'n dal yn fyw hawl awtomatig i etifeddu unrhyw ran o ystâd ei bartner ar sail diewyllysedd.

Felly, os nad yw ewyllys yn gadael unrhyw beth i'r partner sy'n dal yn fyw, neu os nad oes ewyllys o gwbl, nid oes gan y partner hawl awtomatig i etifeddu. Eu hunig lwybr at gymorth ariannol yw dwyn hawliad dan Ddeddf Etifeddiad (Darpariaeth i Deulu a Dibynyddion) 1975 ("I"(PFD)A 1975") gan ddadlau bod y rheolau ewyllys neu ddiewyllysedd wedi methu â gwneud darpariaeth ariannol resymol ar eu cyfer.

### Darpariaeth i deuluoedd a chyd-fyw

Mae I(PFD)A 1975 yn galluogi categorïau penodol o ymgeisydd, gan gynnwys pobl briod, partneriaid sifil, cyplau sy'n cyd-fyw, plant a dibynyddion, i geisio darpariaeth ariannol resymol pan fydd ewyllys neu'r rheolau diewyllysedd yn methu â gwneud darpariaeth ddigonol.

Ar gyfer pob ymgeisydd, yr unig sail dros hawlio yw nad yw gwaredu'r ystâd yn gwneud darpariaeth ariannol resymol. Mae unrhyw ddyfarniad yn ddewisol, a gall y llys amrywio dosbarthiad yr ystâd ar ôl ystyried ffactorau statudol, megis adnoddau ac anghenion ariannol yr ymgeisydd, maint yr ystâd a hawliadau cystadleuol buddiolwyr eraill.

Mae partner dibriod yn gymwys i wneud cais os bu'n byw gyda'r ymadawedig yn yr un cartref, fel pe bai'n briod neu'n bartner sifil, am o leiaf ddwy flynedd ddi-dor yn union cyn y farwolaeth. Gall y rheini sydd wedi cyd-fyw am gyfnod byrrach wneud cais o hyd, ond dim ond os ydynt yn dod o fewn cwmpas I(PFD)A 1975 drwy ddangos eu bod, yn union cyn marwolaeth yr ymadawedig, yn cael eu cynnal (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) gan yr ymadawedig.

Mae I(PFD)A 1975 yn trin pobl briod a phartneriaid sifil yn fwy ffafriol na chydbreswylwyr o ran eu hawl i hawlio yn erbyn yr ystâd. Gall pobl briod a phartneriaid sifil hawlio am ddibyniaeth ariannol p'un a yw'n angenrheidiol ar gyfer eu cynhaliaeth ai peidio, tra bo cyplau sy'n cyd-fyw wedi'u cyfyngu i gynhaliaeth yn unig. Er bod y llysoedd yn aml yn dehongli anghenion cyplau sy'n cyd-fyw yn eang, gan ystyried y safon byw a fwynheir yn ystod y berthynas, mae dyfarniadau fel arfer yn llai hael ac yn llai sicr na'r rhai sydd ar gael i bobl briod neu bartneriaid sifil.

# Yr achos dros ddiwygio'r gyfraith

Mae'r llywodraeth yn lansio'r ymgynghoriad hwn fel rhan o raglen ehangach i foderneiddio cyfraith teulu. Rydym yn edrych ar newidiadau i'r gyfraith ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw adeg gwahanu a marwolaeth a threfniadau ariannol ar gyfer ysgaru ar yr un pryd oherwydd eu bod i gyd yn ceisio sicrhau bod y gyfraith yn adlewyrchu perthnasoedd modern ar yr un pryd â diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed.

Mae'r cynigion hyn yn cyd-fynd â'n gwaith i ddiwygio cyfraith priodasau, gan ei gwneud yn symlach ac yn fwy hyblyg i gyplau briodi mewn ffordd sy'n ystyrlon iddyn nhw. Drwy gael gwared ar rwystrau diangen i briodas, yr ydym yn cryfhau'r sefydliad pwysig hwn.

Yn gyffredinol, mae'r diwygiadau hyn wedi'u cynllunio i greu dull clir a chydlynol o ymdrin â chyfraith teulu sy'n parchu dewis personol, yn cadw priodas fel statws neilltuol ac yn ceisio sicrhau canlyniadau teg i deuluoedd.

Rydym yn nodi isod y rhesymau manwl pam mae angen pob elfen o'r diwygio.

**Diwygio'r gyfraith ar rwymedïau ariannol ar gyfer ysgariad**
Er ei bod yn anffodus pan fydd perthnasoedd yn dod i ben a phriodas yn parhau i fod yn ymrwymiad gydol oes i lawer, rhaid i'r gyfraith ddarparu eglurder a thegwch i'r rhai sy'n gwahanu.

Mae'r fframwaith ar gyfer rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgariad wedi aros fwy neu lai yr un fath ers dros hanner canrif, ac eto mae'r dystiolaeth yn awgrymu efallai na fydd agweddau ar y gyfraith bellach yn sicrhau canlyniadau teg a rhagweladwy. Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad cwmpasu yn nodi meysydd lle gallai diwygio gryfhau hyder y cyhoedd yn y system a gwella canlyniadau i deuluoedd.[14]

Yn 2023, roedd 103,816 o ysgariadau a diddymiadau yng Nghymru a Lloegr ac yn 2025 gwnaeth tua 50,000 o bobl gais i'r llys i wneud ceisiadau rhwymedi ariannol.[15] Mae'r ffigurau hyn yn tanlinellu maint y broblem a phwysigrwydd fframwaith sy'n cefnogi canlyniadau teg. Fodd bynnag, mae'r dull presennol yn un dewisol iawn, sy'n gallu gwneud

---

[14] Comisiwn y Gyfraith, Rhwymedïau Ariannol adeg Ysgaru a Diddymu: Adroddiad Cwmpasu (HC 460, Law Com No 417, 17 Rhagfyr 2024).

[15] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ysgariadau yng Nghymru a Lloegr: 2023 (ONS, 2023) ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/divorce/bulletins/divorcesinenglandandwales/2023>.; Ministry of Justice, 'Family Court Statistics Quarterly: October to December 2025' (GOV.UK, 26 March 2026) <https://www.gov.uk/government/statistics/family-court-statistics-quarterly-october-to-december-2025/family-court-statistics-quarterly-october-to-december-2025>.

canlyniadau'n anodd eu rhagweld. Rhybuddiodd Comisiwn y Gyfraith y gellid dadlau bod y diffyg sicrwydd a hygyrchedd hwn yn anghyson â rheolaeth y gyfraith.

Nododd Comisiwn y Gyfraith hefyd fod diffyg cydlyniant yn y gyfraith ac y gall, mewn rhai achosion, ymestyn gwrthdaro yn hytrach na'i ddatrys, ar adeg pan fo teuluoedd eisoes dan straen sylweddol. Mae system sy'n methu â darparu disgwyliadau clir nid yn unig yn cynyddu costau ac oedi ond gall hefyd waethygu drwgdeimlad rhwng partïon, gan ei gwneud yn anoddach sicrhau canlyniadau adeiladol.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y ffordd y mae'r gyfraith bresennol yn gweithredu mewn achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig, gan gynnwys cam-drin economaidd. Yn 2023, edrychodd astudiaeth academaidd a gynhaliwyd gan *Fair Shares Project* ar gyllid yn dilyn ysgariad, fod dioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig benywaidd yn parhau i fod yn fwy tebygol na menywod eraill o fod mewn sefyllfaoedd ariannol ansicr hyd at bum mlynedd ar ôl eu hysgariad.[16]

Mae *Fair Shares Project* hefyd yn tynnu sylw at ganlyniadau ar sail rhyw, yn enwedig mewn perthynas â phensiynau. Gall menywod, sy'n fwy tebygol o ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu ac sydd â chynilion pensiwn is, gael eu heffeithio'n anghymesur pan fydd asedau pensiwn yn cael eu hanwybyddu mewn setliadau. Dangosodd *Fair Shares Project* hyn, gan ganfod bod 28% o fenywod yn cael llai na £1,000 o gyflog net o'i gymharu â dim ond 10% o ddynion.[17] O ran pensiynau, roedd dynion yn fwy tebygol o gael pensiynau mwy gwerthfawr yn rhinwedd talu iddynt am fwy o amser.

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn tanlinellu'r angen i ystyried a ddylid moderneiddio'r gyfraith i hyrwyddo sicrwydd a hygyrchedd ac i gefnogi datrys anghydfodau'n gliriach ac yn fwy effeithlon.

### Diwygio'r gyfraith ar wahanu ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw

Mae perthnasoedd cyd-fyw yn rhan gynyddol gyffredin o fywyd teuluol yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, pan ddaw'r berthynas honno i ben, nid oes fframwaith statudol penodol i lywio sut y dylid datrys materion ariannol. Wrth i nifer y teuluoedd sy'n cyd-fyw gynyddu, mae'r bylchau yn y gyfraith bresennol wedi dod yn fwy amlwg, gan effeithio ar gyfran lawer mwy o'r boblogaeth nag mewn degawdau blaenorol.

---

[16] Emma Hitchings a Caroline Bryson, Dividing property and finances on divorce: what happens in cases involving domestic abuse? Report (University of Bristol, 2024).

[17] Emma Hitchings, Caroline Bryson, Gillian Douglas, Susan Purdon a Jenny Birchall, Fair Shares? Sorting out money and property on divorce: Executive Summary (Nuffield Foundation, 2021), t. 12.

Mae 3.5 miliwn o gyplau'n byw gyda'i gilydd heb briodi neu ymrwymo i bartneriaeth sifil, sy'n fwy na dwbl y nifer dros 30 mlynedd yn ôl.[18] Erbyn 2031, rhagwelir y bydd un o bob pedwar teulu yn cyd-fyw ac yn 2022 cafodd dros hanner y babanod (51%) eu geni i rieni dibriod.[19] Nid yw'r gyfraith wedi newid er gwaethaf y newidiadau demograffig hyn.

Hefyd, nid oes statws cyfreithiol i "briodas cyfraith gyffredin" yng Nghymru a Lloegr, waeth pa mor hir y mae cwpl wedi byw gyda'i gilydd neu a oes ganddynt blant. Er gwaethaf hyn, mae bron i hanner y bobl (47%) yng Nghymru a Lloegr yn credu bod statws o'r fath yn bodoli.[20] Mae'r camddealltwriaeth hwn yn golygu nad yw llawer o gyplau sy'n cyd-fyw yn ymwybodol mai dim ond darpariaeth ariannol gyfyngedig iawn sydd ar gael iddynt pan ddaw eu perthynas i ben.

Efallai yr effeithir ar blant hefyd pan fydd sefyllfa ariannol eu prif ofalwr yn dirywio ar ôl gwahanu, gan fod cyswllt anorfod rhwng anghenion y prif ofalwr ac anghenion plentyn. Mae'r cysylltiad hwn yn golygu y gall caledi ariannol i ofalwr arwain at oblygiadau i lesiant plentyn a chyfleoedd yn y dyfodol. Er enghraifft, mae ymchwil 2004 o Arolwg Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn awgrymu bod plant mewn tlodi parhaus tua thair gwaith yn fwy tebygol o gael problemau iechyd meddwl difrifol.[21]

Mae menywod yn fwy tebygol o leihau oriau gwaith neu gymryd swyddi sy'n talu llai i ddarparu gofal plant a all arwain at anfantais ariannol hirdymor. Er enghraifft, yn ôl data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2019 mae mamau sydd â phlant o dan 14 oed chwe gwaith (28.5%) yn fwy tebygol na thadau (4.8%) o leihau eu horiau gwaith oherwydd gofal plant.[22] Mae'r patrymau gwaith hyn yn aml yn eu gadael yn wannach yn economaidd adeg y gwahanu.

Gall cam-drin domestig, gan gynnwys cam-drin economaidd, hefyd greu gwendidau ariannol sylweddol, sy'n cael eu dwysau gan fframwaith statudol nad yw bob amser yn

---

[18]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Teuluoedd ac aelwydydd (set ddata, 17 Ebrill 2026) - https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/families/datasets/familiesandhouseholdsfamiliesandhouseholds"; diffinnir "teuluoedd" fel cwpl priod, cwpl mewn partneriaeth sifil neu gwpl sy'n cyd-fyw â phlant neu heb blant, neu riant unigol gydag o leiaf un plentyn, sy'n byw yn yr un cyfeiriad; gall plant fod yn ddibynnol neu'n annibynnol.

[19]Comisiwn y Gyfraith, Cyd-fyw: Canlyniadau Ariannol Perthynas yn Chwalu (Cm 7182, 2007), para 1.10; y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Nodweddion Genedigaethau yng Nghymru a Lloegr:2022 (17 Mai 2024) ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/livebirths/bulletins/birthcharacteristicsinenglandandwales/2022>.

[20] John Curtice et al (eds), British Social Attitudes: The 36th Report (NatCen 2019).

[21]Sefydliad Iechyd Meddwl, Ystadegau Tlodi (Sefydliad Iechyd Meddwl, 2024)

[22]Swyddfa Ystadegau Gwladol, Teuluoedd a'r farchnad lafur, y DU: 2019 (24 Hydref 2019) ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/articles/familiesandthelabourmarketengland/2019>.

darparu digon o eglurder neu amddiffyniad. Mae hyn yn arbennig o broblemus mewn cyd-destun lle mae nifer yr achosion o gam-drin domestig ddwywaith yn uwch ymysg cyplau sy'n cyd-fyw ag ydyw ar gyfer parau priod.[23] Yn absenoldeb mesurau diogelu cyfreithiol, gall cyflawnwyr reoli bywyd partner drwy gyfyngu ar fynediad at arian neu orfodi dyled. Gall y ddeinameg hon olygu bod unigolion yn wynebu dewisiadau anodd rhwng gwahanu heb unrhyw sicrwydd ariannol neu aros gyda'u partner camdriniol. Mae'r llywodraeth wedi amlinellu yn ei chynllun gweithredu "*Rhyddid rhag trais a cham-drin*" ei bwriad i fynd i'r afael â'r materion hyn drwy ddiwygio mewn perthynas â chyd-fyw.[24]

Gall y rhwystrau ariannol i adael y camdriniwr mewn perthynas fod yn sylweddol, gydag adroddiad Cymorth i Fenywod 2024 yn awgrymu y gall cost gwneud hynny fod yn tua £50,000. [25] Canfuwyd hefyd bod bron i dri chwarter (73%) y menywod yn dweud bod costau byw naill ai wedi eu hatal rhag gadael neu wedi ei gwneud yn anoddach iddynt adael.[26]

Gallai diwygio mewn perthynas â chyd-fyw helpu i fynd i'r afael â'r risgiau hyn drwy gefnogi dioddefwyr-oroeswyr i sicrhau annibyniaeth ariannol a lleihau'r ddibyniaeth ar drefniadau anffurfiol a all barhau niwed.

**Diwygio cyfraith etifeddiant ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw**

Bu galwadau ers tro byd i ddiwygio cyfraith etifeddiant fel y mae'n berthnasol i gydbreswylwyr, ac mae llawer o'r dadleuon dros ddiwygio'r gyfraith ar hawliau cyplau sy'n cyd-fyw ynghylch gwahanu hefyd yn berthnasol i etifeddiant. Yn y ddau gyd-destun, gall diffyg diogelwch cyfreithiol olygu bod cydbreswylwyr sy'n goroesi neu'n gwahanu yn wynebu caledi ariannol difrifol.

O dan y rheolau diewyllysedd, nid oes gan gydbreswylwyr hawl awtomatig i etifeddu gan bartner sydd wedi marw. Yn absenoldeb ewyllys ddilys, eu hunig lwybr at ddarpariaeth yw cais i'r llys o dan I(PFD)A 1975.

---

[23] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Nodweddion dioddefwyr cam-drin domestig, Cymru a Lloegr: y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 (26 Tachwedd 2025) ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabusevictimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2025>.

[24] Y Swyddfa Gartref, Rhyddid rhag trais a cham-drin cyfrol 2: cynllun gweithredu (hygyrch) (CP 1450-II, 3 Chwefror 2026) Y Swyddfa Gartref, Rhyddid rhag trais a cham-drin cyfrol 2: cynllun gweithredu (hygyrch) (CP 1450-II, 3 Chwefror 2026) ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/freedom-from-violence-and-abuse-a-cross-government-strategy/freedom-from-violence-and-abuse-volume-2-action-plan-accessible>.

[25] Women's Aid, The Price of Safety: The Cost of Leaving an Abusive Relationship (Women's Aid, 2024).

[26] Women's Aid, The Cost of Living: How the Cost of Living Crisis Is Affecting Women and Children Experiencing Domestic Abuse (Women's Aid, 2024).

Nid yw llawer o gydbreswylwyr sy'n goroesi yn ymwybodol bod hawliad dan I(PFD)A 1975 ar gael. Gall eraill, sy'n wynebu'r straen, y gost a'r gwrthdaro teuluol sy'n gysylltiedig ag achosion llys, ddewis symud ymlaen yn hytrach na mynd ar drywydd hawliad, neu gael eu gorfodi i wneud hynny. Lle'r oedd gan y cwpl blant, mae materion yn fwy cymhleth, gan y gallai hawliad llwyddiannus gan y cydbreswylydd fod yn erbyn hawliau eu plant eu hunain o ran diewyllysedd, a allai olygu bod angen cynrychiolaeth ar wahân a chynyddu'r gost a'r straen ar y teulu.

Er na fyddai rhoi hawliau etifeddu awtomatig i gydbreswylwyr yn dileu anghydfodau'n gyfan gwbl, er enghraifft pan oedd gan yr ymadawedig blant o berthynas flaenorol, gallai leihau'r ddibyniaeth ar ymgyfreitha mewn achosion syml. Byddai angen i unrhyw ddiwygiad gydbwyso buddiannau'r cydbreswylwyr sy'n goroesi â buddiannau buddiolwyr eraill, yn bennaf plant sy'n oedolion o berthnasoedd blaenorol.

Mae llawer yn dadlau nad yw cyfraith etifeddiant yng Nghymru a Lloegr yn gydnaws â phatrymau perthynas modern. Roedd tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb yn 2022 yn tynnu sylw at y ffaith bod y drefn bresennol yn ddryslyd, yn hen ffasiwn ac yn creu rhwystrau diangen i'r rheini sydd â hawliad dilys.[27] Mae awdurdodaethau eraill y Gymanwlad (gan gynnwys Seland Newydd, Awstralia a rhannau o Ganada) wedi addasu eu rheolau diewyllysedd i adlewyrchu cyd-fyw.

O ystyried bod cydbreswylwyr yn arbennig o agored i niwed ar ôl marwolaeth os nad ydynt wedi gwneud ewyllys ac nad yw'r gyfraith ddiewyllysedd yn cydnabod cydbreswylwyr fel etifeddion, mae effaith ymarferol y gyfraith bresennol yn sylweddol ac yn tyfu.[28]

[27] Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb Tŷ'r Cyffredin, The Rights of Cohabiting Partners, HC 92 (4 Awst 2022).

[28] Comisiwn y Gyfraith, Diewyllysedd a Hawliadau Darpariaeth Teulu yn dilyn Marwolaeth (Law Com No 331, HC 1674, 2011).

# Y dull diwygio

Wrth gyflawni amcan y llywodraeth o greu fframwaith modern, teg a chydlynol ar gyfer teuluoedd ar ddiwedd perthynas, mae ein dull o ddiwygio yn cael ei arwain gan yr egwyddorion canlynol:

**Yr egwyddorion sy'n sail i'r ymgynghoriad**

1. Blaenoriaethu Canlyniadau Teg i Blant
2. Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed
3. Darparu Fframwaith Clir a Hygyrch
4. Cadw Statws Neilltuol Priodas

**1. Blaenoriaethu canlyniadau teg i blant**
Dylai plant gael y sicrwydd a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt ni waeth beth yw statws perthynas eu rhieni. Mewn rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgariad, lles plant yw ystyriaeth gyntaf y llys eisoes ac nid yw'r llywodraeth yn cynnig newid hyn.

Mae'r llywodraeth yn cynnig mai lles plant ddylai gael yr ystyriaeth gyntaf hefyd wrth benderfynu ar ddarpariaeth ariannol ar gyfer cydbreswylwyr cymwys ar ôl gwahanu. Wrth wneud hynny, mae'n cydnabod bod cysylltiad agos rhwng lles plentyn a sefydlogrwydd ariannol ei brif ofalwr ac amgylchedd ei gartref.

Dylai diwygio diewyllysedd ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw ddarparu llwybr clir at ddarpariaeth ariannol, gan leihau ansicrwydd ynghylch tai ac adnoddau ar ôl marwolaeth rhiant a chefnogi sefydlogrwydd ar gyfer unrhyw blant yr effeithir arnynt.

**2. Amddiffyn pobl sy'n agored i niwed**
Bydd diwygio yn cryfhau amddiffyniadau ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn perygl o niwed neu ansicrwydd ariannol ar ddiwedd perthynas, yn enwedig ar gyfer menywod, plant a dioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig, gan gynnwys cam-drin economaidd.

Yng nghyd-destun rhwymedi ariannol ar gyfer ysgariad, mae hyn yn golygu fframwaith cliriach a mwy rhagweladwy er mwyn i bartïon allu deall canlyniadau tebygol a setlo'n gynharach, gan leihau gwrthdaro y gellir ei osgoi. Dylai hefyd leihau'r cwmpas ar gyfer achosion hirfaith a chostus a all atal y rhai sydd â llai o adnoddau rhag mynd ar drywydd hawliadau.

I gyplau sy'n cyd-fyw, mae'n golygu cyflwyno fframwaith statudol wedi'i dargedu i leihau caledi a diwallu anghenion y ddau unigolyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd

partner wedi gwneud cyfraniadau anariannol at berthynas, fel gofal plant di-dâl, sy'n hanfodol i fywyd teuluol ond nad ydynt yn cael eu cydnabod yn gyson ar hyn o bryd. Dylai hefyd alluogi dioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig i adael perthynas drwy ddarparu amddiffyniadau cyfreithiol clir, lleihau dibyniaeth ar bartneriaid camdriniol a chefnogi annibyniaeth.

Ar gyfer diewyllysedd, byddai'n sicrhau bod cydbreswylwyr mewn profedigaeth mewn perthnasoedd ymrwymedig yn llai dibynnol ar ymgyfreitha costus i sicrhau darpariaeth ariannol, gan leihau bregusrwydd ariannol ar adeg o alar.

**3. Darparu fframwaith clir a hygyrch**
Dylai'r gyfraith fod yn glir, yn rhagweladwy ac yn hawdd ei llywio, yn enwedig ar adegau o straen a thrawsnewid. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni'r tair egwyddor arall a amlinellir uchod.

Mewn rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgariad, mae'r llywodraeth yn ystyried diwygiadau i wella cydlyniad a hygyrchedd fel bod cyplau sy'n gwahanu yn deall canlyniadau tebygol yn well ac yn datrys anghydfodau'n gynharach, gan gadw disgresiwn barnwrol i adlewyrchu amgylchiadau unigol. I gyplau sy'n cyd-fyw, rhaid i'r diwygiad hwn fynd i'r afael â'r myth parhaus ynghylch “priodas cyfraith gyffredin”, sy'n golygu bod llawer yn tybio'n anghywir bod hawliau'n bodoli wrth wahanu neu farw.

Bydd fframwaith statudol cliriach, gyda meini prawf cymhwysedd syml, yn gwneud hawliau a chyfrifoldebau'n haws eu deall, yn lleihau hawliadau annheilwng ac yn cefnogi hyder yn y mesurau diogelu cyfreithiol newydd.

**4. Cadw statws neilltuol priodas**
Mae priodas yn sefydliad cymdeithasol a chyfreithiol unigryw o bwysig, a bydd yn parhau felly, ac i lawer mae'n ffordd ystyrlon o ffurfioli ymrwymiad. Am y rheswm hwnnw, mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau nad yw diwygiadau mewn perthynas â chyd-fyw yn effeithio ar statws unigryw priodas.

I gyflawni hyn, rydym yn cynnig cyflwyno fframwaith penodol a chymesur ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw, sy'n fwy cyfyng na'r hyn sydd ar gael ar gyfer ysgaru ac sydd ond ar gael i'r rheini mewn perthnasoedd rhamantus ymrwymedig sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd diffiniedig.

Nid yw ymchwil wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod cyflwyno hawliau cyfreithiol i gyplau sy'n cyd-fyw mewn awdurdodaethau eraill wedi lleihau cyfraddau priodi, gan gefnogi'r farn ei bod yn bosibl amddiffyn cyplau sy'n cyd-fyw heb leihau gwerth neu apêl priodas. [29]

[29] K Kiernan, A Barlow a R Merlo, "Cohabitation Law Reform and its Impact on Marriage" (2006) 36 Family Law 1074; Dr Andy Hayward, "Cohabitation and Labour's Commitment to Changing the Law: What Reform Might Look Like" (23 Tachwedd 2023) Financial Remedies Journal, ar gael yn: <https://financialremediesjournal.com/cohabitation-and-labours-commitment-to-changing-the-law-what-reform-might-look-like/>.

# Y cynigion

## Rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgaru

**Modelau diwygio arfaethedig Comisiwn y Gyfraith**
Mae'r llywodraeth yn nodi yn yr ymgynghoriad hwn fodel diwygio arfaethedig i gyfraith rhwymedïau ariannol, ar ôl ystyried adroddiad 2024 Comisiwn y Gyfraith a oedd yn nodi pedwar model posibl y gellid seilio diwygiadau yn y dyfodol arnynt.[30] Dyma'r modelau a nodwyd:

- **Codeiddio**: ychydig iawn o newid a wneir i'r gyfraith bresennol, ond mae'r gyfraith bresennol fel y'i datblygir drwy gyfraith achosion yn cael ei chodeiddio (sy'n golygu ei bod yn cael ei rhoi mewn deddfwriaeth), gan wneud y gyfraith yn fwy cydlynol a hygyrch. Mae disgresiwn eang presennol y llys yn parhau.
- **Codeiddio-plws**: mae'r gyfraith bresennol yn cael ei chodeiddio a gwneir diwygiadau ychwanegol i feysydd penodol o'r gyfraith lle nad yw cyfraith achosion wedi'i setlo, gyda'r nod o ddarparu mwy o sicrwydd.
- **Disgresiwn dan arweiniad**: mae deddfwriaeth yn nodi pwrpas y gyfraith a'r egwyddorion sy'n llywio'r defnydd ohoni, gan ragnodi sut a phryd y dylid arfer disgresiwn y llys.
- **Trefn ddiofyn**: yn gyffredin yn awdurdodaethau Ewrop, trefn sy'n gosod set o reolau sy'n dod i rym o ddyddiad y briodas, sy'n rheoli'r canlyniad ariannol pan ddaw'r briodas i ben.

**Cynnig y llywodraeth ar gyfer model "codeiddio-plws"**
Mae'r llywodraeth yn cynnig model diwygio **"codeiddio-plws"** ac mae'n gwahodd safbwyntiau yn yr ymgynghoriad hwn ar elfennau arfaethedig y model hwn.

Mae'r llywodraeth yn credu y bydd y model hwn yn gwneud y gyfraith yn gliriach ac yn fwy hygyrch, gan ei gwneud yn haws i gyplau sy'n ysgaru ddatrys eu materion ariannol heb ddod i'r llys. Byddai hefyd yn rhoi mwy o sicrwydd, fel bod gan gyplau sy'n ysgaru well syniad o ganlyniadau tebygol gwahanu, gan ei gwneud yn haws dod i gytundeb.

Ar yr un pryd, mae'r llywodraeth o'r farn bod gwerth i'r llys gadw disgresiwn, er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth eang yn amgylchiadau ariannol cyplau a sicrhau bod modd diwallu anghenion y rhai sy'n agored i niwed yn ariannol. Mae'r llywodraeth o'r farn y dylai model "codeiddio-plws" flaenoriaethu canlyniadau teg i blant ac amddiffyn y rheini sy'n agored i niwed yn ariannol, fel menywod a dioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig, gan

[30] Comisiwn y Gyfraith, Rhwymedïau Ariannol adeg Ysgaru a Diddymu: Adroddiad Cwmpasu, Law Com No. 417, HC 460 (18 Rhagfyr 2024)

gynnwys cam-drin economaidd. Bydd y model hwn hefyd yn cynnal statws unigryw priodas drwy fod yn wahanol i'r model cyd-fyw arfaethedig.

**Nodweddion craidd y model:**

- **Amcan clir ar gyfer rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgariad:** amcan cyffredinol y llys fydd sicrhau canlyniad teg drwy gymhwyso'r egwyddorion sefydledig o ddiwallu anghenion a rhannu asedau.
- **Fframwaith cydlynol a strwythuredig:** codeiddio'r egwyddor y dylid rhannu eiddo priodasol yn gyfartal fel man cychwyn, oni bai fod angen rhannu'n anghyfartal i ddiwallu anghenion. Bydd y model yn nodi'n glir:
  - amcanion ar gyfer cymhwyso'r egwyddorion "anghenion" a "rhannu";
  - egluro sut y dylai'r llys ddefnyddio'r amcanion hyn; ac
  - adeiladu ar adran 25 Deddf Achosion Priodasol 1973 ("MCA 1973"), sy'n rhestr wirio o ffactorau y dylai'r llys eu hystyried wrth gymhwyso'r ddau amcan.
- **Dull methodolegol o ddiwallu anghenion:** bydd y model yn amlinellu sut y byddai'r llys yn mynd i'r afael â 'chategorïau' o angen drwy hierarchaeth tri cham, gydag anghenion y plentyn yn cael eu hystyried yn gyntaf.
- **Diffiniadau o "eiddo priodasol" ac "eiddo nad yw'n briodasol"**: codeiddio diffiniadau o eiddo priodasol ac eiddo nad yw'n briodasol, fel yr eglurir yn achos y Goruchaf Lys *Standish v Standish ("Standish").*[31]
- **Cytundebau priodasol rhwymol:** bydd y model yn cyflwyno "cytundebau priodasol cymwys" ("QNAs") a fydd yn caniatáu i gyplau wneud trefniadau ariannol rhwymol ynghylch rhannu asedau os byddant yn cael ysgariad.

Nid yw'r model arfaethedig hwn yn awgrymu unrhyw newidiadau i'r rhwymedïau sydd ar gael ar hyn o bryd o dan MCA 1973.

## Fframwaith cyd-fyw ar gyfer gwahanu

Mae model arfaethedig y llywodraeth wedi cael ei greu gyda'r nod o amddiffyn plant a'r rheini sy'n agored i niwed yn ariannol, gan gynnwys menywod a dioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig (gan gynnwys cam-drin economaidd) tra'n cadw statws unigryw priodas. Mae'r llywodraeth yn credu ei bod yn hanfodol bod y fframwaith cyd-fyw yn syml, yn glir ac yn hygyrch. Byddai ceisio cofnodi pob posibilrwydd yn y model yn creu risg o greu fframwaith rhy gymhleth ac anhylaw.

**Nodweddion craidd y model:**

[31] *Standish v Standish* [2025] UKSC 26.

- **Dim ond ar gael i berthnasoedd ymrwymedig:** cyfyngir hawliadau i oedolion mewn perthnasoedd ymrwymedig, rhamantus sydd wedi byw gyda'i gilydd am o leiaf dair blynedd, neu sy'n byw gyda'i gilydd ac yn rhannu plentyn. Fel gydag ysgariad, mae'n debyg y bydd perthynas fyrrach yn denu dyfarniadau mwy cyfyngedig.
- **Amddiffyniad diofyn gyda dewis i optio allan**: bydd mesurau diogelu'n berthnasol yn awtomatig i gyplau sy'n cyd-fyw sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, gyda'r opsiwn i gyplau optio allan o'r fframwaith os ydynt yn dymuno, gan sicrhau bod unigolion yn cael eu diogelu ond gan gadw dewis yr unigolyn.
- **Plant yn gyntaf:** fel gydag ysgariad, rhaid i anghenion plant ddod o flaen anghenion yr oedolion sy'n gwahanu, gan sicrhau bod eu lles yn cael ei ddiogelu lle mae adnoddau'n gyfyngedig.
- **Perchnogaeth gyfreithiol fel man cychwyn**: mae pob unigolyn yn cadw'r hyn y mae'n berchen arno'n gyfreithiol a bydd y llys yn gwyro oddi wrth hyn dim ond pan fydd angen i ddiwallu anghenion diffiniedig. Nid oes rhaniad diofyn 50:50, gan na fyddai'r egwyddor rhannu yn berthnasol i gyplau sy'n cyd-fyw.
- **Fframwaith "sy'n cael ei arwain gan anghenion", sy'n llai hael nag ar gyfer ysgariad:** lle nad yw perchnogaeth gyfreithiol yn ddigonol i ddiwallu anghenion, byddai'r llys yn canolbwyntio ar fodloni gofynion ariannol y partïon yn y dyfodol. Byddai "anghenion" yn cael eu hasesu'n gulach nag yn achos ysgaru ac ni fyddai'n ymestyn i anghenion dewisol.
- **Dim canlyniadau gwell na phriodas**: ni fydd gan gyplau sy'n cyd-fyw hawl i ganlyniad ariannol mwy ffafriol na chwpl sy'n ysgaru mewn amgylchiadau tebyg.
- **Pwyslais cryf ar doriadau llwyr:** disgwylir i'r llys roi terfyn ar rwymedigaethau ariannol rhwng cyn-gydbreswylwyr cyn gynted ag y bo'n gyfiawn ac yn rhesymol gwneud hynny. Yma mae'r ffocws yn fwy pendant ar doriadau llwyr nag yn achos ysgariad, lle bydd y ffocws ar bontio i annibyniaeth.

## Rhan 1: Diwygio'r gyfraith rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgaru

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Mae'r llywodraeth yn croesawu barn ar y cwestiynau canlynol a nodir yn y rhan hon o'r papur ymgynghori.

Bwriad y cynigion a nodir isod yw dangos bwriad polisi sylfaenol y llywodraeth a strwythur eang model "codeiddio-plws". Nid testun deddfwriaethol drafft yw'r cynigion, ond yn hytrach geiriad i ddangos ein bwriadau polisi. Felly, gwahoddir ymgyngoreion i

ganolbwyntio eu hymatebion ar sylwedd ac amcanion pholisi'r cynigion, yn hytrach nag ar ffurf penodol y geiriad a ddefnyddir yn y ddogfen hon.

**Cyflwyno amcan cyffredinol**

Wrth nodi'r cynigion hyn, mae'r adran gyntaf hon yn dechrau drwy nodi amcan cyffredinol arfaethedig ar gyfer y llys pan fydd yn ystyried ceisiadau am orchmynion ariannol. Mae'r adran hon wedyn yn egluro'r egwyddorion "rhannu" ac "anghenion" sy'n rhan o'r amcan cyffredinol, sut y dylid defnyddio'r rhain a ffactorau i'r llys eu hystyried wrth gymhwyso'r egwyddorion hyn.

Nid yw'r gyfraith bresennol a nodir yn MCA 1973 yn cynnwys amcan i'r llys wrth rannu eiddo ac asedau mewn ysgariad. Fodd bynnag, mae cyfraith achosion wedi datblygu ei hamcan ei hun i'r llys: cynhyrchu canlyniad "teg".[32]

Felly, nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn egluro'r canlyniad y dylai'r llys ei roi yn y pen draw. Cyfeiriwyd at y diffyg cyfeiriad hwn drwy gyfateb hynny â gyrrwr bws sydd â nifer fawr o gyfarwyddiadau ar sut i yrru'r bws, ond dim gwybodaeth am ble i fynd â'r bws.[33] Mae'r llywodraeth o'r farn y byddai amcan cyffredinol yn hyrwyddo sicrwydd a hygyrchedd, gan y byddai cyplau sy'n ysgaru yn cael mwy o eglurder ynghylch y canlyniad y mae'r llys yn ceisio ei gyflawni.

Fodd bynnag, mae'r llywodraeth hefyd o'r farn y gall amcan cyffredinol sy'n cyfeirio at "degwch" yn unig fod yn annelwig ac yn ddi-fudd, oherwydd mae tegwch yn gysyniad anodd ei ddiffinio a gall olygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Dylai'r amcan gael canllawiau clir ar sut dylid sicrhau tegwch.

**Barn y llywodraeth yw y dylid sicrhau canlyniad teg drwy gymhwyso egwyddorion "rhannu" ac "anghenion".**

Mae'r llywodraeth o'r farn y bydd fframio amcan cyffredinol o degwch drwy lens rhannu ac anghenion yn rhoi eglurder ynghylch sut mae sicrhau tegwch. Bydd hyn yn cael ei gefnogi drwy godeiddio'r egwyddorion sefydledig o rannu ac anghenion, y mae ymarferwyr eisoes yn gyfarwydd iawn â nhw.

Nid yw'r llywodraeth o'r farn bod "digolledu" fel egwyddor graidd, ar wahân i anghenion a rhannu, yn briodol ar gyfer codeiddio. Felly, nid yw wedi'i gynnwys yn yr amcan cyffredinol. Y rheswm am hyn yw ein bod yn cytuno â chasgliad Comisiwn y Gyfraith nad oes diffiniad clir a phendant o'r egwyddor mewn cyfraith achosion.[34] Rydym o'r farn y byddai codeiddio

---

[32] *White v White* [2000] UKHL 54, [2001] 1 AC 596, paragraffau 23-24.

[33] Comisiwn y Gyfraith, Eiddo Priodasol, Anghenion a Chytundebau (Law Com Rhif 343, 2014), para 2.5.

[34] Comisiwn y Gyfraith, Rhwymedïau Ariannol adeg Ysgaru a Diddymu: Adroddiad Cwmpasu, Law Com No. 417, HC 460 (18 Rhagfyr 2024), para 4.41.

digolledu fel egwyddor graidd yn cyflwyno ansicrwydd sylweddol, yn annog dulliau barnwrol gwahanol ac yn cynyddu'r risg o ymgyfreitha yn sylweddol.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn ystyried digolledu ymhellach, ond yn benodol fel ffactor a allai fod yn berthnasol wrth gymhwyso'r egwyddorion rhannu ac anghenion. Mae rhagor o fanylion am y cynnig hwn ar gael ar dudalen 43.

**Codeiddio "rhannu" ac "anghenion"**
Mae'r llywodraeth yn cydnabod y byddai codeiddio amcan cyffredinol yn rhoi mwy o eglurder a thryloywder o fewn y gyfraith. Fodd bynnag, mae o'r farn na fyddai codeiddio amcan cyffredinol yn unig yn mynd yn ddigon pell i ddarparu'r sicrwydd cynyddol y mae diwygio'n ceisio ei gyflawni. Felly, mae'r llywodraeth yn cynnig y dylid cael amcanion penodol ar gyfer yr egwyddorion rhannu ac anghenion.

*Amcan yr egwyddor rhannu*
Mae'r adran hon yn ymdrin â'r egwyddor rhannu a'r asedau sydd wedi'u cynnwys yn hyn. Mae adran arall ar yr egwyddor anghenion ar dudalen 39.

Mae'r Goruchaf Lys wedi cadarnhau bod yr egwyddor rhannu yn berthnasol i eiddo priodasol yn unig ac mai rhannu cyfartal yw'r man cychwyn priodol ac egwyddorol ar gyfer y llys, oni bai fod cyfiawnhad dros wyro oddi wrth hynny.[35] Efallai y bydd angen gwyro, er enghraifft, er mwyn diwallu anghenion ariannol unigolion.

I adlewyrchu cyfraith achosion, mae'r llywodraeth yn cynnig y dylai model diwygiedig ei gwneud yn glir y dylai'r llys ddefnyddio'r egwyddor rhannu fel man cychwyn a dim ond troi at yr egwyddor anghenion lle na ellir diwallu anghenion drwy rannu cyfartal.

**Barn y llywodraeth yw mai amcan rhannu yw rhoi budd cyfartal i bartïon i eiddo priodasol drwy rannu asedau priodasol yn gyfartal.**

Mae'r llywodraeth o'r farn y byddai cyflwyno'r amcan hwn ar gyfer yr egwyddor rhannu yn gwneud y gyfraith yn gliriach ac yn fwy hygyrch i gyplau sy'n ysgaru. Wrth esbonio pam y dylai'r llys gymhwyso rhannu a sut y dylid gwneud hynny, bydd yr amcan hwn yn rhoi arweiniad i gyplau sy'n ysgaru. Mae'r llywodraeth hefyd yn credu bod yr amcan hwn yn cydnabod y rhyngddibyniaeth a'r broses o wneud penderfyniadau ar y cyd sydd fel arfer yn nodweddu priodas.

**Cwestiwn 1**
**A ydych yn cytuno â barn y llywodraeth mai amcan yr egwyddor rhannu yw rhoi budd cyfartal i bartïon i eiddo priodasol drwy rannu asedau priodasol yn gyfartal? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**

---

[35] *Standish v Standish* [2025] UKSC 26, para 50.

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 2**
**Ydych chi'n cytuno â barn y llywodraeth y dylai'r llys ystyried yr egwyddor rhannu fel man cychwyn ac ystyried yr egwyddor anghenion lle na fyddai rhannu cyfartal yn caniatáu diwallu anghenion? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

*Y math o eiddo y mae "rhannu" yn berthnasol iddo: "eiddo priodasol"*
Nid oes diffiniad statudol o eiddo priodasol nac eiddo nad yw'n briodasol, na darpariaeth statudol sy'n nodi sut y dylai'r llys fynd ati i rannu'r mathau hyn o eiddo. Mae cyfraith achosion yn mynnu bod yr egwyddor rhannu yn berthnasol i eiddo priodasol yn unig ac mae cysyniadau eiddo priodasol ac eiddo nad yw'n briodasol hefyd yn deillio o gyfraith achosion.[36] Fodd bynnag, oherwydd y diffyg diffiniadau mewn deddfwriaeth, efallai y bydd cyplau sy'n ysgaru yn ei chael hi'n anodd deall sut y bydd eu hasedau'n cael eu nodweddu a'u trin wrth wahanu.

Mae'r llywodraeth o'r farn y byddai diffiniadau statudol clir o eiddo priodasol ac eiddo nad yw'n briodasol yn cynnig arweiniad ar sut y gallai cyplau feddwl am eu heiddo ac yn dangos sut y byddai llys yn debygol o ddelio â'r asedau sydd ar gael.[37]

Fel rhan o fodel codeiddio-plws, rydym o'r farn y byddai diffiniadau o'r fath yn adlewyrchu *Standish*, a oedd yn egluro'r dull gweithredu ar gyfer eiddo priodasol ac eiddo nad yw'n briodasol fel y datblygwyd yn flaenorol mewn cyfraith achosion.[38]

Yn *Standish*, nododd y Goruchaf Lys y gwahaniaeth cysyniadol canlynol rhwng eiddo priodasol ac eiddo nad yw'n briodasol:

**Gwahaniaethu rhwng "eiddo priodasol" ac "eiddo nad yw'n briodasol"**

[36] *White v White* [2000] UKHL 54, [2001] 1 AC 596.
[37] Comisiwn y Gyfraith, Rhwymedïau Ariannol adeg Ysgaru a Diddymu: Adroddiad Cwmpasu, Law Com No. 417, HC 460 (18 Rhagfyr 2024), para 4.19.
[38] *Standish v Standish* [2025] UKSC 26.

- Mae "eiddo priodasol" yn cynnwys ffrwyth y bartneriaeth briodas, sy'n adlewyrchu'r bartneriaeth briodas neu sy'n gynnyrch ymdrech gyffredin y partïon.
- Mae "eiddo nad yw'n briodasol" fel arfer yn eiddo cyn priodi a ddygir i briodas gan un o'r partïon neu eiddo a gaffaelwyd gan un o'r partïon drwy etifeddiaeth neu rodd.

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol ar dudalen 37, mae ein hamcan arfaethedig ar gyfer rhannu yn adlewyrchu'r egwyddor cyfraith achosion mai **dim ond** i eiddo priodasol y mae rhannu'n berthnasol. Rydym hefyd yn bwriadu diwygio i gynnwys yr egwyddor sefydledig y gallai eiddo nad yw'n eiddo priodasol fod ar gael i ddiwallu anghenion ariannol lle nad yw eiddo priodasol yn unig yn ddigonol.

Cadarnhaodd y Goruchaf Lys yn *Standish* hefyd y gall eiddo nad yw'n briodasol ddod yn eiddo priodasol drwy broses a elwir yn "briodasoli". Wrth benderfynu a yw hyn wedi digwydd, mae'r llys yn ystyried sut mae'r cwpl priod wedi delio â'r ased a'i drin dros amser.

Lle bo anghydfod ynghylch a yw eiddo'n briodasol neu ddim yn briodasol, cred y llywodraeth y dylai'r llys ystyried ffactorau perthnasol, gan gynnwys sut mae'r eiddo wedi cael ei ddefnyddio, ei rannu a'i drin gan y cwpl a thros ba gyfnod o amser. Er enghraifft, os bydd un partner yn cael etifeddiaeth a ddefnyddir yn ddiweddarach i ariannu gwelliannau i'r cartref teuluol, gall y llys benderfynu bod yr etifeddiaeth wedi cael ei "phriodasoli" drwy ei defnyddio.

**Cwestiwn 3**
**A ydych yn cytuno â barn y llywodraeth y dylai godeiddio'r gwahaniaethau rhwng eiddo priodasol ac eiddo nad yw'n briodasol, yn unol â phenderfyniad y Goruchaf Lys yn *Standish*? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**
- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 4**
**A ddylai'r llys allu ystyried sut mae'r partïon wedi defnyddio, rhannu a thrin yr eiddo, a thros ba gyfnod, wrth benderfynu a yw eiddo nad yw'n eiddo priodasol wedi dod yn eiddo priodasol? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**
- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

### Yr egwyddor "anghenion"

Bwriad y llywodraeth yw y dylai'r egwyddor anghenion fod yn glir ac yn hygyrch. I'r perwyl hwnnw, mae'r llywodraeth yn cynnig:

- Amcan clir ar gyfer yr egwyddor o ddiwallu angen;
- Ffordd glir o roi'r amcan ar waith; a
- Rhestr o ffactorau i'r llys eu hystyried wrth gymhwyso'r amcan.

Mae'r adran hon yn ystyried cynigion y llywodraeth mewn perthynas â sut y dylai'r llys ystyried cymhwyso'r egwyddor anghenion. Asesir y rhan fwyaf o achosion ar sail angen yn bennaf, gan na fydd gan y rhan fwyaf o gyplau ddigon o adnoddau i ddiwallu anghenion drwy rannu eiddo priodasol.

*Amcan ar gyfer diwallu anghenion*

Er y cyfeirir at "angen" mewn statud fel ffactor perthnasol o dan adran 25 MCA 1973, mae ei ystyr yn deillio'n bennaf o gyfraith achosion.[39] Ystyriodd Comisiwn y Gyfraith yr egwyddor anghenion yn ei adroddiad yn 2014, *Eiddo Priodasol, Anghenion a Threfniadau*, a nododd fod yr amcan o ddiwallu anghenion yn seiliedig ar alluogi pontio i annibyniaeth, i'r graddau sy'n bosibl yn yr amgylchiadau.[40]

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith hefyd ganllawiau i nodi hyn, a gyhoeddwyd gan y Cyngor Cyfiawnder Teuluol ("FJC") yn 2016 ac a ddiweddarwyd yn 2018. Roedd y canllawiau hyn wedi'u hanelu'n bennaf at ymarferwyr a'r farnwriaeth. Cyhoeddwyd fersiwn o'r canllawiau sydd wedi'i hanelu at gyplau sy'n ysgaru hefyd yn 2018, gan yr elusen AdviceNow.[41] Gan ddychwelyd at y mater hwn yn 2024, nododd Comisiwn y Gyfraith wahanol raddau o ddefnydd o'r canllawiau.[42]

Mae'r llywodraeth o'r farn bod diffyg amcan statudol clir ar gyfer anghenion wedi arwain at ddiffyg tryloywder a chysondeb o ran sut mae anghenion yn cael eu dehongli. Credwn y bydd cael amcan statudol clir, wedi'i ategu gan ddarpariaethau pellach, yn cefnogi cyplau'n well i ddeall y ffordd orau o ddyrannu adnoddau cyfyngedig fel bod anghenion eu plant, yn ogystal â'u hanghenion eu hunain, yn cael eu diwallu.

**Barn y llywodraeth yw y dylid diwallu anghenion y partïon mewn ffordd sy'n galluogi'r ddwy ochr i bontio i fod yn annibynnol, cyn belled ag y mae adnoddau'n caniatáu.**

---

[39]Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 25(2)(b).

[40]Comisiwn y Gyfraith, Eiddo Priodasol, Anghenion a Chytundebau (Law Com Rhif 343, 2014), para 3.67.

[41]Family Justice Council, Guidance on "Financial Needs" on Divorce, 2nd Edition (Ebrill 2018); Advicenow, 'Sorting out your finances when you get divorced; ar gael yn: https://www.advicenow.org.uk/guides/sorting-outyour-finances-when-you-get-divorced/.

[42]Comisiwn y Gyfraith, Rhwymedïau Ariannol adeg Ysgaru a Diddymu: Adroddiad Cwmpasu, Law Com No. 417, HC 460 (18 Rhagfyr 2024), para 3.40.

Mae barn y llywodraeth yn adlewyrchu casgliadau Comisiwn y Gyfraith yn 2014 a'r canllawiau dilynol a gyhoeddwyd gan FJC. Mae'r llywodraeth yn credu bod yr amcan hwn yn crisialu pwrpas craidd gorchmynion ariannol sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion: cefnogi unigolion wrth iddynt symud o rannu bywydau a chyllid ar y cyd tuag at annibyniaeth ariannol.

**Cwestiwn 5**
**Ydych chi'n cytuno â barn y llywodraeth mai amcan cyffredinol y llys wrth wneud gorchymyn ariannol yw sicrhau canlyniad teg drwy gymhwyso'r egwyddorion rhannu ac anghenion? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 6**
**A ydych yn cytuno â barn y Llywodraeth mai'r amcan ar gyfer diwallu anghenion ddylai fod galluogi'r ddwy ochr i bontio i annibyniaeth, cyn belled ag y mae adnoddau'n caniatáu? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

*Sut byddai'r llys yn cymhwyso'r amcan anghenion*
Yn ogystal â phennu amcan ar gyfer diwallu anghenion, mae'r Llywodraeth yn cynnig dull gweithredu tri cham clir ar gyfer y llys. Credwn, drwy nodi dull esboniadol ar gyfer mynd i'r afael ag angen, fod mwy o dryloywder yn y gyfraith ynghylch sut y bydd y llys yn mynd ati i gymhwyso'r egwyddor anghenion, gan alluogi mwy o sicrwydd o ran canlyniadau.

**Cam 1: Anghenion plant sy'n dod gyntaf.**

Gan adlewyrchu'r gyfraith bresennol, dylai'r llys ystyried lles plentyn y teulu ac ystyried ei anghenion yn gyntaf.

**Cam 2: Ystyried anghenion cyfalaf ac incwm cyplau sy'n ysgaru, gan gynnwys eu hanghenion o ran tai a phensiwn.**

Ar ôl ystyried anghenion unrhyw blentyn yn y teulu, mae'r llywodraeth yn cynnig y dylai'r llys wedyn ystyried anghenion tai, incwm a phensiwn cyplau sy'n ysgaru, cyn belled ag y bo adnoddau'n caniatáu. Gall yr anghenion hyn fod yn gysylltiedig ag anghenion plentyn.

**Cam 3: Ystyried anghenion dewisol.**

Ar ôl cwblhau Cam 2, lle bo adnoddau'n caniatáu, byddai'r llys yn ystyried anghenion dewisol. Rydym o'r farn bod angen i'r rhain fod yn 'foethau' ffordd o fyw. Er enghraifft, gallai eitemau moethus gynnwys ceir neu eitemau drud gan gynnwys dillad neu ategolion. Fel rhan o'r diwygio, mae'r llywodraeth yn bwriadu nodi'r gwahaniaeth rhwng Cam 2 a Cham 3 yn glir.

Mae'r llywodraeth yn cynnig bod anghenion fel yr amlinellir yng Nghamau 1, 2 a 3 yn cael eu hasesu yn erbyn meincnod y safon byw yn ystod y briodas, cyn belled ag y mae adnoddau'n caniatáu. Un enghraifft bosibl o ddiwallu anghenion Cam 2, fel anghenion tai, yn erbyn safon byw yw priod yn parhau i gael ei gartrefu yn yr un ardal neu ardal debyg ag yn ystod y briodas, er mwyn galluogi mynediad hawdd at eu gwaith.

Mewn perthynas ag anghenion dewisol Cam 3, byddai asesu yn erbyn safon byw yn sicrhau bod yna feincnod priodol ar gyfer diwallu anghenion dewisol. Er enghraifft, pe na bai cwpwl yn ystod priodas yn mwynhau moethau penodol, ni ellid disgwyl yn rhesymol y byddai'r anghenion dewisol hyn yn cael eu diwallu ar ôl ysgariad, hyd yn oed pe bai adnoddau'n caniatáu ar gyfer hyn.

Mae'r llywodraeth o'r farn y byddai gwahanu Cam 2 a Cham 3 yn gwella hygyrchedd a sicrwydd i gyplau. Yn benodol, byddai o fudd i gyplau sy'n ysgaru ddeall y bydd anghenion dewisol yn eilradd i ofynion hanfodol fel tai, incwm a darpariaeth pensiwn.

*Anghenion yn cynnwys amgylchiadau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r berthynas*
Mae'r llywodraeth hefyd o'r farn y dylid ei gwneud yn glir nad yw anghenion wedi'u cyfyngu i'r rheini sy'n deillio'n uniongyrchol o'r berthynas, ond yr holl anghenion gan gynnwys amgylchiadau ehangach, fel salwch neu anabledd. Nid yw'r dull hwn wedi'i bennu'n glir mewn cyfraith achosion. Felly, mae'r llywodraeth o'r farn y byddai o fudd i'r llys a'r partïon gael eglurder ar y pwynt hwn a sicrhau amddiffyniad i'r rhai sy'n agored i niwed yn ariannol.

**Cwestiwn 7**
**Ydych chi'n cytuno â barn y llywodraeth y dylai'r llys gymhwyso'r amcan anghenion gan ddefnyddio dull hierarchaidd tri cham? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 8**
**Ydych chi'n cytuno y dylai'r camau ganolbwyntio ar y canlynol:**

1) **yr ystyriaeth gyntaf i les unrhyw blant yn y teulu;**

2) **anghenion cyfalaf ac incwm, gan gynnwys eu hanghenion tai a phensiwn yn unol â'r safon byw yn ystod y briodas; a**
3) **lle bo adnoddau'n caniatáu, angen dewisol, yn unol â'r safon byw yn ystod y briodas?**

**Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Rhestr o ffactorau y dylai'r llys eu defnyddio wrth asesu anghenion a rhannu**
Mae'r gyfraith bresennol yn mynnu bod y llys yn ystyried rhestr o ffactorau statudol (y "ffactorau adran 25") wrth wneud gorchmynion ariannol. Mae enghreifftiau o'r ffactorau hyn yn cynnwys oed y partïon a hyd y briodas.

O dan y model codeiddio-plws hwn, byddai'r ffactorau hyn yn parhau i lywio sut mae'r llys yn gwneud penderfyniadau, gan gynnwys sut i gymhwyso'r egwyddorion anghenion a rhannu. Mae'r llywodraeth o'r farn bod y ffactorau hyn, o'u hystyried ochr yn ochr â'r amcanion arfaethedig ar gyfer anghenion a rhannu, yn gwneud canlyniadau posibl yn gliriach ac yn fwy hygyrch.

Rydyn ni'n cynnig cadw'r ffactorau i raddau helaeth fel y nodir ar hyn o bryd yn adran 25, ond gydag un gwahaniaeth sylweddol: ychwanegu ffactor digolledu newydd. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys ystyried unrhyw anfantais economaidd a ddioddefwyd gan barti yn ystod y briodas wrth asesu anghenion a rhannu. Gallai hyn gynnwys sefyllfa lle mae un parti (y wraig yn aml) yn camu'n ôl o yrfa i ofalu am blant. Gall hyn helpu i egluro ymhellach pam y bydd y llys yn diwallu anghenion, gan gynnwys anghenion dewisol, mewn achosion gwerth uwch.

Nid yw'r llywodraeth yn bwriadu i'r ffactor hwn awgrymu y dylai un parti aros am gyfnod amhenodol yn ddibynnol ar y llall. Yn hytrach, mae'n cydnabod, wrth asesu anghenion ariannol priod, gan gynnwys anghenion dewisol, ei bod yn deg ystyried efallai nad yw wedi gallu darparu ar gyfer ei ffordd o fyw ei hun oherwydd eu bod wedi camu i ffwrdd o yrfa i ofalu am blant.

**Cwestiwn 9**
**Ydych chi'n cytuno â barn y llywodraeth y dylid cael rhestr wirio o ffactorau y mae'n rhaid i'r llys eu hystyried wrth gymhwyso'r amcan rhannu ac anghenion? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 10**
**Ydych chi'n cytuno y dylai'r rhestr wirio hon gynnwys cyfeiriad penodol at unrhyw anfantais a ddioddefwyd o ganlyniad i'r berthynas? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

Roedd yr adran hon yn egluro cynigion y llywodraeth ynghylch codeiddio amcan cyffredinol ar gyfer rhwymedïau ariannol a sut gellid codeiddio egwyddorion rhannu ac anghenion mewn ffordd a fydd yn gwella dealltwriaeth o'r gyfraith ar gyfer cyplau sy'n ysgaru. Bydd yr adran nesaf yn nodi cynigion y llywodraeth mewn perthynas â meysydd diwygio penodol wedi'u targedu a fydd, yn ein barn ni, yn gwella sicrwydd a hygyrchedd ymhellach.

**Cam-drin domestig**
Mae cam-drin domestig yn drosedd ffiaidd ac mae mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched (VAWG) yn un o brif flaenoriaethau'r llywodraeth hon. Yn ei maniffesto, mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i haneru trais yn erbyn menywod a merched mewn degawd.[43] Mae hyn yn golygu ailwampio pob agwedd ar ymateb cymdeithas i'r troseddau hyn, gan gynnwys mynd ar drywydd cyflawnwyr peryglus yn ddi-baid a chymorth parhaus i ddioddefwyr-oroeswyr o'u hadroddiad cyntaf a thrwy'r system gyfiawnder gyfan.

Ar 18 Rhagfyr 2025, cyhoeddodd y llywodraeth ei strategaeth VAWG, sy'n nodi ein cynlluniau i gyflawni'r genhadaeth hon.[44] Ymysg y rhain roedd ymrwymiad i ystyried sut y gellir amddiffyn dioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig, gan gynnwys cam-drin economaidd, yn well drwy ddiwygio mewn perthynas â chyd-fyw. Felly, mae'n briodol bod y llywodraeth, ochr yn ochr â hyn, hefyd yn ystyried sut gall cyfraith rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgariad gydnabod ac ymateb yn fwy effeithiol i effaith cam-drin domestig.

[43] Y Blaid Lafur, Maniffesto'r Blaid Lafur 2024: Newid (2024).

[44] Y Swyddfa Gartref, Rhyddid rhag Trais a Cham-drin: Strategaeth Trawslywodraethol (Papur Polisi, 18 Rhagfyr 2025), ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/freedom-from-violence-and-abuse-a-cross-government-strategy.

Mae mwy a mwy o gydnabyddiaeth y gall cam-drin domestig gael effeithiau dwys a hirdymor ar sicrwydd ariannol dioddefwr-oroeswr. Wrth i ddealltwriaeth o gam-drin domestig, gan gynnwys cam-drin economaidd, ddatblygu, mae wedi ysgogi galwadau cynyddol am ddiwygio. Mae rhanddeiliaid wedi dadlau y dylai'r gyfraith alluogi i effaith cam-drin domestig gael ei hystyried yn haws pan fydd y llys yn dosbarthu asedau mewn achosion rhwymedi ariannol. Mae'r llywodraeth yn ystyried y cwestiwn hwn mewn perthynas ag ysgariad ac fel rhan o'r fframwaith arfaethedig ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw, gan ganolbwyntio ar sut y gellid cryfhau'r fframwaith deddfwriaethol. **O ystyried arwyddocâd y mater hwn, mae'r llywodraeth yn gofyn am ragor o dystiolaeth a safbwyntiau, i sicrhau bod ei dull gweithredu'n seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o brofiadau dioddefwyr-oroeswyr.**

Yn yr un modd, mae'r llywodraeth yn cydnabod bod yna dystiolaeth glir o heriau a wynebir gan ddioddefwyr-oroeswyr mewn achosion rhwymedi ariannol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag amddiffyniadau gweithdrefnol, sut mae cam-drin economaidd yn cael sylw ym mhroses y llys ac effeithiolrwydd gorfodi lle nad yw cyflawnwyr yn cydymffurfio â gorchmynion ariannol. Mae gorfodaeth yn benodol yn fater hollbwysig yng nghyd-destun ehangach cam-drin domestig, gan gynnwys cam-drin economaidd, gan fod methu â sicrhau cydymffurfiaeth yn gallu achosi niwed parhaus a thanseilio bwriad gorchmynion llys.

Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad yn 2016 ar orfodi gorchmynion rhwymedi ariannol a gwnaeth argymhellion ar gyfer newid deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd.[45] Mae rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at yr angen am newid yn y maes hwn. Er enghraifft, mae Surviving Economic Abuse wedi galw am wella gorfodi datgeliadau ariannol yn y Llysoedd Teulu ac mae Resolution wedi argymell cryfhau gorfodi gorchmynion rhwymedi ariannol.[46] Mae'r llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd y materion hyn a bydd yn rhoi ystyriaeth ofalus bellach i'r ffordd orau o fynd i'r afael â hwy.

*Y cyd-destun cyfreithiol presennol*

Yn gyffredinol, nid yw'r llys fel arfer yn ystyried cam-drin domestig fel ffactor perthnasol mewn achos rhwymedi ariannol. Ar hyn o bryd, mae adran 25(2)(g) MCA 1973 yn datgan mai un o'r ffactorau y mae'n rhaid i'r llys ei ystyried wrth wneud gorchymyn rhwymedi ariannol yw ymddygiad pob un o'r partïon, os yw'r ymddygiad hwnnw yn golygu y byddai, ym marn y llys, yn annheg ei ddiystyru. Nid yw MCA 1973 yn diffinio "ymddygiad".

---

[45]Comisiwn y Gyfraith, Gorfodi Gorchmynion Ariannol Teulu (HC 862, Comisiwn y Gyfraith Rhif 370, 15 Rhagfyr 2016).

[46] Surviving Economic Abuse (2026), Written evidence submitted by Surviving Economic Abuse (ATJ0091). Senedd y DU, ar gael yn: https://committees.parliament.uk/writtenevidence/149038/default/.

; Resolution, Domestic Abuse in Financial Remedy Proceedings (2024), ar gael yn https://resolution.org.uk/wp-content/uploads/2024/10/Resolution_DAFRP_Report_ONLINE.pdf.

Mae "ymddygiad" yn cyfeirio at a fu camymddwyn (ymddygiad gwael) gan y naill gymar neu'r llall yn ystod y berthynas neu'r achos rhwymedi ariannol.[47] Felly, bydd yr ymgynghoriad hwn yn cyfeirio'n bennaf at ymddygiad fel "camymddwyn".

Er enghraifft, yn gyffredinol, deellir bod camymddwyn personol yn cyfeirio at ddrwgweithredu difrifol neu ymddygiad gwael gan y naill gymar neu'r llall. Mae cyfraith achosion wedi sefydlu bod y trothwy ar gyfer ystyried camymddwyn personol yn uchel iawn. Rhaid i'r camymddwyn fod yn "amlwg ac yn ddifrifol" ac mae'r llys wedi awgrymu y dylai'r ymddygiad ysgogi "braw", yn hytrach na dim ond "syndod".[48] Mae enghreifftiau o gamymddwyn personol wedi cynnwys ymgais i lofruddio, trais difrifol a "chamymddwyn priodasol difrifol".[49] Mae cyfraith achosion hefyd yn nodi mai dim ond pan fydd canlyniad ariannol wedi bod y bydd camymddwyn o'r fath fel arfer yn effeithio ar ddyfarniad ariannol.[50]

Mae'r trothwy uchel a ddatblygwyd mewn cyfraith achosion yn deillio'n rhannol o ddymuniad y llys na ddylid defnyddio achosion rhwymedi ariannol i gosbi camymddwyn yn ystod priodas. Mae cyfraith achosion hefyd wedi tynnu sylw at bryder ynghylch effaith ymgyfreitha estynedig ar y llys, pe bai cyhuddiadau o gam-drin yn cael eu hymgyfreitha'n amlach mewn achosion rhwymedi ariannol.

*Y ddadl*

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon nad yw cam-drin domestig yn cael ei ystyried yn ddigonol mewn achosion rhwymedi ariannol. Wrth i ddealltwriaeth o gam-drin domestig, gan gynnwys cam-drin economaidd, ddatblygu, mae ei berthnasedd i achosion rhwymedi ariannol bellach yn gliriach ac yn cael ei gydnabod yn ehangach. Mae rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol a cham-drin economaidd fel mathau cyffredin o gam-drin a all danseilio'n sylweddol allu dioddefwr-oroeswr i gaffael a defnyddio arian neu eiddo. Canfu adroddiad a gyhoeddwyd gan Surviving Economic Abuse fod tua 4.1 miliwn o fenywod (un o bob saith yn y DU) wedi dioddef cam-drin economaidd gan bartner neu gyn-bartner yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.[51]

---

47 Comisiwn y Gyfraith, Rhwymedïau Ariannol adeg Ysgaru a Diddymu: Adroddiad Cwmpasu (HC 460, Law Com No 417, 17 Rhagfyr 2024), para 9.3.

48 *Wachtel v Wachtel (No 2)* [1973] Fam 72, para 80; *S v S (Non-matrimonial Property: Conduct)* [2006] EWHC 2793 (Fam), [2007] 1 FLR 1496, para 46.

49 Gweler, er enghraifft, *H v H (financial relief: attempted murder as conduct)* [2005] EWHC 2911 (Fam); *H v H (financial provision: conduct)* [1994] 2 FLR 801); *Clark v Clark* [1999] 2 FLR 498).

50 *OG v AG* [2020] EWFC 52, [2021] 1 FLR 1105 paragraffau 34-39 a *N v J* [2024] EWFC 184, [2024] 4 WLR 64.

51 Surviving Economic Abuse, Counting the Cost: The Scale and Impact of Economic Abuse in the UK (Gorffennaf 2025), ar gael yn: https://survivingeconomicabuse.org/wp-content/uploads/2025/07/Counting-the-Cost-report-Surviving-Economic-Abuse-July-2025.pdf.

Nododd adroddiad 2024 Comisiwn y Gyfraith fod rhanddeiliaid o blaid diwygio yn aml yn dadlau'n egwyddorol y dylai canlyniadau cam-drin gael eu hysgwyddo gan gyflawnwyr yn hytrach na dioddefwyr-oroeswyr, a bod mwy o barodrwydd i gydnabod cam-drin domestig mewn achosion rhwymedi ariannol yn adlewyrchu ymwybyddiaeth gynyddol o'i effaith hirdymor bosibl. Cyfeiriodd yr adroddiad at ymchwil a oedd yn dangos bod menywod sy'n ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig yn fwy tebygol na menywod eraill sy'n ysgaru o fod mewn sefyllfaoedd ariannol ansefydlog hyd at bum mlynedd ar ôl eu hysgariad.[52]

Er bod adroddiad 2024 Comisiwn y Gyfraith yn tynnu sylw at alwadau rhanddeiliaid am ddiwygio, mae hefyd yn nodi pryderon gan eraill am newidiadau i'r gyfraith yn y maes hwn. Yn benodol, mynegwyd pryderon y gallai mwy o barodrwydd i ystyried cam-drin domestig mewn achosion rhwymedi ariannol gynyddu'r gwrthdaro rhwng cyplau sy'n ysgaru ac arwain at ymgyfreitha hirach a mwy costus. Ar ben hynny, tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at y ffaith y gallai achosion estynedig roi baich emosiynol ychwanegol ar ddioddefwyr-oroeswyr drwy ymestyn straen ac ansicrwydd. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi mynegi pryderon y gallai dioddefwyr-oroeswyr gymryd mwy o amser i sicrhau annibyniaeth ariannol oherwydd yr angen am wrandawiadau canfod ffeithiau i sefydlu bodolaeth cam-drin. Byddai mwy o ymgyfreitha yn cynyddu costau cyfreithiol ac yn lleihau'r asedau sydd ar gael i'w rhannu.

*Safbwynt y llywodraeth*

Fel y nodwyd yn y strategaeth VAWG a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae'r llywodraeth yn benderfynol y dylai'r Llysoedd Teulu fod yn fannau diogel a theg ac na ddylent ddod yn fforwm lle mae dioddefwyr-oroeswyr yn cael eu hail-erlid.[53] O ystyried pwysigrwydd a chymhlethdod y mater hwn a'r amrywiaeth o safbwyntiau a nodir uchod, mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn i lywio ein dull gweithredu.

Mae gan y llywodraeth ddiddordeb arbennig mewn safbwyntiau ynghylch sut y gellid cydnabod cam-drin domestig, gan gynnwys cam-drin economaidd, yn fwy effeithiol mewn achosion rhwymedi ariannol, mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn grymuso dioddefwyr-oroeswyr heb greu anfanteision pellach drwy gynyddu gwrthdaro neu ymestyn achosion.

Yn olaf, mae'r "ffactor braw" fel y'i gelwir yn ffordd amhriodol o fynegi'r prawf trothwy ar gyfer camymddwyn. Mae perygl i'r fformiwleiddiad hwn fychanu cam-drin domestig ac nid yw'n adlewyrchu difrifoldeb ymddygiad o'r fath. Fel y dywedodd Comisiwn y Gyfraith, ar gyfer barnwyr sy'n aml yn delio â cham-drin domestig, gall ymddygiad camdriniol fod yn

---

[52] Hitchings, E. et al., Fair Shares? Sorting out money and property on divorce (University of Bristol, 2023), tt.56-57.

[53] Y Swyddfa Gartref, Rhyddid rhag Trais a Cham-drin: Strategaeth Trawslywodraethol (Papur Polisi, 18 Rhagfyr 2025), ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/freedom-from-violence-and-abuse-a-cross-government-strategy.

llai tebygol o achosi "braw" nag y gallai fel arall.[54] Fodd bynnag, ni ellir mynd i'r afael â'r cwestiwn o'i ddisodli nes bydd y cwestiwn polisi ehangach ynghylch i ba raddau y dylai camymddwyn, gan gynnwys cam-drin domestig, chwarae rhan mewn achosion rhwymedi ariannol, wedi'i ddatrys.

**Mae'r llywodraeth o'r farn y dylai'r Llysoedd Teulu drin camymddwyn yn gyson ar draws y gyfraith rhwymedi ariannol a'i fframwaith cyd-fyw arfaethedig. Mae'r cwestiynau canlynol felly'n cyfeirio at achosion rhwymedi ariannol ac achosion cyd-fyw yn y dyfodol.**

**Cwestiwn 11**
**Ydych chi'n credu y dylid cael mwy o barodrwydd i ystyried cam-drin domestig mewn perthynas â dosbarthiad asedau gan y llys mewn achosion rhwymedi ariannol ac achosion cyd-fyw? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 12**
**I ba raddau y dylai cam-drin domestig, os caiff ei sefydlu, ddylanwadu ar benderfyniadau'r llys mewn achosion rhwymedi ariannol a chyd-fyw?**

- Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ei ystyried
- Dylid ei ystyried dim ond lle mae wedi cael effaith ariannol glir
- Yn gyffredinol, dylid ei ystyried lle mae cam-drin domestig wedi digwydd
- Ni ddylid ei ystyried mewn achos rhwymedi ariannol neu gyd-fyw
- Arall (eglurwch)
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 13**
**Pe bai cam-drin domestig yn cael ei ystyried yn fwy rheolaidd mewn achosion rhwymedi ariannol a chyd-fyw, sut ydych chi'n meddwl y dylai hyn effeithio ar *rannu asedau* rhwng partïon? Er enghraifft, pa egwyddorion ddylai lywio sut mae camymddwyn yn cael ei adlewyrchu mewn canlyniadau ariannol a sut dylid defnyddio hyn yn ymarferol?**

- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 14**

[54] Comisiwn y Gyfraith, Rhwymedïau Ariannol adeg Ysgaru a Diddymu: Adroddiad Cwmpasu, Law Com No. 417, HC 460 (18 Rhagfyr 2024), para 9.93.

**Pe bai'n haws i lysoedd allu ystyried cam-drin domestig mewn achosion rhwymedi ariannol a chyd-fyw, pa effaith ydych chi'n meddwl y byddai hyn yn ei chael ar yr achosion hynny (er enghraifft, hyd achosion, gofynion tystiolaethol, costau i bartïon a phrofiad cyffredinol dioddefwyr-oroeswyr)?**

- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 15**

**Ydych chi'n cytuno bod yr iaith a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddisgrifio'r trothwy ar gyfer ystyried camymddwyn mewn achosion rhwymedi ariannol (y cyfeirir ato weithiau fel y "ffactor braw") yn amhriodol ac y dylid ei ddisodli? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

*Camymddwyn yn gyffredinol*

Wrth ystyried camymddwyn, blaenoriaeth y llywodraeth yw cam-drin domestig. Mae'r adran uchod yn ystyried cam-drin domestig yng nghyd-destun camymddwyn personol. Fodd bynnag, mae cyfraith achosion wedi sefydlu bod mathau eraill o gamymddwyn hefyd:

- Colli asedau'n afradlon yn ddireswm ac yn fyrbwyll a allai fod wedi bod yn rhan o eiddo priodasol fel arall;
- Camymddwyn wrth ymgyfreitha; a
- Methu datgelu cyllid yn llawn ac yn onest.[55]

Gall y mathau hyn o gamymddwyn hefyd gael eu categoreiddio fel cam-drin domestig, yn dibynnu ar yr achos penodol. Er enghraifft, mae rhanddeiliaid wedi dweud bod peidio â datgelu, colli asedau'n afradlon a chamymddwyn cyffredinol wrth ymgyfreitha yn fathau o gam-drin economaidd. O ystyried hyn, mae'n werth ystyried a fyddai'n fuddiol i'r gyfraith nodi'n glir pa fathau o ymddygiad fydd yn cael eu hystyried yn gamymddwyn a'r effaith y bydd hyn yn ei chael, neu y gallai ei chael, ar hawliad rhwymedi ariannol.

Wrth ystyried y materion hyn, mae'r llywodraeth yn dal yn ymwybodol o'r egwyddor y tu ôl i gyflwyno ysgariad dim bai o dan Ddeddf Ysgaru, Diddymu a Gwahanu 2020. Nod y Ddeddf oedd lleihau gwrthdaro drwy beidio â'i gwneud yn ofyniad cyfreithiol mwyach i rywun sy'n ceisio ysgariad roi'r bai ar atebydd, os yw'n dymuno ysgaru o fewn dwy flynedd i wahanu. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r llywodraeth yn glir na ddylid ystyried bod y rhesymau dros fethiant priodas (er enghraifft, godineb) yn berthnasol mewn achosion rhwymedi ariannol. Byddai ystyried ymddygiad o'r fath yn mynd yn groes i'r

[55] *N v J* [2024] EWFC 184, [2024] 4 WLR 6 [24-29].

egwyddor y tu ôl i ysgariad dim bai, sy'n cael gwared â bai o'r broses gyfreithiol o gael ysgariad.

**Cwestiwn 16**
**Yn eich barn chi, pa fathau o ymddygiad ddylai gael eu hystyried yn "gamymddwyn"? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**

- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 17**
**Pa fath o effaith ydych chi'n meddwl y dylai camymddwyn ei chael ar hawliad rhwymedi ariannol neu hawliad cyd-fyw?**

- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 18**
**Os ydych chi'n credu y dylai'r llys fod yn fwy parod i ystyried camymddwyn, ydych chi'n credu y dylai'r llys drin camymddwyn sydd â chanlyniadau ariannol yn yr un modd â chamymddwyn heb ganlyniadau ariannol?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

### Rhannu pensiwn

Gall pensiynau a gronnir yn ystod priodas fod yn ased priodasol sylweddol a gellir eu rhannu drwy orchymyn rhannu pensiwn. Fodd bynnag, mae ymchwil yn awgrymu bod pensiynau'n cael eu hanwybyddu'n aml yn ystod achosion rhwymedi ariannol. Nododd adroddiad 2024 Comisiwn y Gyfraith bryder eang ymysg rhanddeiliaid am y mater hwn. Mae astudiaethau academaidd wedi tynnu sylw at ymwybyddiaeth gyfyngedig o werth asedau pensiwn, yn enwedig ymysg menywod, sy'n aml â chynilion pensiwn is oherwydd seibiant gyrfa a chyfrifoldebau gofalu.[56]

Fel rhan o ddull y llywodraeth o asesu anghenion ariannol, fel yr amlinellwyd yn gynharach ar dudalen 41, mae'r llywodraeth yn cynnig bod yn rhaid i'r llys ystyried yn benodol anghenion pensiwn y ddau barti. Mae'r llywodraeth o'r farn y gallai'r cynnig hwn gefnogi newid diwylliannol tuag at ystyriaeth fwy cyson o anghenion ymddeol pan wneir gorchmynion ariannol ac y gallai helpu i fynd i'r afael ag anghydbwysedd ehangach rhwng y rhywiau ar ôl ysgaru.

[56] Hitchings, E. et al., Fair Shares? Sorting out money and property on divorce (University of Bristol, 2023), t.61.

Er bod yn rhaid i'r llys ar hyn o bryd ystyried holl asedau perthnasol cwpl sy'n ysgaru, gan gynnwys pensiynau, mae'r llywodraeth hefyd yn cynnig y dylai diwygio gynnwys rhwymedigaeth benodol ar y llys i ystyried pensiynau a gronnwyd yn ystod y briodas wrth wneud gorchmynion ariannol. Rydym o'r farn y byddai hyn hefyd yn cefnogi newid diwylliannol i sicrhau nad yw pensiynau'n cael eu hanwybyddu'n anfwriadol gan gyplau sy'n ysgaru na'r llys.

Nododd adroddiad 2024 Comisiwn y Gyfraith awgrymiadau ar gyfer diwygio a fyddai'n mynd ymhellach, gan gynnwys y dylai pensiynau a gronnwyd yn ystod y briodas gael eu rhannu'n gyfartal gan y llys yn ddiofyn.[57] Er y gallai dull o'r fath sicrhau bod darpariaeth pensiwn yn flaenllaw ym meddwl y llys wrth wneud ei orchymyn, mae'r llywodraeth yn ymwybodol y gallai arwain at ganlyniadau anfwriadol, gan fynd â diwygio y tu hwnt i fodel codeiddio-plws. Yn benodol, mae'n debyg y byddai rhannu pensiynau'n gyfartal yn ddiofyn yn cyfyngu ar ddisgresiwn y llys wrth benderfynu ar ddosbarthiad priodol adnoddau wrth geisio mynd i'r afael ag anghenion unigol y cwpl. Nododd Comisiwn y Gyfraith y gallai dull o'r fath gynyddu'r tebygolrwydd y bydd mwy o gyplau'n gorfod gwerthu'r cartref priodasol ar unwaith er mwyn cael canlyniad teg, a allai gael effaith sylweddol ar dai plant.[58]

**Cwestiwn 19**
**Ydych chi'n cytuno â barn y llywodraeth y dylai fod yn ofynnol yn benodol i'r llys ystyried pensiynau a gronnwyd yn ystod y briodas ac anghenion pensiwn wrth wneud gorchmynion ariannol? Esboniwch eich ateb yn y blwch testun.**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Cytundebau priodasol cymwys**
Mae cytundebau priodasol yn gytundebau a wneir gan gwpl mewn perthynas â phriodas rhag ofn y byddant yn ysgaru yn y dyfodol. Gallant fod naill ai'n gytundebau "cyn priodi", y cytunwyd arnynt cyn i briodas ddigwydd, neu'n gytundebau "ar ôl priodi", y cytunwyd arnynt ar ôl y briodas. Y gyfraith achosion bresennol sy'n llywodraethu statws cyfreithiol cytundebau priodasol. Roedd achos *Radmacher v Granatino* yn nodi y bydd y llys yn

[57] Comisiwn y Gyfraith, Rhwymedïau Ariannol adeg Ysgaru a Diddymu: Adroddiad Cwmpasu, Law Com No. 417, HC 460 (18 Rhagfyr 2024), paragraffau 10.89- 10.90.

[58] Comisiwn y Gyfraith, Rhwymedïau Ariannol adeg Ysgaru a Diddymu: Adroddiad Cwmpasu, Law Com No. 417, HC 460 (18 Rhagfyr 2024), paragraffau 10.89- 10.90.

cynnal cytundeb priodasol oni bai ei bod yn annheg gwneud hynny.[59] Felly, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch pryd a sut y gellid cynnal cytundeb priodasol.

Yn 2014, gwnaeth Comisiwn y Gyfraith argymhellion yn ei adroddiad *Eiddo Priodasol, Anghenion a Chytundebau* ar gyfer cyflwyno cytundebau priodasol cyfreithiol rwymol ("cytundebau priodasol cymwys") a chyhoeddodd Fil drafft. Ailgadarnhaodd adroddiad 2024 Comisiwn y Gyfraith gefnogaeth i'r cynigion hyn, yn amodol ar ba fodel diwygio arfaethedig y byddai'r llywodraeth yn ei ddewis.

Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith y dylai cytundebau priodasol cymwys fod yn gontractau gorfodadwy nad ydynt yn destun craffu sylweddol gan y llys. Byddai hyn yn galluogi cyplau i wneud trefniadau contractiol rhwymol ynghylch canlyniadau ariannol ysgaru. Er mwyn i gytundebau gymhwyso fel "cytundeb priodasol cymwys", byddai angen bodloni rhai mesurau diogelu. Fodd bynnag, ni fyddai cytundebau o'r fath yn caniatáu i unigolion gontractio allan o ddiwallu anghenion ariannol ei gilydd.

Mae'r llywodraeth yn bwriadu cynnwys cytundebau priodasol cymwys fel rhan o'i diwygiadau ac mae wedi nodi cefnogaeth aruthrol gan randdeiliaid i hyn. Mae gan y cytundebau hyn y fantais o roi mwy o sicrwydd ac ymreolaeth i gyplau sy'n dymuno gwneud eu trefniadau ariannol eu hunain os bydd ysgariad. Byddant yn lleihau gwrthdaro teuluol ac yn lleihau nifer y ceisiadau a wrthwynebir i'r llys. Bydd hyn hefyd o fudd i deuluoedd a phlant drwy atal ymgyfreitha.

*Dulliau Diogelu*
Fodd bynnag, mae'r llywodraeth o'r farn gadarn bod yn rhaid cael mesurau diogelu statudol clir i atal pobl agored i niwed rhag cael eu gorfodi i lofnodi cytundebau priodasol ac i sicrhau bod unigolion yn deall canlyniadau cyfreithiol y cytundeb.

Mae'r llywodraeth yn cynnig y mesurau diogelu canlynol, sy'n cyd-fynd yn fras â'r mesurau diogelu a argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn 2014:

**Y mesurau diogelu sy'n ofynnol ar gyfer Cytundeb Priodasol Cymwys**

- **Dilysrwydd Contract:** rhaid i'r cytundeb fod yn gontract dilys heb, er enghraifft, ddylanwad gormodol neu gamliwio.

[59] *Radmacher v Granatino* [2010] UKSC 42.

- **Gweithredu fel Gweithred**: rhaid i'r cytundeb fod wedi'i wneud drwy weithred a rhaid iddo gynnwys datganiad wedi'i lofnodi gan y ddau barti eu bod yn deall bod y cytundeb yn gytundeb priodasol cymwys a fydd yn dileu disgresiwn y llys yn rhannol i wneud gorchmynion ariannol.
- **Cyfnod o 28 Diwrnod:** rhaid i'r cytundeb beidio â bod wedi'i wneud o fewn y 28 diwrnod yn union cyn y briodas neu'r dathliad o bartneriaeth sifil.
- **Datgeliad Ariannol Perthnasol**: rhaid bod pob parti i'r cytundeb, adeg ei wneud, wedi derbyn datgeliad o wybodaeth berthnasol am sefyllfa ariannol y parti arall.
- **Cyngor Cyfreithiol Annibynnol:** cyngor cyfreithiol annibynnol i bob parti sy'n llofnodi'r cytundeb priodasol, i sicrhau bod pob un yn deall effaith gyfreithiol a chanlyniadau'r cytundeb.
- Ni ddylai fod yn bosibl i barti ildio ei hawliau i ddatgelu a chael cyngor cyfreithiol.
- Rhaid i unrhyw amrywiad ar gytundeb fodloni'r gofynion a restrir uchod.

**Cwestiwn 20**
**Ydych chi'n credu y bydd y mesurau diogelu arfaethedig hyn yn sicrhau bod unigolion yn deall canlyniadau eu cytundeb ac yn darparu digon o amddiffyniad rhag gorfodaeth? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

*Effaith cytundeb priodasol cymwys*
Yn 2014, argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylai cytundebau priodasol cymwys fod yn gyfreithiol rwymol. O dan ei gynllun arfaethedig, byddai cytundeb priodasol cymwys yn orfodadwy fel contract ac ni fyddai'n ddarostyngedig i ailddosbarthu asedau yn ôl disgresiwn arferol y llys. Fodd bynnag, eglurodd Comisiwn y Gyfraith hefyd na ddylai cyplau allu defnyddio cytundebau o'r fath i gontractio allan o ddiwallu anghenion ariannol ei gilydd. Lle nad yw cytundeb priodasol cymwys yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer anghenion, byddai'r llys yn cadw awdurdodaeth i wneud gorchmynion i ddiwallu'r anghenion hynny.

Yn ei adroddiad cwmpasu ar gyfer 2024, ailedrychodd Comisiwn y Gyfraith ar y mater hwn a nododd y gallai fod angen ystyried ymhellach sut y dylid diffinio "anghenion" wrth weithredu cytundebau priodasol cymwys yn y dyfodol.

Nid yw cyfraith achosion yn gyson ynghylch ystyr "anghenion" yng nghyd-destun cytundeb priodasol. Mae rhai penderfyniadau wedi defnyddio safbwynt fwy cyfyng ynghylch anghenion yng nghyd-destun cytundeb, er enghraifft, ystyried a yw'r cytundeb yn diwallu anghenion sylfaenol.[60]

Mae'r llywodraeth o'r farn y dylai deddfwriaeth ddiffinio "anghenion" yn glir at ddibenion penderfynu a yw cytundeb priodasol cymwys yn diwallu anghenion y cwpl ac unrhyw blant.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu egluro pa lefel o ddarpariaeth ariannol y gallai'r llys ei gwneud yn ofynnol o hyd i un parti ei gwneud i'r llall, lle mae cytundeb priodasol cymwys yn bodoli ond nad yw'n gwneud darpariaeth briodol ar gyfer anghenion.

Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y fframwaith yn hygyrch a bod unigolion a'u cyfreithwyr yn deall cwmpas yr anghenion y bydd y llys yn dal i'w diogelu, hyd yn oed pan fydd cytundeb priodasol cymwys ar waith.

Er bod y llywodraeth yn glir na ddylid defnyddio cytundebau priodasol cymwys i gontractio allan o ddiwallu anghenion unigolion, mae'n credu y dylai'r diffiniad o "anghenion" a ddefnyddir gan y llys yn yr amgylchiadau hyn fod yn fwy cul na'r diffiniad a ddefnyddir mewn achosion rhwymedi ariannol yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd parchu ymreolaeth cyplau a ddewisodd ymrwymo i'r cytundebau hyn.

Felly, mae'r llywodraeth yn cynnig, pan fydd cytundeb priodasol cymwys yn cael ei herio ar y sail nad yw'n diwallu anghenion un parti, y dylid asesu'r anghenion hynny ar sail fwy cul, yn debyg i'r rhai a gynigir ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw yn Rhan 2 yr ymgynghoriad (gweler tudalen 67).

O dan y dull hwn, wrth benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth gytundeb priodasol cymwys i ddiwallu anghenion, ni fyddai anghenion dewisol yn cael eu hystyried. Yn hytrach, fel gyda chyplau sy'n cyd-fyw, byddai "anghenion" fel tai, cyfalaf, incwm a phensiwn yn cael eu diwallu, cyn belled ag y mae adnoddau'n caniatáu, gan gyfeirio at y ffordd o fyw a fwynhawyd yn ystod y briodas.

Yn unol â blaenoriaethu canlyniadau teg i blant, mae'r llywodraeth yn cynnig na ddylai fod yn bosibl defnyddio cytundeb priodasol cymwys i optio allan o anghenion plant.

**Cwestiwn 21**
**Ydych chi'n cytuno â barn y llywodraeth, wrth ystyried diwallu "anghenion" o dan y model cytundeb priodasol cymwys a gynigir, y dylai hyn eithrio anghenion dewisol,**

---

[60] Gweler *Cummings v Fawn* [2023] EWHC 830 (Fam).

**yn yr un ffordd â'r hyn a gynigir ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw? Esboniwch y rheswm dros eich ateb yn y blwch testun.**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 22**

**Y tu hwnt i dai, cyfalaf, incwm a phensiynau, a oes unrhyw elfennau eraill y credwch y dylid eu cynnwys yn yr asesiad o "anghenion", neu eu heithrio ohono, yng nghyd-destun cytundebau priodasol cymwys? Esboniwch y rheswm dros eich ateb yn y blwch testun.**

- [Testun rhydd]

**Cyd-fyw di-dor cyn priodi**

Mewn llawer o berthnasau, mae cyplau'n byw gyda'i gilydd am nifer o flynyddoedd cyn iddynt briodi. Mae cyfraith achosion wedi sefydlu y gall y llys ystyried bod hyd perthynas cyd-fyw cyn priodi yn cyfrif tuag at hyd priodas, lle mae'r berthynas honno'n symud yn ddi-dor o gyd-fyw i briodas.[61] Gall hyd y briodas gael effaith ar y canlyniadau ariannol. Fodd bynnag, nid yw llawer o gyplau'n sylweddoli y gall y llys drin y cyfnod hwn o gyd-fyw fel rhan o'r briodas.[62]

Mae'r llywodraeth yn argymell codeiddio'r egwyddor cyfraith achosion sefydledig hon. Mae o'r farn y byddai gwneud hynny'n gwella eglurder a thryloywder yn y gyfraith, gan helpu unigolion i ddeall yn well sut y gall y llys asesu hyd eu perthynas. Byddai codeiddio cyd-fyw di-dor hefyd yn adlewyrchu realiti sut mae perthnasoedd modern yn datblygu, gan y gallai llawer o gyplau gyd-fyw am nifer o flynyddoedd cyn priodi.

Mae'r llywodraeth yn cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith, o ystyried bod hon yn egwyddor nad yw cyplau sy'n ysgaru fel pe baent yn ymwybodol ohoni, y gallai codeiddio wneud y gyfraith yn gliriach.[63] Er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch beth yw "cyd-fyw di-dor", mae'r Llywodraeth hefyd yn cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith y dylai codeiddio nodi'r ffactorau allweddol sy'n berthnasol i benderfynu a oedd cyd-fyw di-dor wedi digwydd cyn y briodas.

Felly, mae'r llywodraeth yn cynnig cynnwys rhestr nad yw'n gynhwysfawr o ffactorau i arwain y llys wrth wneud yr asesiad hwn. Mae'r llywodraeth yn nodi bod adroddiad 2007

---

[61] *GW v RW* [2003] EWHC 611 (Fam), [2003] 2 FLR 108.

[62] Comisiwn y Gyfraith, Rhwymedïau Ariannol adeg Ysgaru a Diddymu: Adroddiad Cwmpasu, Law Com No. 417, HC 460 (18 Rhagfyr 2024), para 4.49.

[63] Comisiwn y Gyfraith, Rhwymedïau Ariannol adeg Ysgaru a Diddymu: Adroddiad Cwmpasu, Law Com No. 417, HC 460 (18 Rhagfyr 2024), para 4.49.

Comisiwn y Gyfraith *Cyd-fyw*: *Canlyniadau Ariannol Perthynas yn Chwalu* yn nodi dangosyddion defnyddiol o gyd-fyw, y mae llawer ohonynt yn cael eu hadlewyrchu mewn cyfraith achosion bresennol, yn enwedig *Kimber v Kimber*.[64]

Byddai defnyddio'r ffactorau a nodir gan Gomisiwn y Gyfraith yn darparu meini prawf clir i'r llys, gan gynnal yr hyblygrwydd sydd ei angen i adlewyrchu amgylchiadau achosion unigol. Byddai hyn hefyd yn cyd-fynd â'r dull sy'n cael ei ddefnyddio yn Rhan 2 yr ymgynghoriad hwn, lle mae'r llywodraeth yn cynnig y dylai'r diffiniad o "gyd-fyw", at ddibenion ei fframwaith gwahanu, ystyried yr un ffactorau.

Felly, mae'r llywodraeth yn gofyn am farn ynghylch a yw'r ffactorau hyn yn briodol ac a ddylid cynnwys ffactorau ychwanegol.

**Cwestiwn 23**
**A ydych yn cytuno â barn y llywodraeth y dylai'r llys ystyried bod perthynas cyd-fyw cyn priodi yn cyfrif tuag at hyd priodas, lle mae'r berthynas honno'n symud yn ddi-dor o gyd-fyw i briodas? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 24**
**Pa ffactorau, fel yr amlinellwyd yn adroddiad 2007 Comisiwn y Gyfraith, ydych chi'n meddwl y dylai'r llys eu hystyried wrth asesu a fu cyd-fyw di-dor cyn y briodas? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- Bodolaeth aelwyd ar y cyd
- Sefydlogrwydd y berthynas
- Trefniadau ariannol
- Cyfrifoldeb dros blant
- Presenoldeb perthynas rywiol
- Cydnabyddiaeth gyhoeddus i'r berthynas
- Arall (rhowch fanylion) [Testun rhydd]

**Materion eraill**
Mae'r llywodraeth yn ymwybodol bod Comisiwn y Gyfraith yn archwilio pynciau yn ei adroddiad cwmpasu 2024 mewn perthynas â'i fodel codeiddio-plws nad ydynt yn cael sylw yn yr ymgynghoriad hwn.

[64] Comisiwn y Gyfraith, Cyd-fyw: Canlyniadau Ariannol Perthynas yn Chwalu (Law Com No 307, 2007, Cm 7182); *Kimber v Kimber* [2000] 1 FLR 383.

Yn benodol, mae hyn yn cynnwys a ddylid cyfyngu ar gynhaliaeth i gymar, a ddylai diwygio gynnwys newidiadau i'r ddarpariaeth ariannol ar gyfer plant dros 18 oed ac a ddylid cyflwyno cyfnodau cyfyngiad.

Mae'r llywodraeth wedi dod i'r casgliad nad oes angen diwygio yn y meysydd hyn.

Nid yw'r llywodraeth o'r farn bod cyfiawnhad polisi amlwg dros osod cyfyngiadau ar orchmynion cynhaliaeth i gymar, pan fo tystiolaeth o'r *Fair Shares Project* yn dangos yn glir bod gorchmynion cynhaliaeth i gymar "bywydau ar y cyd", neu orchmynion tymor sylweddol, yn brin iawn.[65]

Nid yw'r llywodraeth yn bwriadu gwneud newidiadau i'r ddarpariaeth ar gyfer plant dros 18 oed. Y rheswm am hyn yw mai anaml iawn y mae'r llys yn darparu cynhaliaeth barhaol yn benodol mewn perthynas â phlant dan 18 oed. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cynhaliaeth plant o fewn awdurdodaeth y Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant ("CMS"), nid y llys. Gall taliadau barhau nes bydd person ifanc yn gorffen addysg neu hyfforddiant, neu'n cael ei ben-blwydd yn 20 oed, pa un bynnag sy'n dod gyntaf. Oherwydd hyn, nid yw'r llywodraeth yn credu ei bod yn iawn rhoi rhagor o bwerau i'r llys orchymyn cymorth ariannol ar ôl y pwynt hwn.

Yn olaf, nid yw'r llywodraeth yn ystyried bod cyfnodau cyfyngiad yn ddiwygiad angenrheidiol; mae achos *Wyatt v Vince* yn dangos yn glir, os gwneir hawliad ariannol flynyddoedd lawer ar ôl ysgariad, y bydd y llys yn ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers y gwahanu wrth ystyried pa orchmynion i'w gwneud.[66] Mae'r Llywodraeth hefyd o'r farn bod peidio â diwygio yn y meysydd hyn yn cynnal ei dull craidd o gadw statws neilltuol priodas. Cyfeirir ymgyngoreion ar dudalen 70 yn Rhan 2 sy'n nodi cynigion i gyfyngu ar gynhaliaeth a chyflwyno cyfnod cyfyngiad ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw.

Nid yw'r ymgynghoriad hwn chwaith yn mynd ati'n fwriadol i archwilio'r rôl y gallai Deallusrwydd Artiffisial ("AI"), neu unrhyw fformiwla yn y dyfodol, ei chwarae wrth gyfrifo canlyniadau mewn achosion rhwymedi ariannol. Y rheswm am hyn yw bod y llywodraeth o'r farn bod yn rhaid diwygio'r gyfraith sylwedd cyn y gellid ystyried a allai AI neu ddull seiliedig ar fformiwla fod yn briodol.

---

[65] Hitchings, E. et al., Fair Shares? Sorting out money and property on divorce (University of Bristol, 2023), t.20.

[66] *Wyatt v Vince* [2015] UKSC 14.

# Rhan 2: Diwygio'r gyfraith ar gyfer cyplau sy'n Cyd-fyw wrth wahanu

## Diffinio "cyd-fyw"

*Diffiniad craidd*
Mae'r llywodraeth o'r farn mai dim ond i berthnasoedd lle mae dau berson yn byw gyda'i gilydd fel cwpl mewn perthynas deuluol barhaus y dylai'r fframwaith arfaethedig fod yn berthnasol.[67]

Bwriad polisi'r llywodraeth yw sicrhau bod y fframwaith yn berthnasol i gyplau sy'n cyd-fyw sydd mewn perthnasoedd rhyngddibynnol, ymrwymedig a hirdymor.

Mae'r llywodraeth o'r farn y dylid targedu gwarchodaeth gyfreithiol at berthnasoedd sy'n dangos sefydlogrwydd, ymrwymiad gan y naill ochr a'r llall a bywyd a rennir, yn hytrach na threfniadau mwy achlysurol neu dymor byr. Mae hyn yn golygu na fyddai trefniadau cyd-fyw eraill, fel brodyr a chwiorydd neu gyd-letywyr, yn dod o fewn y cwmpas. Ni fyddai'r fframwaith ond yn darparu ar gyfer partneriaethau sy'n dangos ymrwymiad a chyd-ddibyniaeth.

Mae'r nod polisi hwn eisoes yn cael ei adlewyrchu mewn deddfwriaeth bresennol, gan gynnwys deddfwriaeth fabwysiadu, sy'n diffinio cwpl sy'n cyd-fyw fel "dau berson sy'n cyd-fyw fel partneriaid mewn perthynas deuluol barhaus".[68] Mae dull tebyg hefyd wedi cael ei gynnig i'w ddefnyddio yn yr Alban gan Gomisiwn y Gyfraith i ddiweddaru Deddf Cyfraith Teulu (Yr Alban) 2006.[69]

**Cwestiwn 25**
**Ydych chi'n cytuno y dylai cyplau sy'n cyd-fyw a gwmpesir yn y fframwaith fod yn byw gyda'i gilydd fel cwpl mewn perthynas deuluol barhaus?**
- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

*Ffactorau y dylai'r llys eu hystyried*
I gefnogi'r diffiniad arfaethedig o "gyd-fyw", mae'r llywodraeth o'r farn y dylai'r llys gael fframwaith clir ond hyblyg ar gyfer asesu a yw perthynas o fewn cwmpas y cynllun. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod mesurau diogelu'n cael eu targedu at bartneriaethau sydd

[67]Mae "teulu" yn cynnwys y rheini sydd â phlant neu heb blant.
[68]Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
[69]Comisiwn y Gyfraith yr Alban, Report on Cohabitation (Scot Law Com No 252, 2009), tud. 30.

wir yn ymrwymedig, gan ganiatáu hyblygrwydd ar gyfer amgylchiadau amrywiol ar yr un pryd.

Mae'r llywodraeth yn cynnig rhestr wirio anghyflawn o ffactorau y gallai'r llys eu defnyddio i'w harwain wrth ystyried a yw unigolion yn cyd-fyw, gan ddarparu digon o hyblygrwydd i adlewyrchu ffeithiau pob achos unigol.

Wrth ystyried y mater hwn yn 2007, cynigiodd Comisiwn y Gyfraith set o ffactorau yr oedd yn eu hystyried yn arbennig o berthnasol o ran bodloni diffiniad o gyd-fyw.[70] Defnyddir dulliau tebyg mewn awdurdodaethau eraill, fel yn yr Alban ac Awstralia.[71] Mae'r llywodraeth yn agored i farn ynghylch pa ffactorau fyddai fwyaf perthnasol i'r llys eu hystyried wrth benderfynu a yw perthynas yn bodloni'r diffiniad o gyd-fyw.

**Cwestiwn 26**
**Pa ffactorau, fel yr amlinellwyd yn adroddiad 2007 Comisiwn y Gyfraith, ydych chi'n meddwl y dylai'r llys eu hystyried wrth ystyried a yw unigolion yn cyd-fyw? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- Bodolaeth aelwyd ar y cyd
- Sefydlogrwydd y berthynas
- Trefniadau ariannol
- Cyfrifoldeb dros blant
- Presenoldeb perthynas rywiol
- Cydnabyddiaeth gyhoeddus i'r berthynas
- Arall (rhowch fanylion) [Testun rhydd]

*Eithriadau awtomatig*
Mae'r llywodraeth yn cynnig y dylai cyplau sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil â'i gilydd a'r rhai sy'n perthyn yn rhy agos i briodi, gael eu heithrio o'r fframwaith cyd-fyw.

Mae gan gyplau priod a chyplau sy'n bartneriaid sifil eisoes fynediad at gyfundrefnau statudol cynhwysfawr, felly byddai caniatáu iddynt ddefnyddio'r fframwaith hwn yn dyblygu llwybrau cyfreithiol ac yn tanseilio statws cyfreithiol neilltuol priodas a phartneriaeth sifil. Ni fyddai'r eithriad hwn yn atal person rhag dwyn hawliad yn erbyn rhywun sy'n briod, lle bo'r ceisydd mewn perthynas cyd-fyw â'r person hwnnw.

Ar gyfer perthnasau agos, mae'r cynigion yn adlewyrchu'r graddau o berthynas gwaharddedig hirsefydlog a nodir yn Neddf Priodasau 1949, gan sicrhau cysondeb ar draws fframweithiau cyfreithiol.[72] Mae graddau o berthynas gwaharddedig eisoes yn

---

[70]Comisiwn y Gyfraith, Cyd-fyw: Canlyniadau Ariannol Perthynas yn Chwalu (Law Com No 307, Cm 7182, 2007), tud. 50.

[71] Family Law (Scotland) Act 2006; Family Law Act 1975.

[72]Deddf Priodas 1949.

berthnasol i gyplau sy'n cyd-fyw mewn sefyllfaoedd eraill, megis mewn deddfwriaeth nawdd cymdeithasol.[73]

**Cwestiwn 27**
**Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheini sydd eisoes wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil â'i gilydd, neu'r rheini sy'n perthyn yn rhy agos i'w gilydd i briodi, fod yn anghymwys ar gyfer y fframwaith?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

*Oedran*
Mae'r llywodraeth yn cynnig mai 18 oed ddylai fod yr isafswm oedran i wneud cais o dan y fframwaith cyd-fyw. Mae'r dull hwn yn gyson a'r oedran presennol ar gyfer priodi.[74] Yn debyg i briodas, byddai pennu isafswm oedran o 18 yn cyflawni swyddogaeth amddiffynnol.

**Cwestiwn 28**
**Ydych chi'n cytuno mai 18 oed ddylai fod yr isafswm oedran i fod yn gymwys ar gyfer y fframwaith?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

**Meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwneud cais**

*Isafswm cyfnod*
Mae'r llywodraeth yn cynnig bod yn rhaid i gyplau fod wedi byw gyda'i gilydd am **o leiaf dair blynedd** cyn y gallant gael mynediad at yr hawliau a'r amddiffyniadau a gynigir gan y fframwaith cyd-fyw. Yr eithriad i hyn fyddai os yw'r cwpl yn byw gyda'i gilydd ac wedi cael plentyn, neu os oes plentyn yn bresennol sy'n cael ei ystyried yn aelod o'r teulu ("plentyn y teulu"). Byddai plentyn y teulu'n cael ei ystyried ar sail debyg i'r un ar gyfer ysgaru a byddai'n cynnwys plentyn i'r ddau unigolion neu i unrhyw blentyn y mae'r ddau unigolyn wedi'i drin fel plentyn i'r berthynas, ac eithrio plant maeth sydd wedi'u lleoli gan awdurdod lleol.[75]

Mae'r llywodraeth yn credu y dylai'r amddiffyniadau cyfreithiol hyn ymestyn ond i berthnasoedd ble dangosir ymrwymiad clir, felly mae'n credu bod angen isafswm cyfnod.

[73] Department for Work and Pensions, Decision Maker's Guide: Volume 3, Chapter 11 — Living Together as a Married Couple (DWP, 2017).

[74]Deddf Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Isafswm Oedran) 2022.

[75]Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 52.

Byddai isafswm cyfnod hefyd yn helpu i leihau dryswch ymysg y cyhoedd drwy ei gwneud yn glir pryd y gall amddiffyniadau cyfreithiol ddechrau bod yn berthnasol, gan helpu i fynd i'r afael â'r myth ynghylch priodas cyfraith gyffredin.

Mae'r cyfnod arfaethedig o fewn yr ystod dwy i bum mlynedd a argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad yn 2007 ar gyd-fyw ac mae'n cyd-fynd â'r gyfraith bresennol yn Seland Newydd.[76]

Wrth osod y trothwy ar dair blynedd, nod y llywodraeth yw taro cydbwysedd rhwng cwmpasu perthnasoedd sy'n dangos ymrwymiad a chyd-ddibyniaeth, gan osgoi trothwy mor uchel fel y gallai eithrio unigolion agored i niwed y mae angen eu hamddiffyn.

Ni fyddai isafswm cyfnod o dair blynedd yn golygu na all y llys wahaniaethu rhwng cyplau sydd ond prin yn cyrraedd y trothwy hwn, a'r rhai sydd mewn perthnasoedd hwy. Yn yr un modd â'r gyfraith bresennol ar ysgaru, bydd hyd y berthynas yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar unrhyw ddyfarniad.

**Pan fydd cwpl yn cyd-fyw ac yn cael plentyn gyda'i gilydd, neu os oes plentyn dibynnol yn y teulu, mae'r llywodraeth o'r farn na ddylai unrhyw ofyniad isafswm cyfnod fod yn berthnasol.** Mae'r llywodraeth yn credu ei bod yn bwysig dileu'r gofyniad hwn er mwyn sicrhau bod modd diwallu anghenion y plentyn bob amser. Mae lles plentyn o'r pwys mwyaf, ac mae cefnogi'r ddau riant yn y sefyllfaoedd hyn yn helpu i ddiogelu lles y plentyn.

Yn rhyngwladol, mae cyd-fyw ynghyd â phresenoldeb plant yn aml yn gostwng neu'n dileu'r gofynion isafswm cyfnod. Yn Awstralia a Seland Newydd, mae cael plentyn gyda'i gilydd yn cael gwared ar y gofyniad yn llwyr, ac yn Iwerddon mae'n lleihau'r cyfnod o bum mlynedd i ddwy.[77] Mae cynnig y llywodraeth hefyd yn cyd-fynd ag adroddiad 2007 Comisiwn y Gyfraith, a oedd yn argymell dileu gofyniad isafswm cyfnod lle mae plant cwpl sy'n cyd-fyw yn bodoli.[78]

### Cwestiwn 29

---

[76] Cohabitation: The Financial Consequences of Relationship Breakdown Cm 7182; Property (Relationships) Act 1976 (New Zealand).

[77] Federal Circuit and Family Court of Australia, De facto relationships (FCFCOA) <https://www.fcfcoa.gov.au/fl/pubs/defacto>; New Zealand Ministry of Justice, Relationships covered by law (NZ Ministry of Justice, diweddarwyd 19 Rhagfyr 2023) <https://www.justice.govt.nz/family/separation-divorce/divide-relationship-property/relationships-covered-by-law/>; Law Society of Ireland, Cohabiting couples <https://www.lawsociety.ie/public/legal-guides/family-law/cohabiting-couples>.

[78] Adroddiad terfynol Comisiwn y Gyfraith Cyd-fyw: Canlyniadau Ariannol Perthynas yn Chwalu (Cm 7182, Law Com No 307, 2007).

**A ydych yn cytuno â chynnig y llywodraeth ei bod yn rhaid i gyplau heb blant fod wedi byw gyda'i gilydd am o leiaf dair blynedd, cyn y gallant gael mynediad at y fframwaith cyd-fyw?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

**Os ydych chi'n anghytuno â'r isafswm cyfnod o dair blynedd a awgrymir uchod, pa gyfnod fyddech chi'n ei gynnig yn lle hynny?**

- Dim
- Blwyddyn
- 2 Flynedd
- 4 Blynedd
- 5 Blynedd
- Mwy na 5 Mlynedd

**Os ydych chi'n anghytuno â'r isafswm cyfnod o dair blynedd, ac wedi dewis cyfnod gwahanol, esboniwch pam isod:**

- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 30**

**Ydych chi'n cytuno, lle mae cyplau'n cyd-fyw a bod plentyn yn y teulu, y dylid datgymhwyso'r gofyniad isafswm cyfnod?**

- Ydw
- Nac ydw, ond dylid gostwng yr isafswm cyfnod
- Nac ydw, ni ddylid newid yr isafswm cyfnod o ganlyniad i blant
- Ddim yn siŵr

### Terfynau amser

Mae'r llywodraeth yn cynnig **terfyn amser o ddwy flynedd** ar gyfer dwyn hawliad ariannol ar ôl i berthynas cyd-fyw ddod i ben.[79] Mae hyn yn golygu y byddai angen i unigolion wneud cais o fewn dwy flynedd i wahanu er mwyn i'r hawliad gael ei ystyried gan y llys. Mae'r terfyn amser yn ceisio cydbwyso rhoi digon o amser i unigolion gyflwyno hawliad ar yr un pryd â rhoi sicrwydd a therfynoldeb i'r ddau unigolyn. Mae penderfyniad y llywodraeth yn cyd-fynd â dulliau a ddefnyddir mewn awdurdodaethau eraill fel Awstralia ac Iwerddon.[80]

---

[79]Byddai hyn yn berthnasol hyd yn oed pan fydd yr unigolion yn parhau i fyw yn yr un eiddo, er bod eu perthynas wedi dod i ben.

[80] Federal Circuit and Family Court of Australia, De facto relationships <https://www.fcfcoa.gov.au/fl/pubs/defacto>.; Law Society of Ireland, Cohabiting couples: Time limits <https://www.lawsociety.ie/public/legal-guides/family-law/cohabiting-couples/#timelimits>.

**Cwestiwn 31**
**A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno terfyn amser i atal hawliadau rhag cael eu gwneud ar ôl i ddwy flynedd fynd heibio ers i'r berthynas ddod i ben?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

**Os ydych chi'n anghytuno â'r cyfnod o ddwy flynedd a awgrymir uchod, pa gyfnod fyddech chi'n cynnig yn lle hynny?**

- Dim Terfyn Amser
- Blwyddyn
- 3 Blynedd
- 4 Blynedd
- Mwy na 5 Mlynedd

**Os ydych chi'n anghytuno â'r cyfnod o ddwy flynedd, ac wedi dewis cyfnod gwahanol, esboniwch pam isod:**

- [Testun rhydd]

**"Anghenion": yr egwyddor sy'n llywio penderfyniadau'r llys**

**Dull "seiliedig ar anghenion"**

*Prif ddull gweithredu*
Mae'r llywodraeth yn cynnig mai **"anghenion"** ddylai fod yr egwyddor arweiniol ar gyfer pennu canlyniadau pan fydd cyplau sy'n cyd-fyw yn gwahanu. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd yn glir iawn â'r pedair egwyddor sy'n sail i'r ymgynghoriad hwn fel yr esbonnir isod:

Bydd y dull seiliedig ar anghenion yn **blaenoriaethu canlyniadau teg i blant**, sy'n aml yn cael eu heffeithio fwyaf gan ansefydlogrwydd ar ôl gwahanu er nad oes ganddynt ddylanwad dros ddewisiadau eu rhieni ynghylch perthynas. Gall bregusrwydd ariannol y prif ofalwr effeithio'n uniongyrchol ar les a chanlyniadau hirdymor plentyn. Drwy sicrhau bod gan y prif roddwr gofal yr adnoddau i ddiwallu ei anghenion tai a byw, mae model "anghenion" yn hyrwyddo parhad a sefydlogrwydd i blant, gan leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd ariannol.

Wrth **amddiffyn pobl agored i niwed**, mae'r llywodraeth yn credu mai dull gweithredu "seiliedig ar anghenion" yw'r ffordd orau o gyflawni'r ymrwymiad yn ei maniffesto i gryfhau'r hawliau a'r amddiffyniadau sydd ar gael i fenywod mewn cyplau sy'n cyd-fyw.[81] Mae menywod yn anghymesur o fwy tebygol o leihau eu henillion neu adael y gweithlu i ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu, gan eu gadael yn agored i niwed yn ariannol os bydd perthynas yn dod i ben. Mae dull sy'n seiliedig ar anghenion yn sicrhau nad ydynt yn cael

[81]Y Blaid Lafur, Maniffesto'r Blaid Lafur 2024: Newid (2024) .

eu gadael yn methu â sicrhau tai na chynnal safon byw resymol oherwydd y dewis hwnnw. Mae hefyd yn cynnig llwybr realistig at ddiogelwch i ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig, gan gynnwys cam-drin economaidd, drwy sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth ar ôl gadael perthynas.

Yn yr un modd, mae dull sy'n seiliedig ar anghenion yn cefnogi amcan y llywodraeth o **gadw statws cyfreithiol neilltuol priodas** drwy ddiffinio "anghenion" yn fwy cyfyng nag yn achos ysgaru, gan eithrio anghenion dewisol (gweler tudalen 67). Er mwyn cynnal y gwahaniaeth hwn, mae'r llywodraeth yn cynnig na ddylid cymhwyso'r egwyddor rhannu i gyplau sy'n cyd-fyw, sy'n golygu na fyddai rhagdybiaeth gychwynnol o raniad 50:50 o ran asedau perthynas.

Yn unol ag amcan y llywodraeth o greu **fframwaith clir a hygyrch**, mae dull seiliedig ar anghenion yn syml, yn rhagweladwy ac yn hawdd ei ddeall. Mae'r cysyniad o "anghenion" eisoes yn ganolog i'r gyfraith rhwymedi ariannol bresennol. Dylai defnyddio'r egwyddor gyfarwydd hon, tra'n ei diffinio'n fwy cyfyng ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw, helpu unigolion i ddeall canlyniadau tebygol, lleihau ansicrwydd ac osgoi ymgyfreitha hwy a mwy costus.

*Model digolledu*

Mae'r llywodraeth yn ymwybodol bod awdurdodaethau eraill yn berthnasol, a chynigiodd Comisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad yn 2007 ddull gweithredu sy'n seiliedig ar "ddigolledu" wrth benderfynu sut dylid rhannu asedau ar wahân.[82] Byddai'r dull hwn yn rhoi'r amcan i'r llys ddigolledu'r anfantais a ddioddefwyd gan un partner er budd y llall o ganlyniad i benderfyniadau sy'n deillio o'u perthynas. Er enghraifft, efallai y bydd partner sydd wedi rhoi'r gorau i yrfa broffidiol i ofalu am eu plentyn, ac o ganlyniad wedi profi anfantais sy'n deillio o berthynas, yn cael eu digolledu gan y partner arall y mae eu gyrfa wedi datblygu oherwydd nad oedd wedi ymgymryd â'r rôl gofalu.

Fodd bynnag, mae'r llywodraeth wedi penderfynu peidio â dilyn y trywydd hwn. Ei brif bryder yw nad yw model digolledu yn sicrhau'n ddibynadwy bod anghenion, yn enwedig anghenion plant, yn cael eu diwallu. Er enghraifft, gallai model digolledu fethu â rhoi cyfrif am galedi sy'n deillio o amgylchiadau nad ydynt wedi'u hachosi'n uniongyrchol gan y berthynas, fel salwch difrifol neu anabledd. Gallai hyn arwain at ddyfarniadau nad ydynt yn ddigonol i ddiwallu anghenion tai neu ofalu, a allai arwain at galedi ariannol.

Ystyriodd y llywodraeth a ellid lliniaru'r cyfyngiad hwn drwy ddarpariaeth bresennol ar gyfer plant o dan Atodlen 1 i Ddeddf Plant 1989.[83] Fodd bynnag, bwriad Atodlen 1 yw gwneud gorchmynion ariannol er budd y plentyn yn unig ac nid yw'n caniatáu i riant hawlio am eu hanghenion ariannol eu hunain. Felly, ni fyddai hyn yn cyflawni ymrwymiad maniffesto'r

[82] Adroddiad terfynol Comisiwn y Gyfraith Cyd-fyw: Canlyniadau Ariannol Perthynas yn Chwalu (Cm 7182, Law Com No 307, 2007).

[83] Deddf Plant 1989.

llywodraeth i amddiffyn menywod a gallai hefyd danseilio sefydlogrwydd plentyn drwy adael ei brif ofalwr (menywod gan amlaf) heb gymorth uniongyrchol. Byddai hefyd yn rhoi rhieni mewn sefyllfa annheg o orfod gwneud cais i'r llys ddwywaith.

Mae'r llywodraeth hefyd yn poeni y byddai model digolledu yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys edrych yn ôl ac archwilio a mesur pob penderfyniad a greodd fantais ac anfantais yn ystod y berthynas.[84] Byddai hyn yn gymhleth, yn anodd ei asesu ac mae'n debyg y byddai'n cynyddu'r gwrthdaro rhwng unigolion. Gallai arwain at ganlyniadau annisgwyl ac achosion hirach, drutach, a allai annog y rhai sydd fwyaf mewn angen i beidio â gwneud cais.

Er bod y llywodraeth yn cydnabod mai nod yr egwyddor digolledu yw adlewyrchu dewisiadau a wneir yn ystod perthynas, mae'n credu y byddai'n well mynd i'r afael â'r materion hyn drwy fframwaith sy'n seiliedig ar anghenion. Cyfeirir ymgyngoreion ar dudalen 67 sy'n nodi sut mae'r llywodraeth yn bwriadu cynnwys digolledu mewn rhestr wirio y byddai'r llys yn ei hystyried wrth asesu anghenion.

**Y fframwaith arfaethedig sy'n seiliedig ar anghenion**
Mae'r llywodraeth yn bwriadu i'w fframwaith seiliedig ar anghenion fod yn glir ac yn hygyrch i'r rhai sy'n ei ddefnyddio. I'r perwyl hwnnw, mae'r llywodraeth yn cynnig:

- Nod polisi cyffredinol i'r llys wrth wneud gorchmynion ariannol;
- Amcan clir ar gyfer yr egwyddor o ddiwallu angen;
- Ffordd glir o roi'r amcan ar waith; a
- Rhestr o ffactorau i'r llys eu hystyried wrth gymhwyso'r amcan.

*Nod polisi cyffredinol*
Yn yr un modd â rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgariad (gweler tudalen 34), mae'r llywodraeth yn cynnig mai nod cyffredinol y llys wrth ddelio â chais ddylai fod sicrhau canlyniad teg.

**Ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw, barn y llywodraeth yw y ceir canlyniad teg drwy ddefnyddio'r egwyddor anghenion.**

*Amcan ar gyfer diwallu anghenion*
Mae'n dilyn o'r nod polisi cyffredinol y dylai diwygiadau gynnwys amcan clir ar gyfer diwallu angen.

Bwriad y llywodraeth yw i anghenion fod yn fwriadol wahanol ac ar wahân i'r bwriad polisi arfaethedig ar gyfer rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgariad. Mae'r gwahaniaeth hwn yn

[84] *Gow v Grant* [2012] UKSC 29, para 53.

adlewyrchu presenoldeb ymrwymiad cyfreithiol penodol mewn priodas, lle gall diwallu anghenion wrth ysgaru gefnogi pontio mwy graddol i annibyniaeth ariannol.[85]

Mewn cyferbyniad, lle mae unigolion wedi cyd-fyw heb ymrwymiad o'r fath, mae'r nod wedi'i anelu'n fwy cadarn at sicrhau toriad llwyr cynharach. **Barn y llywodraeth yw y dylid diwallu anghenion cyplau sy'n cyd-fyw mewn ffordd sy'n galluogi terfynu dibyniaeth a rhwymedigaethau cyn gynted ag sy'n gyfiawn ac yn rhesymol.**[86]

*Sut y byddai'r llys yn cymhwyso bwriad polisi'r llywodraeth mewn perthynas ag anghenion*
Wrth gymhwyso'r amcan yn ymarferol, mae'r llywodraeth yn cynnig dull gweithredu dau gam clir ar gyfer y llys:

**Cam 1: Anghenion plant sy'n dod gyntaf.**

Fel mewn achosion ysgaru, anghenion plant fyddai'n dod gyntaf. Nid oes gan blant unrhyw reolaeth dros berthynas eu rhieni na phenderfyniadau ariannol, ond gallant gael eu heffeithio'n uniongyrchol ganddynt. Mae'r dull hwn yn sicrhau nad ydynt dan anfantais.

**Cam 2: Ystyried anghenion ariannol yr unigolion eu hunain.**

Gall yr anghenion hyn fod yn gysylltiedig ag anghenion plant. Byddent yn cynnwys anghenion tai, cyfalaf, incwm a phensiwn, cyn belled ag y mae adnoddau'n caniatáu. Y nod fyddai sicrhau bod pob person yn gallu sicrhau tai addas a thalu costau byw.

Wrth asesu'r anghenion hynny, gallai'r llys ystyried safon byw yn ystod y berthynas, gan fod hyn yn darparu meincnod defnyddiol. Mae perthynas ymroddedig yn aml yn siapio trefniadau ariannol a disgwyliadau ar gyfer y dyfodol, a dylid cydnabod y realiti hwnnw.

Fodd bynnag, byddai'r ffocws yn parhau ar ddiwallu anghenion. Ni fyddai anghenion dewisol y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol yn cael eu cynnwys, hyd yn oed os oes adnoddau ar gael.

*Eithrio anghenion dewisol*
Mae'r llywodraeth yn cynnig eithrio anghenion dewisol o asesiad y llys o anghenion cyplau sy'n cyd-fyw. Mae anghenion dewisol yn ymwneud â chysuron yn hytrach nag angenrheidiau, a gallant gynnwys, er enghraifft, eitemau moethus fel car uchel ei werth, gwelliannau nad ydynt yn hanfodol i'r cartref neu aelodaeth clwb preifat. Fel rhan o'r diwygio, mae'r llywodraeth yn bwriadu nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng anghenion Cam 2 ac anghenion dewisol sydd wedi'u heithrio.

Mae eithrio anghenion o'r fath yn creu gwahaniaeth clir ac egwyddorol pellach rhwng gwahanu ac ysgaru, gan adlewyrchu'r gwahanol lefelau o ymrwymiad a rhwymedigaethau

[85] Mae adran 25A(1) MCA 1973 yn adlewyrchu hyn, drwy roi disgresiwn clir i'r llys ystyried a fyddai'n briodol arfer ei bwerau er mwyn terfynu rhwymedigaethau ariannol cyn gynted ag sy'n gyfiawn ac yn rhesymol.

[86] Mae hyn yn rhoi disgresiwn i'r llys *ystyried a fyddai'n briodol* terfynu rhwymedigaethau ariannol, gan roi cyfarwyddyd clir y dylai wneud hynny.

cyfreithiol. Mae'r dull hwn hefyd yn cefnogi'r amcan toriad llwyr. Drwy gyfyngu cymorth ariannol i anghenion hanfodol, gall y llys osgoi rhwymedigaethau parhaus neu ddiangen, gan helpu'r ddau berson i symud ymlaen yn gyflymach.

Gwahaniaeth arall o'i gymharu â'r dull ar gyfer ysgaru yw mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai gorchmynion cynhaliaeth parhaus rhwng cyplau sy'n cyd-fyw ar gael. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r llys yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion drwy ddarpariaeth cyfalaf yn hytrach na thaliadau incwm parhaus. Mae rhagor o fanylion am y cynnig hwn ar gael ar dudalen 69.

*Anghenion yn cynnwys amgylchiadau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r berthynas.*
Heb allu'r llys i ystyried yr amgylchiadau hyn wrth asesu angen, gallai unigolion fod mewn sefyllfa fregus yn ariannol hyd yn oed ar ôl perthynas hir ac ymroddedig, lle mae'r cwpl wedi dibynnu'n ariannol ar ei gilydd. Er enghraifft, ar ôl gwahanu efallai y bydd angen darpariaeth ar bartner sydd â chyflwr iechyd sy'n dirywio ac sydd wedi cael cymorth ariannol yn ystod y berthynas er mwyn diwallu eu hanghenion iechyd penodol.

Felly, mae'r llywodraeth yn cynnig, yn yr un modd ag ysgaru, y dylai'r llys allu ystyried amgylchiadau o'r fath wrth asesu anghenion, fel bod y canlyniadau'n canolbwyntio ar osgoi caledi. Mae hyn yn gyson â'r ffaith bod y llywodraeth wedi dewis peidio â mabwysiadu fframwaith sy'n seiliedig ar ddigolledu. Fodd bynnag, yn unol â'r safbwynt arfaethedig ynghylch cynhaliaeth (gweler tudalen 69), byddai'r cymorth ariannol parhaus rhwng cyplau sy'n cyd-fyw yn parhau i fod yn eithriadol.

*Rhestr o ffactorau y dylai'r llys eu defnyddio wrth asesu anghenion.*
Er mwyn helpu'r llys i ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar anghenion yn deg ac yn gyson, mae'r llywodraeth yn cynnig rhestr o ffactorau y mae'n rhaid i'r llys eu hystyried wrth benderfynu beth sy'n asesiad teg sy'n seiliedig ar anghenion. Bwriad y ffactorau yw helpu'r llys i greu darlun clir o sut mae amgylchiadau pob unigolyn yn siapio eu hanghenion ariannol ar ôl gwahanu.

Mae'n debyg y byddai enghreifftiau o rai o'r ffactorau'n cynnwys:

- Y gallu i ennill cyflog;
- Adnoddau ariannol pob unigolyn;
- Unrhyw anabledd corfforol neu feddyliol;
- Oedran; a
- Hyd y berthynas.

Byddai'r dull yn adlewyrchu'n fras y ffactorau a nodir yn Rhan 1, sydd eu hunain yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r ffactorau presennol yn adran 25 y Ddeddf Achosion Priodasol.[87] Mae llawer o'r un ffactorau'n berthnasol ar ddiwedd perthynas cyd-fyw ag sy'n berthnasol

[87] Deddf Achosion Priodasol 1973.

yn achos priodas, a bydd mabwysiadu strwythur tebyg yn cefnogi eglurder ar draws y ddau fframwaith.

Yn yr un modd â rhwymedïau ariannol, rydyn ni'n cynnig bod y rhestr o ffactorau'n cynnwys ffactor digolledu newydd. Byddai hyn yn caniatáu i'r llys ystyried, wrth asesu anghenion, penderfyniadau a wnaed yn ystod y berthynas a allai fod wedi effeithio ar sefyllfa ariannol unigolyn, fel lleihau oriau i ofalu am blentyn.

*Cam-drin domestig*
Mae'r llywodraeth yn cydnabod y gall cam-drin domestig, gan gynnwys cam-drin economaidd, fod yn achos sylweddol o fregusrwydd ariannol i gyplau sy'n cyd-fyw. Mae hyn yn arbennig o broblemus mewn cyd-destun lle mae nifer yr achosion o gam-drin domestig ddwywaith yn uwch ymysg cyplau sy'n cyd-fyw ag ydyw ar gyfer parau priod.[88]

Bwriad y llywodraeth yw y dylai'r Llysoedd Teulu drin camymddwyn yn gyson ar draws achosion rhwymedi ariannol ar gyfer ysgaru ac o fewn y fframwaith cyd-fyw arfaethedig. Felly, gwahoddir ymgyngoreion i gyfeirio at Ran 1 a'r cwestiynau sy'n ymwneud â'r mater hwn.

**Cwestiwn 32**
**Ydych chi'n cytuno mai "anghenion" ddylai fod yr egwyddor arweiniol y dylai'r llys ei dilyn ar gyfer pennu canlyniadau pan fydd cyplau sy'n cyd-fyw yn gwahanu? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**
- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 33**
**Ydych chi'n cytuno â barn y llywodraeth mai'r amcan ar gyfer diwallu anghenion ddylai fod gwneud hynny mewn ffordd sy'n galluogi terfynu dibyniaeth a rhwymedigaethau cyn gynted ag sy'n gyfiawn ac yn rhesymol? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**
- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 34**

[88] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Nodweddion dioddefwyr cam-drin domestig, Cymru a Lloegr: y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 (26 Tachwedd 2025) ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabusevictimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2025>.

**Ydych chi'n cytuno y dylid eithrio anghenion dewisol o'r broses o ystyried anghenion cyplau sy'n cyd-fyw? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**
• Ydw
• Nac ydw
• Ddim yn siŵr
• [Testun rhydd]

**Cwestiwn 35**
**Ydych chi'n cytuno y dylai'r llys allu ystyried anghenion sy'n deillio o amgylchiadau ehangach na'r berthynas (er enghraifft, cyflyrau iechyd difrifol neu anableddau) wrth benderfynu ar ddarpariaeth ariannol? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**
• Ydw
• Nac ydw
• Ddim yn siŵr
• [Testun rhydd]

**Cwestiwn 36**
**Ydych chi'n cytuno y dylid cael rhestr wirio o'r materion y mae'n rhaid i'r llys eu hystyried yn benodol wrth gymhwyso'r egwyddor anghenion? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**
• Ydw
• Nac ydw
• Ddim yn siŵr
• [Testun rhydd]

**Rhwymedïau sydd ar gael**

*Yr amrywiaeth o rwymedïau sydd ar gael*
Pan fydd cyplau sy'n cyd-fyw yn bodloni'r meini prawf cymhwyso o dan y fframwaith newydd, mae'r llywodraeth yn cynnig y dylai'r llys gael mynediad at set eang o rwymedïau sy'n adlewyrchu'r hyn sydd ar gael ar gyfer ysgariad, gan gynnwys gorchmynion addasu eiddo, gorchmynion cyfandaliad a gorchmynion rhannu pensiwn. Byddai gan y llys hefyd fynediad at orchmynion cynhaliaeth, er bod y llywodraeth yn cynnig mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai'r rhain ar gael.

Pwrpas sicrhau bod ystod eang o rwymedïau ar gael yw caniatáu i'r llys ymateb yn hyblyg i ffeithiau pob achos, gan eu galluogi i ddiwallu anghenion cyplau. Felly, mae'r llywodraeth o'r farn na ddylid clymu dwylo'r llys ac y dylai allu dewis y rhwymedi (neu gyfuniad o rwymedïau) sydd fwyaf addas i amgylchiadau'r achos. Gallai gwrthod rhai rhwymedïau penodol yn bendant arwain at ganlyniadau anfwriadol ac arwain at y llys yn rhoi dyfarniadau mwy hael o'r rhwymedïau sy'n dal ar gael. Er enghraifft, pe bai gorchmynion

rhannu pensiwn yn cael eu heithrio ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw, gallai'r llys wneud dyfarniadau cyfalaf mwy sylweddol nag y byddent fel arall.

Er bod y llywodraeth yn cynnig bod gan gyplau sy'n cyd-fyw fynediad at yr un hawliau â chyplau sy'n ysgaru, nid yw hyn yn golygu y byddai canlyniadau ariannol cyfatebol i ysgariad. Fel y nodir ar dudalen 62, byddai'r fframwaith cyd-fyw yn cael ei arwain gan anghenion, gydag anghenion yn cael eu hasesu'n fwy cyfyng nag ar gyfer ysgaru, ac ni fyddai'r llys yn defnyddio'r egwyddor rhannu. Mae hyn yn golygu, er y byddai gan y llys fynediad at yr un mathau o rwymedïau ag ar gyfer ysgaru, nid yw hyn yn golygu y byddai'r un dyfarniadau'n cael eu rhoi.

*Terfynau ar daliadau cynhaliaeth*
Byddai cynhaliaeth (a elwir hefyd yn daliadau cyfnodol) yn daliadau rheolaidd a wneir gan un cydbreswylydd i'r llall ar ôl gwahanu. Mewn achosion ysgaru, fe'i defnyddir i ddiwallu anghenion parhaus, yn enwedig lle mae un parti wedi dod yn ariannol ddibynnol yn ystod y briodas.

Mae'r llywodraeth yn cynnig y dylai cynhaliaeth fod ar gael mewn egwyddor i gyplau sy'n cyd-fyw sy'n gymwys, ond dim ond ar sail fwy cyfyngedig nag yn achos ysgaru. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw cyplau sy'n cyd-fyw wedi ymrwymo i undeb gyfreithiol ac y dylai unrhyw rwymedigaethau ariannol parhaus rhwng cyplau sy'n cyd-fyw ddod i ben cyn gynted ag sy'n gyfiawn ac yn rhesymol, yn unol â'r amcan y mae'r Llywodraeth yn ei gynnig ar gyfer "anghenion".

I gefnogi'r nod hwn, mae'r llywodraeth yn cynnig mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid dyfarnu cynhaliaeth, fel materion iechyd difrifol neu anabledd.

Mae'r llywodraeth o'r farn, yn y rhan fwyaf o achosion, y dylid diwallu anghenion drwy rwymedïau eraill (fel gorchmynion addasu eiddo neu orchmynion cyfandaliad) yn hytrach na thrwy gynhaliaeth barhaus. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y gall fod amgylchiadau eithriadol lle mae angen cyfnod penodol o gynhaliaeth. Fel rhan o'r diwygio, gellid ystyried enghreifftiau o'r mathau o amgylchiadau eithriadol a allai gyfiawnhau cynhaliaeth.

Pan roddir cynhaliaeth, mae'r llywodraeth yn cynnig bod yn rhaid i unrhyw orchymyn fod am gyfnod diffiniedig a chyfyngedig, heb bosibilrwydd o ymestyn y cyfnod. Mae'r llywodraeth hefyd yn cynnig na ddylid caniatáu gorchmynion "bywydau ar y cyd" penagored.

**Cwestiwn 37**
**Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â rhwymedïau ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw?**

- Ydw.
- Nac ydw.

- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 38**
**O ran cynhaliaeth yn benodol, ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Ticiwch bob un sy'n berthnasol:**

- Dylid dyfarnu cynhaliaeth mewn amgylchiadau eithriadol (fel materion iechyd difrifol neu anabledd).
- Dylai unrhyw orchymyn cynhaliaeth fod yn gyfyngedig o ran amser, heb unrhyw orchmynion "bywydau ar y cyd" penagored.
- Ni ellir ymestyn cyfnod gorchymyn cynhaliaeth y tu hwnt i'r cyfnod gwreiddiol a bennwyd gan y llys.

**Os ydych chi'n anghytuno ag unrhyw un o'r cynigion uchod, esboniwch pam.**

- [Testun rhydd]

*Dyfarniadau ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw ddim yn fwy na dyfarniadau a wneir ar gyfer ysgariad.*
Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae'r llywodraeth am ddiogelu statws neilltuol priodas. I gefnogi hyn, mae'n cynnig mesur diogelu penodol na all dyfarniadau a wneir i gyplau sy'n cyd-fyw gan y llys fod yn fwy na'r rhai a fyddai wedi cael eu gorchymyn yn rhesymol wrth ysgaru mewn amgylchiadau sydd fel arall yr un fath.

**Cwestiwn 39**
**Ydych chi'n cytuno y dylid cael gofyniad penodol na all y llys roi dyfarniad uwch i gyplau sy'n cyd-fyw nag un a fyddai wedi cael ei roi'n rhesymol pe baent yn gwpl priod sy'n ysgaru?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

**Optio allan o'r fframwaith**
Mae'r llywodraeth yn cynnig model "optio allan" o dan y fframwaith cyd-fyw. O dan y dull hwn, mae cyplau sy'n cyd-fyw sy'n gymwys yn dod o dan y fframwaith statudol yn ddiofyn, ond gallant ddewis optio allan o'r hawliau a'r amddiffyniadau hyn os ydynt yn cytuno i wneud hynny.

Mantais allweddol cynllun optio allan yw ei fod yn golygu bod mesurau diogelu ar waith yn awtomatig i'r rheini a allai fel arall gael eu gadael heb eu diogelu, gan gynnwys unigolion sy'n credu ym myth priodas cyfraith gyffredin a'r rheini a allai fod mewn sefyllfa fregus yn ariannol. Mae hefyd yn cefnogi'r rheini a allai fod wedi cael eu hatal rhag ffurfio cytundeb cyd-fyw, ar y sail eu bod yn aml yn cael eu hystyried yn ddrud, yn anrhamantus, yn ddiangen neu oherwydd bod cyplau'n cymryd yn ganiataol na fydd gwahanu byth yn

digwydd.[89] Yn hollbwysig, mae cynllun optio allan yn sicrhau bod y parti sy'n economaidd wannach yn cael eu diogelu'n ddiofyn a gall wrthod optio allan lle byddai gwneud hynny'n tanseilio eu buddiannau.[90]

Ar yr un pryd, mae'r llywodraeth o'r farn ei bod yn bwysig cadw dewis clir i gyplau nad ydynt yn dymuno cael eu cynnwys yn y fframwaith cyd-fyw. Mae optio allan yn golygu y gall cyplau ddewis peidio â chael eu cynnwys yn yr hawliau a'r cyfrifoldebau awtomatig sy'n gysylltiedig â diwygio mewn perthynas â chyd-fyw, gan roi rheolaeth i gyplau dros sut mae eu perthynas yn cael ei threfnu. Er enghraifft, efallai y bydd cwpl hŷn sydd â phlant o berthynas flaenorol, sydd ag ymdeimlad clir o sut maen nhw'n dymuno i'w hasedau annibynnol gael eu trosglwyddo, yn dewis optio allan i sicrhau bod y trefniadau hynny'n cael eu cadw.

*Mesurau Diogelu*
Mae'r llywodraeth yn gadarn o'r farn bod yn rhaid cael mesurau diogelu statudol priodol i sicrhau bod y ddau unigolyn yn deall y penderfyniad y maent yn ei wneud cyn iddynt ddewis optio allan. Mae ymchwil yn dangos os nad yw optio allan yn cael ei reoleiddio'n briodol, y gallant atgyfnerthu anghydbwysedd pŵer presennol mewn perthynas, fel pan fo gan un partner fwy o wybodaeth gyfreithiol na'r llall.[91]

Mae'r llywodraeth yn credu bod angen mesurau diogelu i amddiffyn pobl, yn enwedig y rheini sy'n agored i niwed yn ariannol, rhag ymrwymo i gytundebau nad ydynt yn eu deall yn llawn neu nad ydynt o bosibl er eu budd ariannol. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae cam-drin domestig, gan gynnwys cam-drin economaidd, lle gallai unigolion gael eu gorfodi i optio allan yn erbyn eu buddiannau.

Mae angen cadw cydbwysedd yn ofalus. Dylai optio allan gael ei wneud ar sail gwybodaeth a'i wneud yn rhydd, ond ni ddylai fod mor gymhleth na drud fel ei fod yn mynd yn anhygyrch. Felly, mae'r llywodraeth yn cynnig mesurau diogelu ar sail argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn ei Adroddiad yn 2014 ar *Eiddo Priodasol, Anghenion a Chytundebau* (a oedd yn ystyried cytundebau cyn priodi ac ar ôl priodi), fel y nodir yn Rhan 1.[92] Yr unig eithriad yw'r gofyniad 28 diwrnod, sy'n benodol i gyplau priod.

Mae adlewyrchu'r mesurau diogelu hyn ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw yn sicrhau fframwaith clir, cadarn a dealladwy ar gyfer diogelu unigolion, yn enwedig y rheini a allai fod yn

---

[89] Professor Anne Barlow, Written Evidence Submission 38054 to the Women and Equalities Committee (UK Parliament Committees).

[90] Professor Jens Scherpe, Written Evidence Submission 43563 to the Women and Equalities Committee (UK Parliament Committees).

[91] Professor Sharon Thompson, "The Role of Opt-out Agreements in Cohabitation Reform" (Financial Remedies Journal, 30 Mehefin 2025).

[92] Comisiwn y Gyfraith, Eiddo Priodasol, Anghenion a Chytundebau (Law Com Rhif 343, 2014).

agored i niwed yn ariannol neu sydd mewn perygl o gael eu gorfodi. Dyma'r mesurau diogelu:

**Y Mesurau diogelu sydd eu hangen i optio allan**

- **Dilysrwydd Contract:** rhaid i'r cytundeb fod yn gontract dilys heb, er enghraifft, ddylanwad gormodol neu gamliwio.
- **Gweithredu fel gweithred:** rhaid i'r cytundeb fod wedi'i wneud drwy weithred a rhaid iddo gynnwys datganiad wedi'i lofnodi gan y ddau unigolyn eu bod yn deall bod y cytundeb yn gytundeb optio allan a fydd yn dileu gallu'r naill barti neu'r llall i wneud cais o dan y fframwaith cyd-fyw.
- **Datgeliad Ariannol Perthnasol**: rhaid bod pob parti i'r cytundeb, adeg ei wneud, wedi derbyn datgeliad o wybodaeth berthnasol am sefyllfa ariannol y parti arall.
- **Cyngor cyfreithiol annibynnol:** Cyngor cyfreithiol annibynnol i bob parti sy'n llofnodi'r cytundeb optio allan, i sicrhau bod pob un yn deall effaith gyfreithiol a chanlyniadau'r cytundeb.
- Ni ddylai fod yn bosibl i barti ildio ei hawliau i ddatgelu a chael cyngor cyfreithiol.
- Rhaid i unrhyw amrywiad ar gytundeb fodloni'r gofynion a restrir uchod.

**Cwestiwn 40**
**Ydych chi'n cytuno y dylai'r holl fesurau diogelu a restrir uchod fod yn ofynnol er mwyn i gytundeb optio allan fod yn ddilys?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Os ydych chi'n anghytuno, esboniwch pa fesurau diogelu y byddech chi naill ai'n eu hychwanegu neu'n eu dileu ac esboniwch pam.**

- [Testun rhydd]

**Rhyngweithiad y fframwaith cyd-fyw â TOLATA a chyfraith contractau**
O dan y fframwaith cyd-fyw, byddai'r Llysoedd Teulu yn clywed anghydfodau ariannol rhwng cyplau sy'n cyd-fyw sy'n gymwys. Nid yw'r llywodraeth yn disgwyl y byddai cyplau sy'n cyd-fyw sy'n gymwys yn gwneud ceisiadau dan TOLATA 1996, yn yr un modd ag y mae cyplau sy'n ysgaru yn gwneud hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gall ceisiadau TOLATA trydydd parti fod yn rhan o achosion cyd-fyw, er enghraifft, os oes anghydfod

ynghylch a oes gan berson y tu allan i'r berthynas fuddiant llesiannol mewn eiddo sy'n eiddo i gydbreswylydd.

Byddai cyplau sy'n cyd-fyw nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd neu sydd wedi'u gwahardd ar sail amser rhag gwneud hawliad cyd-fyw yn gallu gwneud hawliadau dan TOLATA 1996.

Pan fydd cyplau sy'n cyd-fyw yn dewis peidio â bod yn rhan o'r fframwaith cyd-fyw, byddent yn dal i allu cyflwyno hawliadau o dan TOLATA 1996 i ddatrys unrhyw anghydfodau ynghylch eiddo, gan gynnwys mewn perthynas ag eiddo sy'n eiddo ar y cyd.

**Hawliau plentyn**
Barn y llywodraeth yw na ddylai cytundeb optio allan allu atal cais am gynhaliaeth plant drwy'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant, na chais rhag cael ei wneud ar ran plentyn drwy Atodlen 1.

Nid yw plant yn rhan o'r cytundebau hyn. Does ganddyn nhw ddim llais ynddyn nhw a does ganddyn nhw ddim rheolaeth dros sut y gallent effeithio arnyn nhw. Lles plant yw'r brif ystyriaeth, a bydd yn parhau felly, ac ni ddylai amddiffyniadau cyfreithiol i blant gael eu tanseilio gan gytundebau preifat rhwng oedolion.

**Cwestiwn 41**
**Ydych chi'n cytuno na ddylai optio allan allu atal cais rhag cael ei wneud ar ran plentyn?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

**Ymgysylltu â'r cyhoedd**
Mae myth priodas cyfraith gyffredin yn dal yn gyffredin iawn, gyda bron i hanner y cyhoedd yn credu bod byw gyda'i gilydd yn rhoi'r un hawliau cyfreithiol i gyplau â phriodas.[93] Mae diwygio mewn perthynas â chyd-fyw yn gyfle nid yn unig i wella amddiffyniadau cyfreithiol, ond hefyd i gysoni dealltwriaeth y cyhoedd â realiti cyfreithiol.

Ni fydd newidiadau newydd yn effeithiol oni bai eu bod yn cael eu cyfleu'n glir. Mae'n bwysig bod pobl yn deall beth yw hawliau cyplau sy'n cyd-fyw a'r hawliau nad oes ganddynt, a sut mae'r rhain yn wahanol i hawliau cyplau priod.

[93] John Curtice et al (eds), British Social Attitudes: The 36th Report (NatCen Social Research 2019).

**Cwestiwn 42**
**Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfleu'r diwygiadau hyn i'r cyhoedd, yn enwedig er mwyn helpu i chwalu myth priodas cyfraith gyffredin a chodi ymwybyddiaeth o'r hawliau cyfreithiol newydd?**

- [Testun rhydd]

# Rhan 3: Diwygio'r gyfraith ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw ynghylch diewyllysedd

Mae'r llywodraeth yn cynnig cyflwyno diwygiadau i'r rheolau diewyllysedd fel eu bod yn adlewyrchu realiti perthnasoedd modern yn well. Mae patrymau bywyd teuluol wedi newid yn sylweddol dros y degawdau diwethaf, gyda chyd-fyw tymor hir bellach yn fath cyffredin o berthynas. Er gwaethaf hyn, nid yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli diewyllysedd yn gydnaws â hynny. Pan fydd person yn marw heb ewyllys, nid oes gan y cydbreswylydd hawl awtomatig i etifeddu, waeth beth fo hyd neu sefydlogrwydd y berthynas. Yn ymarferol, gall hyn adael partneriaid mewn profedigaeth heb sicrwydd ariannol, ei gwneud yn ofynnol iddynt ddwyn hawliad o dan I(PFD)A 1975, a chreu ansicrwydd i deuluoedd ehangach ar adeg sydd eisoes yn anodd.

Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn 2011 *Diewyllysedd a Hawliadau Darpariaeth Teulu yn dilyn Marwolaeth* yn darparu sylfaen gref ar gyfer diwygio wrth nodi dull cliriach a mwy rhagweladwy sy'n adlewyrchu perthnasoedd modern yn well ar yr un pryd â sicrhau tegwch i blant a pherthnasau eraill a allai hefyd fod â buddiant yn yr ystâd.[94]

Mae'r llywodraeth hefyd yn gofyn am farn ar fesur ychwanegol a drafodwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ond nad oedd wedi'i gynnig yn ffurfiol. Mae hyn yn ymwneud â sut y dylai unrhyw estyniad i hawliau diewyllysedd i bartneriaid sy'n cyd-fyw ryngweithio â threfn blaenoriaeth Caniatadau Gweinyddu.

Mae'r rhan hon o'r ymgynghoriad yn ystyried a ddylai'r gyfraith gydnabod rhai cydbreswylwyr yn y fframwaith diewyllysedd ac, os felly, ar ba ffurf y dylai'r hawliau hynny fod. Nid yw'n mynd i'r afael â materion sy'n perthyn i adrannau eraill y llywodraeth, megis treth etifeddiant neu hawliadau pensiwn.

### Hawliau partneriaid sy'n cyd-fyw ynghylch diewyllysedd

Fel y nodwyd yn gynharach yn y papur hwn, ar hyn o bryd nid oes gan gyplau sy'n cyd-fyw hawl awtomatig i etifeddu unrhyw ran o ystâd eu partner (gan gynnwys eu teclynnau personol) pan fydd eu partner yn marw heb ewyllys. Oni ddarperir ar eu cyfer yn ewyllys eu partner, eu hunig rwymedi yw dwyn hawliad am ddarpariaeth ariannol resymol o dan I(PFD)A 1975, proses a all fod yn ansicr, a all achosi straen a bod yn gostus ar adeg o brofedigaeth. Mae'r llywodraeth yn cydnabod y pryderon hyn ac mae'n cynnig ymestyn hawliau diewyllysedd i gydbreswylwyr ar yr amod bod amodau penodol yn cael eu bodloni.

At ei gilydd, mae'r llywodraeth yn cytuno ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith y dylai cydbreswylwyr cymwys etifeddu o dan y rheolau diewyllysedd yn yr un ffordd â phriod neu bartner sifil, o ran y swm y gallant ei etifeddu a'u safle yn nhrefn hawl. Mae dadleuon

[94] Comisiwn y Gyfraith, Diewyllysedd a Hawliadau Darpariaeth Teulu yn dilyn Marwolaeth (Law Com No 331, HC 1674, 2011).

Comisiwn y Gyfraith o blaid cydnabyddiaeth o'r fath: tegwch, rhagweladwyedd a gwell aliniad â phrofiad bywyd mewn perthnasoedd hirdymor, yn parhau i fod yn ddarbwyllol.

Fodd bynnag, mae'r llywodraeth yn cydnabod y bydd llawer yn anghytuno ag ymestyn hawliau er mwyn i gyplau sy'n cyd-fyw gael eu trin yn yr un ffordd â chyplau priod at ddibenion diewyllysedd. Gall pryderon godi yn enwedig lle byddai diewyllysedd yn effeithio ar hawliau plant, gan gynnwys y rhai o berthnasoedd blaenorol, neu berthnasau eraill. Felly, mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am ystod eang o safbwyntiau ar y materion hyn.

Wrth ystyried y pryderon hyn, mae'r llywodraeth hefyd wedi asesu a allai math mwy cyfyngedig neu rannol o hawl gynnig dewis ymarferol arall. Archwiliodd Comisiwn y Gyfraith opsiynau o'r fath a daeth i'r casgliad y byddai "model rhannol" sy'n rhoi hawliau mwy cyfyng i gyplau sy'n cyd-fyw na chyplau priod yn anodd ei ddylunio, yn anoddach ei roi ar waith yn ymarferol ac yn fwy tebygol o arwain at anghydfodau ac ymgyfreitha. Ar ôl ystyried y dadansoddiad hwn, mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r asesiad hwn ac mae'n bwriadu mabwysiadu model clir a syml lle mae cyplau sy'n cyd-fyw sy'n gymwys yn cael yr un hawliau diewyllysedd â phobl briod neu bartneriaid sifil.

Mae'n bwysig cofio bod y rheolau diewyllysedd yn drefniant 'wrth gefn' cyfreithiol os na fydd yr ymadawedig yn gadael ewyllys ddilys. Eu pwrpas yw adlewyrchu mewn cyfraith sut y byddai person cyffredin yn dewis dosbarthu ei ystâd, gan leihau ansicrwydd a'r risg o anghydfodau yn dilyn marwolaeth. O'r herwydd, nid darparu ar gyfer pob sefyllfa bosibl yw'r bwriad y tu ôl i'r rheolau diewyllysedd, ond darparu canlyniad sefydlog sy'n sicr yn gyfreithiol. Mewn llawer o achosion, mae effaith y rheolau diewyllysedd yn debygol o gyfateb, neu gyfateb yn agos iawn, â'r hyn y byddai ewyllysiwr wedi'i bennu mewn ewyllys ddilys. Mae'r llywodraeth yn annog pob unigolyn i lunio ewyllys ddilys, ond mae'n arbennig o bwysig lle mae gan unigolion ddymuniadau penodol a/neu gymhleth ar gyfer eu hystâd.

**Cwestiwn 43**

**A ddylai cyplau sy'n cyd-fyw ac sy'n gymwys gael yr un hawliau diewyllysedd â phobl briod neu bartneriaid sifil? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.**

- Dylent
- Ni ddylent
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Caniatâd gweinyddu: trefn blaenoriaeth**

Mae diwygiad canlyniadol pellach y mae'r llywodraeth yn ei ystyried yn ymwneud â'r drefn flaenoriaeth ar gyfer gwneud cais am Ganiatâd Llythyrau Gweinyddu pan fydd person yn marw'n ddiewyllys. Caniatâd Llythyrau Gweinyddu yw'r awdurdod cyfreithiol a roddir gan y gofrestrfa brofiant sy'n caniatáu i unigolyn reoli a dosbarthu ystâd rhywun sydd wedi marw heb ewyllys. Ar hyn o bryd, nid oes gan gyplau sy'n cyd-fyw unrhyw hawl i wneud cais am

ganiatâd o'r fath ac mae'r gyfraith yn mynnu bod perthynas (rhiant, plentyn neu frawd neu chwaer yn aml) yn gwneud cais. Heb ddiwygio, dan y diwygiadau arfaethedig i ddiewyllysedd, byddent yn etifeddu'r cyfan neu'r rhan fwyaf o'r ystâd, ond ni fyddent yn gallu gwneud cais am ganiatâd i weinyddu'r ystâd. Yn hytrach, byddai angen i berthynas ar wahân wneud cais, efallai hyd yn oed pan na fyddant yn elwa o'r ystâd.

Mae'r llywodraeth yn cydnabod y gall y cam-gydweddu hwn rhwng pwy sy'n etifeddu a phwy sydd ag awdurdod cyfreithiol i weinyddu'r ystâd arwain at oedi, gwrthdaro a thrallod y gellir eu hosgoi. Mewn rhai achosion, efallai y bydd perthnasau'n amharod neu'n araf yn gwneud cais neu efallai y bydd ganddynt berthynas ddadleuol â'r cydbreswylydd sydd wedi goroesi. Gall hyn rwystro'r gwaith o weinyddu'r ystâd a gall waethygu anghydfodau teuluol ar adeg sydd eisoes yn anodd.

Er mwyn osgoi sefyllfaoedd o'r fath, bydd y llywodraeth yn sicrhau bod cydbreswylwyr cymwys, yn y Rheolau Profiant Diwrthwynebiad (NCPR) 1987 (fel y'u diwygiwyd), yn cael yr un flaenoriaeth i wneud cais am Ganiatâd Gweinyddu â phriod neu bartner sifil. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb ar draws y fframwaith diewyllysedd ac yn darparu proses gliriach a mwy rhagweladwy ar gyfer partneriaid mewn profedigaeth.

**Cwestiwn 44**
**A ddylai cyplau sy'n cyd-fyw ac sy'n gymwys gael yr un flaenoriaeth â phobl briod a phartneriaid sifil i wneud cais am Ganiatâd Gweinyddu os bydd eu partner yn marw'n ddiewyllys?**

- Dylent
- Ni ddylent
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Pwy sy'n gymwys ac yn elwa o'r hawliau hyn?**
Mae ymestyn hawliau etifeddu mewn perthynas â diewyllysedd yn ddatblygiad cyfreithiol sylweddol. Felly, mae'n hanfodol bod unrhyw ddiwygiad yn darparu diffiniad clir ac ymarferol o bartner sy'n cyd-fyw er mwyn lleihau ansicrwydd, a lleihau'r risg o anghydfodau ymysg teuluoedd, dibynyddion a buddiolwyr posibl eraill.

*Diffiniad*
Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith ddiffiniad o "gywerthedd-priodas" ar gyfer nodi partneriaid sy'n cyd-fyw (h.y. diffinio cyd-fyw drwy gyfeirio at fyw yn yr un cartref â'r ymadawedig, ac fel priod neu bartner sifil yr ymadawedig am gyfnod di-dor). Roedd y dull hwn yn cael ei ffafrio oherwydd ei fod yn darparu eglurder, rhagweladwyedd ac yn cyd-fynd â'r cysyniadau presennol a ddefnyddir yn I(PFD)A 1975, sydd wedi cael eu datblygu a'u profi drwy flynyddoedd lawer o gyfraith achosion. O dan I(PFD)A 1975 mae'n ofynnol i'r llys asesu'r berthynas yn gyfannol drwy gyfeirio at ffactorau fel cydbreswyliaeth, trefniadau ariannol, ymrwymiad ar y cyd a chyflwyno'r berthynas yn gyhoeddus. O ystyried

y byddai'r hawliau diewyllysedd arfaethedig yn adlewyrchu hawliau priod neu bartner sifil, mae'r llywodraeth hefyd yn cydnabod cydlyniad cymhwyso diffiniad sy'n adlewyrchu hyn.

Mae'r llywodraeth hefyd yn cydnabod, yng nghyd-destun gwahanu, ei bod yn fwy priodol diffinio cyplau sy'n cyd-fyw drwy gyfeirio at "berthynas deuluol barhaus", gan ei fod yn cyfleu'n well y mathau o berthnasoedd hirdymor, rhyngddibynnol ac ymrwymedig y bwriedir i'r fframwaith ymdrin â nhw. Ni fyddai diffiniad o "gywerthedd-priodas" yn addas yn y cyd-destun hwn chwaith, gan y bydd gan gyplau sy'n cyd-fyw fynediad at set gulach o hawliau a gwarchodaeth na'r hyn a gynigir wrth ysgaru.

At ei gilydd, barn y llywodraeth yw y gallai diffiniad o gywerthedd-priodas at ddibenion hawliau diewyllysedd fod yn fwy priodol. Mae hyn yn adlewyrchu tair prif ystyriaeth:

<u>1.Cyd-destunau cyfreithiol penodol</u>
Er ei bod yn ymddangos yn haws mabwysiadu un diffiniad ar gyfer gwahanu a marwolaeth, mae'r ystyriaethau cyfreithiol ac ymarferol yn wahanol iawn. Mae gwahanu'n golygu rhannu asedau rhwng partneriaid, ond o dan y diwygiadau arfaethedig, gall marwolaeth ailddyrannu asedau oddi wrth deulu ehangach yr ymadawedig. Mae'r amgylchiadau hyn yn cyfiawnhau dulliau gweithredu gwahanol. Mae gan fframweithiau cyfreithiol presennol ar draws y gyfraith ehangach glytwaith o ddiffiniadau sy'n ymwneud â chyd-fyw i adlewyrchu natur y cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau perthnasol yng nghyd-destun perthynas fwy anffurfiol yn gyfreithiol. Byddai diffinio cyd-fyw drwy gyfeirio at briodas yn adlewyrchu hawliau cyfatebol pobl briod y byddai cyplau sy'n cyd-fyw yn eu derbyn.

<u>2. Yr angen mwy am sicrwydd mewn cyfraith olyniaeth</u>
Mewn rhai achosion, gall diewyllysedd fod yn wahanol iawn i'r hyn y byddai'r ewyllysiwr wedi'i gyfarwyddo drwy ewyllys ddilys, yn enwedig mewn achosion o deuluoedd cyfunol. O'r herwydd, mae'n arbennig o bwysig bod y diffiniad ar gyfer nodi partner sy'n cyd-fyw yn glir ac yn cyd-fynd ag egwyddorion etifeddiaeth sefydledig i leihau anghydfodau diangen o gymhleth.

<u>3. Aliniad ag I(PFD)A 1975</u>
Mae diffiniad o gywerthedd-priodas yn cynnal cysondeb â'r fframwaith presennol sy'n rheoli hawliadau am ddarpariaeth ariannol resymol, gan leihau'r risg o brofion sy'n gwrthdaro o fewn cyfraith olyniaeth. Mae'r diffiniad yn I(PFD)A 1975 wedi cael ei brofi a'i ddatblygu drwy ddegawdau o gyfraith achosion ac mae'n darparu sail sefydlog a theg i gyplau sy'n cyd-fyw wneud hawliad i ystadau eu partneriaid sydd wedi marw.

Tynnodd Comisiwn y Gyfraith sylw at y budd hwn yn ei adroddiad yn 2011, gan nodi bod corff sylweddol o gyfraith achosion eisoes yn delio â materion sy'n ymwneud â chyplau sy'n cyd-fyw. Mae hyn yn cynnwys materion fel absenoldebau anwirfoddol o'r aelwyd a rennir, yn enwedig lle mae partner wedi treulio amser mewn ysbyty neu hosbis naill ai yn

ystod y cyfnod cymhwyso neu yn union cyn iddynt farw. Bydd y gyfreitheg bresennol hon yn rhoi cynsail gwerthfawr ac arweiniad cliriach i'r llys wrth ystyried amgylchiadau tebyg mewn achosion diewyllysedd, gan leihau ansicrwydd i deuluoedd ac ymarferwyr.

Mae'r llywodraeth hefyd yn cydnabod y posibilrwydd a godwyd gan Gomisiwn y Gyfraith y gallai fod hawliadau cystadleuol i ystâd fel cydbreswylydd cymwys. Gan mai digwyddiad cymharol brin fydd hwn mae'n debyg, cred y llywodraeth mai'r partïon dan sylw sydd yn y sefyllfa orau i ddod i gytundeb sydd o fudd i'r ddwy ochr. Fodd bynnag, os na fydd hyn yn arwain at ddatrysiad, yna mae'r llys yn fwy na chymwys i ddyfarnu ar anghydfod o'r fath ac unwaith eto mae ganddo brofiad o gydbwyso hawliadau sy'n cystadlu â'i gilydd o dan I(PFD)A 1975.

Am y rhesymau hyn, mae'r llywodraeth o'r farn y gallai diffiniad o gywerthedd-priodas fod yn fwy priodol ar gyfer pennu hawl ar ôl marwolaeth na'r dull gweithredu "perthynas deuluol barhaus" a gynigir ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw wrth wahanu. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth yn awyddus i glywed amrywiaeth o safbwyntiau ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r mater hwn.

**Cwestiwn 45**
**Pa ffactorau eraill, os o gwbl, y dylai'r llywodraeth eu hystyried wrth benderfynu ar y diffiniad o gydbreswylydd at ddibenion hawliau diewyllysedd? Rhowch eich ateb yn y blwch isod.**

- [Testun rhydd]

**Isafswm cyfnod**
Mae rhoi hawliau etifeddu awtomatig ar ddiewyllysedd i bobl sy'n cyd-fyw yn gam cyfreithiol sylweddol. Er mwyn lleihau canlyniadau anfwriadol a sicrhau bod yr hawl yn adlewyrchu perthnasoedd gwirioneddol ymroddedig a sefydlog, mae'r llywodraeth o'r farn y dylai isafswm cyfnod cyd-fyw cymwys fod yn berthnasol i benderfynu pwy sy'n gymwys i fod yn gydbreswylydd. Yn ogystal, ni fyddai'r darpariaethau hyn ond yn gymwys lle bu farw'r ymadawedig yn ddiewyllys ac nad oedd yn briod nac mewn partneriaeth sifil yn union cyn eu marwolaeth. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â chasgliad Comisiwn y Gyfraith bod canlyniadau cyfreithiol i briodas neu bartneriaeth sifil nad ydynt yn dod i ben drwy ysgaru neu ddiddymu, ac ni ddylai diewyllysedd fod yn eithriad i'r rheol gyffredinol honno.

Wrth ddatblygu ei gynigion, mae'r llywodraeth wedi ystyried argymhelliad Comisiwn y Gyfraith o isafswm cyfnod o bum mlynedd sy'n dod i ben dim ond gyda marwolaeth un o'r partneriaid mewn achosion lle nad oedd gan y cwpl blentyn gyda'i gilydd. Er bod dadansoddiad Comisiwn y Gyfraith yn darparu pwynt cyfeirio defnyddiol, mae'r Llywodraeth yn adolygu a yw'r cyfnod hwnnw'n dal yn briodol o ystyried strwythurau teuluol cyfoes a'r effaith bosibl ar ddibynyddion.

Ffactor pwysig i'r llywodraeth yw'r cynnydd yn nifer yr achosion o "deuluoedd cyfunol" ac, yn benodol, yr effaith ar blant o berthnasoedd blaenorol. Mewn rhai achosion, gall rhoi hawliau cyfwerth â phriod i bartner sy'n goroesi leihau'n rhannol, neu'n gyfan gwbl, yr hyn sydd ar gael i'r plant hynny. Gall lleiafswm cyfnod helpu i osgoi dargyfeirio asedau oddi wrth fuddiolwyr y gallai'r ymadawedig yn rhesymol fod wedi disgwyl eu hetifeddu. Os yw'r isafswm cyfnod yn rhy fyr, mae risg o greu cymhellion i'r rhai sy'n cam-drin mewn perthnasoedd cyd-fyw.[95]

Mae'n bwysig nodi, o dan y cynigion hyn, pe bai cydbreswylydd yn etifeddu'r cyfan (neu'r rhan fwyaf) o ystâd ei bartner mewn achos o ddiewyllysedd, mae'n debyg y byddai gan unrhyw blant o berthynas flaenorol statws o dan I(PFD)A 1975 i ddod â hawliad i'r ystâd. Efallai fod hyn yn groes i'r hyn a fyddai'n digwydd yn y sefyllfa hon ar hyn o bryd, lle nad oes gan y partner sy'n cyd-fyw hawl i'r ystâd o dan reolau diewyllysedd, gan y byddai'n mynd i blant yr ymadawedig, ond gallent wneud hawliad o dan I(PFD)A 1975. Mae hawliadau a wneir o dan I(PFD)A 1975 yn gymhleth ac mae eu teilyngdod yn dibynnu ar ffeithiau'r sefyllfa benodol. Fel y nodir uchod, gellir osgoi canlyniadau annymunol diewyllysedd os bydd unigolion yn dewis gwneud ewyllys.

Yn y pen draw, mae'r llywodraeth yn cydnabod na all y gyfraith ragweld pob trefniant teuluol, ac efallai y bydd angen datrys rhai amgylchiadau cymhleth, yn enwedig lle mae nifer o aelwydydd neu deuluoedd cyfunol yn gysylltiedig, drwy hawliadau o dan I(PFD)A 1975.

**Cwestiwn 46**
**Yn eich barn chi, beth yw'r isafswm cyfnod priodol pan nad oes gan y cwpl blentyn gyda'i gilydd?**

- Llai na 5 mlynedd
- 5 mlynedd
- Mwy na 5 mlynedd
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Beth yw canlyniadau anfwriadol posibl pennu isafswm cyfnod byrrach neu hirach?**

- [Testun rhydd]

**Cyplau â phlant**
Pan fydd cwpl yn rhannu plentyn, gall eu perthynas ddangos lefel wahanol o ymrwymiad a chyd-ddibyniaeth. Pan fydd y prif ddiffiniad o gydbreswylydd cymwys a amlinellir uchod yn cael ei fodloni, a bod y person hwnnw hefyd yn rhiant i blentyn gyda'r ymadawedig, cynigiodd Comisiwn y Gyfraith y dylid cael isafswm cyfnod byrrach. Cynigiwyd isafswm

[95] Diffinnir bod yn agored i niwed fel yr angen am ofal, cefnogaeth neu warchodaeth arbennig oherwydd oedran, anabledd, risg o gam-drin neu esgeulustod.

cyfnod o ddwy flynedd yn yr amgylchiadau hyn (sy'n ostyngiad o'r pum mlynedd a argymhellwyd ganddynt ar gyfer cyplau heb blant). Er bod y llywodraeth yn gweld gwerth mewn cyfnod byrrach lle mae plant yn gysylltiedig, mae'n gofyn am farn ynghylch ai dwy flynedd yw'r trothwy mwyaf addas.

Mae'r llywodraeth yn nodi bod y cyd-destunau cyfreithiol ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw wrth wahanu ac yn dilyn marwolaeth yn wahanol ac yn aml yn digwydd ar wahanol adegau mewn bywyd. Ar gyfer gwahanu, pan fydd plentyn yn gysylltiedig, mae'r llywodraeth yn cynnig dileu'r cyfnod cymhwyso'n llwyr. Mae hyn yn adlewyrchu nod y polisi o flaenoriaethu canlyniadau teg i unrhyw blant yn y teulu, a allai olygu bod angen ailddyrannu adnoddau rhwng partneriaid i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. I'r gwrthwyneb, mae diewyllysedd yn ailddyrannu asedau oddi wrth deulu ehangach yr ymadawedig, a all gynnwys plant o berthnasoedd blaenorol. Bydd plant y cydbreswylwyr, eu hunain, yn etifeddu cyfran o'r ystâd mewn achos o ddiewyllysedd pan nad yw eu rhiant sy'n dal yn fyw yn bodloni'r meini prawf i fod yn gydbreswylydd cymwys. Mae'r gwahaniaeth hwn yn ei gwneud yn anoddach dim ond i adlewyrchu'r dull sy'n cael ei archwilio ar gyfer gwahanu. Gall unrhyw gydbreswylydd sy'n goroesi yn y sefyllfa hon hefyd fod â hawl i wneud hawliad i'r ystâd drwy I(PFD)A 1975.

**Cwestiwn 47**
**Yn eich barn chi, beth yw'r isafswm cyfnod priodol pan fo gan y cwpl blentyn gyda'i gilydd?**

- Dim isafswm cyfnod
- 2 flynedd
- Mwy na 2 flynedd
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**A oes unrhyw risgiau neu fanteision penodol yr ydych wedi'u nodi y dylai'r llywodraeth eu hystyried wrth bennu isafswm cyfnod ar gyfer cyplau â phlentyn gyda'i gilydd?**

- [Testun rhydd]

**Newidiadau i gymhwysedd o dan I(PFD)A 1975**
Mae'r llywodraeth yn cytuno ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith i ymestyn cymhwysedd ar gyfer hawliadau darpariaeth deuluol o dan I(PFD)A 1975 ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw sydd â phlant. Mae'r meini prawf presennol yn caniatáu i gydbreswylwyr a oedd wedi byw gyda'r ymadawedig, fel pe baent yn briod neu'n bartneriaid sifil, am o leiaf ddwy flynedd cyn y farwolaeth, wneud hawliad i'r ystâd. Y diwygiad arfaethedig yw dileu'r isafswm cyfnod hwn o ddwy flynedd lle mae'r partner sy'n cyd-fyw yn bodloni'r diffiniad uchod ond hefyd yn dad neu'n fam i blentyn person sydd wedi marw (gan gynnwys plentyn "en ventre sa mere", neu blentyn a aned yn fyw ond a fu farw cyn y ddau riant).

Mae hyn yn sicrhau bod partneriaid sydd wedi goroesi o berthnasoedd cyd-fyw byr lle mae plant yn gysylltiedig, yn dal yn gallu gwneud hawliad yn erbyn ystâd eu partner, oherwydd na fyddent fel arall yn gymwys i gael darpariaeth o dan ein diwygiadau diewyllysedd arfaethedig. Mae'n debyg y byddai plant yr ymadawedig, yn y sefyllfaoedd hyn, yn etifeddu rhywfaint neu'r cyfan o'r ystâd yn dibynnu ar sefyllfa deuluol ehangach yr ymadawedig. Byddent hefyd yn cadw'r gallu i wneud hawliad I(PFD)A 1975. Mae hyn yn adlewyrchu realiti dibyniaeth ariannol cael plant ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth o dan I(PFD)A 1975 yn ymestyn i'r rhai a allai'n rhesymol fod wedi disgwyl cymorth ariannol parhaus gan yr ymadawedig. Efallai y bydd gan gydbreswylydd sy'n dal yn fyw mewn unrhyw sefyllfa hawliad o dan I(PFD)A 1975, beth bynnag fo hyd neu natur y berthynas, os gallant brofi eu bod yn cael eu cynnal, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, gan yr ymadawedig yn union cyn eu marwolaeth. Mae'r llywodraeth yn croesawu barn am unrhyw effeithiau ychwanegol y gallai'r diwygiad hwn eu cael.

**Cwestiwn 48**
**Ydych chi'n cytuno â chynnig y llywodraeth i ymestyn cymhwysedd ar gyfer hawliadau I(PFD)A 1975 lle mae cydbreswylwyr wedi rhannu plant?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn siŵr
- [Testun rhydd]

**Cwestiwn 49**
**A oes unrhyw effeithiau ehangach yn sgil ymestyn cymhwysedd ar gyfer hawliadau I(PFD)A 1975 lle'r oedd cydbreswylwyr yn rhannu plant y dylai'r llywodraeth eu hystyried?**

- [Testun rhydd]

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd yn y papur ymgynghori hwn.

## Rhan 1: Diwygio'r gyfraith rhwymedïau ariannol ar gyfer ysgaru

**1.** A ydych yn cytuno â barn y llywodraeth mai amcan yr egwyddor rhannu yw rhoi budd cyfartal i bartïon i eiddo priodasol drwy rannu asedau priodasol yn gyfartal? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**2.** Ydych chi'n cytuno â barn y llywodraeth y dylai'r llys ystyried yr egwyddor rhannu fel man cychwyn ac ystyried yr egwyddor anghenion lle na fyddai rhannu cyfartal yn caniatáu diwallu anghenion? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**3.** A ydych yn cytuno â barn y llywodraeth y dylai godeiddio'r gwahaniaethau rhwng eiddo priodasol ac eiddo nad yw'n briodasol, yn unol â phenderfyniad y Goruchaf Lys yn *Standish*? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**4.** A ddylai'r llys allu ystyried sut mae'r partïon wedi defnyddio, rhannu a thrin yr eiddo, a thros ba gyfnod, wrth benderfynu a yw eiddo nad yw'n eiddo priodasol wedi dod yn eiddo priodasol? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**5.** Ydych chi'n cytuno â barn y llywodraeth mai amcan cyffredinol y llys wrth wneud gorchymyn ariannol yw sicrhau canlyniad teg drwy gymhwyso'r egwyddorion rhannu ac anghenion? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**6.** A ydych yn cytuno â barn y llywodraeth mai'r amcan ar gyfer diwallu anghenion ddylai fod galluogi'r ddwy ochr i bontio i annibyniaeth, cyn belled ag y mae adnoddau'n caniatáu? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**7.** Ydych chi'n cytuno â barn y llywodraeth y dylai'r llys gymhwyso'r amcan anghenion gan ddefnyddio dull hierarchaidd tri cham? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**8.** Ydych chi'n cytuno y dylai'r camau ganolbwyntio ar y canlynol:
   1) yr ystyriaeth gyntaf i les unrhyw blant yn y teulu;
   2) anghenion cyfalaf ac incwm, gan gynnwys eu hanghenion tai a phensiwn yn unol â'r safon byw yn ystod y briodas; a
   3) lle bo adnoddau'n caniatáu, angen dewisol, yn unol â'r safon byw yn ystod y briodas?

Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**9.** Ydych chi'n cytuno â barn y llywodraeth y dylid cael rhestr wirio o ffactorau y mae'n rhaid i'r llys eu hystyried wrth gymhwyso'r amcan rhannu ac anghenion? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**10.** Ydych chi'n cytuno y dylai'r rhestr wirio hon gynnwys cyfeiriad penodol at unrhyw anfantais a ddioddefwyd o ganlyniad i'r berthynas? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**11.** Ydych chi'n credu y dylid cael mwy o barodrwydd i ystyried cam-drin domestig mewn perthynas â dosbarthiad asedau gan y llys mewn achosion rhwymedi ariannol ac achosion cyd-fyw? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**12.** I ba raddau y dylai cam-drin domestig, os caiff ei sefydlu, ddylanwadu ar benderfyniadau'r llys mewn achosion rhwymedi ariannol a chyd-fyw?

**13.** Pe bai cam-drin domestig yn cael ei ystyried yn fwy rheolaidd mewn achosion rhwymedi ariannol a chyd-fyw, sut ydych chi'n meddwl y dylai hyn effeithio ar *rannu asedau* rhwng partïon? Er enghraifft, pa egwyddorion ddylai lywio sut mae camymddwyn yn cael ei adlewyrchu mewn canlyniadau ariannol a sut dylid defnyddio hyn yn ymarferol?

**14.** Pe bai'n haws i lysoedd allu ystyried cam-drin domestig mewn achosion rhwymedi ariannol a chyd-fyw, pa effaith ydych chi'n meddwl y byddai hyn yn ei chael ar yr achosion hynny (er enghraifft, hyd achosion, gofynion tystiolaethol, costau i bartïon a phrofiad cyffredinol dioddefwyr-oroeswyr)?

**15.** Ydych chi'n cytuno bod yr iaith a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddisgrifio'r trothwy ar gyfer ystyried camymddwyn mewn achosion rhwymedi ariannol (y cyfeirir ato weithiau fel y "ffactor braw") yn amhriodol ac y dylid ei ddisodli? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**16.** Yn eich barn chi, pa fathau o ymddygiad ddylai gael eu hystyried yn "gamymddwyn"? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**17.** Pa fath o effaith ydych chi'n meddwl y dylai camymddwyn ei chael ar hawliad rhwymedi ariannol neu hawliad cyd-fyw?

**18.** Os ydych chi'n credu y dylai'r llys fod yn fwy parod i ystyried camymddwyn, ydych chi'n credu y dylai'r llys drin camymddwyn sydd â chanlyniadau ariannol yn yr un modd â chamymddwyn heb ganlyniadau ariannol?

**19.** Ydych chi'n cytuno â barn y llywodraeth y dylai fod yn ofynnol yn benodol i'r llys ystyried pensiynau a gronnwyd yn ystod y briodas ac anghenion pensiwn wrth wneud gorchmynion ariannol? Esboniwch eich ateb yn y blwch testun.

**20.** Ydych chi'n credu y bydd y mesurau diogelu arfaethedig hyn yn sicrhau bod unigolion yn deall canlyniadau eu cytundeb ac yn darparu digon o amddiffyniad rhag gorfodaeth? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**21.** Ydych chi'n cytuno â barn y llywodraeth, wrth ystyried diwallu "anghenion" o dan y model cytundeb priodasol cymwys a gynigir, y dylai hyn eithrio anghenion dewisol, yn yr un ffordd â'r hyn a gynigir ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw? Esboniwch y rheswm dros eich ateb yn y blwch testun.

**22.** Y tu hwnt i dai, cyfalaf, incwm a phensiynau, a oes unrhyw elfennau eraill y credwch y dylid eu cynnwys yn yr asesiad o "anghenion", neu eu heithrio ohono, yng nghyd-destun cytundebau priodasol cymwys? Esboniwch y rheswm dros eich ateb yn y blwch testun.

**23.** A ydych yn cytuno â barn y llywodraeth y dylai'r llys ystyried bod perthynas cyd-fyw cyn priodi yn cyfrif tuag at hyd priodas, lle mae'r berthynas honno'n symud yn ddi-dor o gyd-fyw i briodas? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**24.** Pa ffactorau, fel yr amlinellwyd yn adroddiad 2007 Comisiwn y Gyfraith, ydych chi'n meddwl y dylai'r llys eu hystyried wrth asesu a fu cyd-fyw di-dor cyn y briodas? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

## Rhan 2: Diwygio'r gyfraith ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw wrth wahanu

**25.** Ydych chi'n cytuno y dylai cyplau sy'n cyd-fyw a gwmpesir yn y fframwaith fod yn byw gyda'i gilydd fel cwpl mewn perthynas deuluol barhaus?

**26.** Pa ffactorau, fel yr amlinellwyd yn adroddiad 2007 Comisiwn y Gyfraith, ydych chi'n meddwl y dylai'r llys eu hystyried wrth ystyried a yw unigolion yn cyd-fyw? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

**27.** Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheini sydd eisoes wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil â'i gilydd, neu'r rheini sy'n perthyn yn rhy agos i'w gilydd i briodi, fod yn anghymwys ar gyfer y fframwaith?

**28.** Ydych chi'n cytuno mai 18 oed ddylai fod yr isafswm oedran i fod yn gymwys ar gyfer y fframwaith?

**29.** A ydych yn cytuno â chynnig y llywodraeth ei bod yn rhaid i gyplau heb blant fod wedi byw gyda'i gilydd am o leiaf dair blynedd, cyn y gallant gael mynediad at y fframwaith cyd-fyw? Os ydych chi'n anghytuno â'r isafswm cyfnod o dair blynedd a awgrymir uchod, pa gyfnod fyddech chi'n ei gynnig yn lle hynny? Os ydych chi'n anghytuno â'r isafswm cyfnod o dair blynedd, ac wedi dewis cyfnod gwahanol, esboniwch pam isod:

**30.** Ydych chi'n cytuno, lle mae cyplau'n cyd-fyw a bod plentyn yn y teulu, y dylid datgymhwyso'r gofyniad isafswm cyfnod?

**31.** A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno terfyn amser i atal hawliadau rhag cael eu gwneud ar ôl i ddwy flynedd fynd heibio ers i'r berthynas ddod i ben? Os ydych chi'n anghytuno â'r cyfnod o ddwy flynedd a awgrymir uchod, pa gyfnod fyddech chi'n cynnig yn lle hynny? Os ydych chi'n anghytuno â'r cyfnod o ddwy flynedd, ac wedi dewis cyfnod gwahanol, esboniwch pam isod:

**32.** Ydych chi'n cytuno mai "anghenion" ddylai fod yr egwyddor arweiniol y dylai'r llys ei dilyn ar gyfer pennu canlyniadau pan fydd cyplau sy'n cyd-fyw yn gwahanu? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**33.** Ydych chi'n cytuno â barn y llywodraeth mai'r amcan ar gyfer diwallu anghenion ddylai fod gwneud hynny mewn ffordd sy'n galluogi terfynu dibyniaeth a rhwymedigaethau cyn gynted ag sy'n gyfiawn ac yn rhesymol? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**34.** Ydych chi'n cytuno y dylid eithrio anghenion dewisol o'r broses o ystyried anghenion cyplau sy'n cyd-fyw? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**35.** Ydych chi'n cytuno y dylai'r llys allu ystyried anghenion sy'n deillio o amgylchiadau ehangach na'r berthynas (er enghraifft, cyflyrau iechyd difrifol neu anableddau) wrth benderfynu ar ddarpariaeth ariannol? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**36.** Ydych chi'n cytuno y dylid cael rhestr wirio o'r materion y mae'n rhaid i'r llys eu hystyried yn benodol wrth gymhwyso'r egwyddor anghenion? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

**37.** Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â rhwymedïau ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw?

**38.** O ran cynhaliaeth yn benodol, ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Ticiwch bob un sy'n berthnasol:

- Dylid dyfarnu cynhaliaeth mewn amgylchiadau eithriadol (fel materion iechyd difrifol neu anabledd).
- Dylai unrhyw orchymyn cynhaliaeth fod yn gyfyngedig o ran amser, heb unrhyw orchmynion "bywydau ar y cyd" penagored.
- Ni ellir ymestyn cyfnod gorchymyn cynhaliaeth y tu hwnt i'r cyfnod gwreiddiol a bennwyd gan y llys.

Os ydych chi'n anghytuno ag unrhyw un o'r cynigion uchod, esboniwch pam.

39. Ydych chi'n cytuno y dylid cael gofyniad penodol na all y llys roi dyfarniad uwch i gyplau sy'n cyd-fyw nag un a fyddai wedi cael ei roi'n rhesymol pe baent yn gwpl priod sy'n ysgaru?

40. Ydych chi'n cytuno y dylai'r holl fesurau diogelu a restrir uchod fod yn ofynnol er mwyn i gytundeb optio allan fod yn ddilys? Os ydych chi'n anghytuno, esboniwch pa fesurau diogelu y byddech chi naill ai'n eu hychwanegu neu'n eu dileu ac esboniwch pam.

41. Ydych chi'n cytuno na ddylai optio allan allu atal cais rhag cael ei wneud ar ran plentyn?

42. Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfleu'r diwygiadau hyn i'r cyhoedd, yn enwedig er mwyn helpu i chwalu myth priodas cyfraith gyffredin a chodi ymwybyddiaeth o'r hawliau cyfreithiol newydd?

## Rhan 3: Diwygio'r gyfraith ar gyfer cyplau sy'n cyd-fyw yn dilyn marwolaeth

43. A ddylai cyplau sy'n cyd-fyw ac sy'n gymwys gael yr un hawliau diewyllysedd â phobl briod neu bartneriaid sifil? Efallai y byddwch am roi rhesymau yn y blwch testun.

44. A ddylai cyplau sy'n cyd-fyw ac sy'n gymwys gael yr un flaenoriaeth â phobl briod a phartneriaid sifil i wneud cais am Ganiatâd Gweinyddu os bydd eu partner yn marw'n ddiewyllys?

45. Pa ffactorau eraill, os o gwbl, y dylai'r llywodraeth eu hystyried wrth benderfynu ar y diffiniad o gydbreswylydd at ddibenion hawliau diewyllysedd? Rhowch eich ateb yn y blwch isod.

46. Yn eich barn chi, beth yw'r isafswm cyfnod priodol pan nad oes gan y cwpl blentyn gyda'i gilydd? Beth yw canlyniadau anfwriadol posibl pennu isafswm cyfnod byrrach neu hirach?

47. Yn eich barn chi, beth yw'r isafswm cyfnod priodol pan fo gan y cwpl blentyn gyda'i gilydd? A oes unrhyw risgiau neu fanteision penodol yr ydych wedi'u nodi y dylai'r llywodraeth eu hystyried wrth bennu isafswm cyfnod ar gyfer cyplau â phlentyn gyda'i gilydd?

48. Ydych chi'n cytuno â chynnig y llywodraeth i ymestyn cymhwysedd ar gyfer hawliadau I(PFD)A 1975 lle mae cydbreswylwyr wedi rhannu plant?

49. A oes unrhyw effeithiau ehangach yn sgil ymestyn cymhwysedd ar gyfer hawliadau I(PFD)A 1975 lle'r oedd cydbreswylwyr yn rhannu plant y dylai'r llywodraeth eu hystyried?

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

# Amdanoch chi

Llenwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl eich swydd** neu ym mha swyddogaeth yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r cwmni/sefydliad** (os yw'n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, nodwch enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cysylltu/Sut mae ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 14 Awst 2026 at:

Family Justice Policy Team
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

**E-bost**: frcohabconsultation@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae copïau ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn a hefyd ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

Gellir gwneud cais am fformatau eraill o'r cyhoeddiad hwn gan frcohabconsultation@justice.gov.uk

## Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am i'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio ag ymrwymiadau cyfrinachedd,

ymysg pethau eraill. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech chi egluro i ni pam rydych chi o'r farn bod y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn wybodaeth gyfrinachol. Os byddwn ni'n cael cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd bod modd cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn un sy'n cyfrwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

# Asesiad effaith, cydraddoldeb a'r Gymraeg

## Asesiad effaith

Mae'r asesiad effaith yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r papur ymgynghori hwn yn: https://www.gov.uk/government/consultations/a-fairer-end-to-relationships

## Cydraddoldeb

Mae'r datganiad cydraddoldeb yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r papur ymgynghori hwn yn: https://www.gov.uk/government/consultations/a-fairer-end-to-relationships

## Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg

Rydym wedi ystyried y goblygiadau i'r iaith Gymraeg. Bydd fersiwn Gymraeg o'r ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei chyhoeddi.yn: https://www.gov.uk/government/consultations/a-fairer-end-to-relationships

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn Egwyddorion Ymgynghori 2018 Swyddfa'r Cabinet sydd i'w gweld yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

E03533468

978-1-5286-6191-1